Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

# Y Cwlwm Priodasol

## Ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr

CP 1628

Government of the United Kingdom

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

# Y Cwlwm Priodasol

## Ymgynghoriad ar ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr

Cyflwynwyd i Senedd y DU gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2026

CP 1628

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Mae’r ddogfen hon wedi ei thrwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y ddogfen hon atom yn [insert contact details].

ISBN 978-1-5286-6192-8

E03533475 07/26

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae’r ymgynghoriad hwn yn agored i’r cyhoedd. Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan gynrychiolwyr o sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol, unigolion sy’n gweinyddu priodasau sydd yn rhwymo mewn cyfraith neu sydd ddim yn rhwymo mewn cyfraith, academyddion, seneddwyr, neu unrhyw bobl eraill sy’n ymwneud â’r sector priodasau. |
| **Hyd:** | O 16/07/26 i 24/09/26 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** | Family Justice Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: weddingslawconsultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 24 Medi 2026 at:<br><br>Family Justice Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: weddingslawconsultation@justice.gov.uk |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **4** |
| **Geirfa** | **7** |
| **Crynodeb gweithredol** | **13** |
| Trosolwg | 13 |
| Yr egwyddorion sy’n sail i’r ymgynghoriad | 13 |
| Cynigion craidd | 14 |
| **Cyflwyniad** | **17** |
| **Pennod 1 - Y Gyfraith Bresennol, yr Achos dros Ddiwygio a’r Dull Diwygio** | **18** |
| Y Gyfraith Bresennol | 18 |
| Yr Achos dros Ddiwygio’r Gyfraith | 22 |
| Y Dull o Ddiwygio | 26 |
| **Pennod 2 - Rhagarweiniadau** | **29** |
| Y broses ragarweiniadau dau gam | 29 |
| **Pennod 3 - Ffurfio Priodas yn Gyfreithiol** | **34** |
| Cydsyniad mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol | 34 |
| Cydsyniad mewn seremonïau sifil | 35 |
| **Pennod 4 - Y Fframwaith Urddas** | **37** |
| Diogelu urddas o dan gynllun diwygiedig | 37 |
| Y Fframwaith Urddas | 38 |
| Cynnwys y seremoni | 47 |
| **Pennod 5 – Lleoliadau Penodol ar gyfer Priodasau** | **51** |
| Lleoliadau wedi’u rhag-awdurdodi | 51 |
| Priodasau mewn cartrefi preifat | 53 |
| Priodasau ar Ddŵr | 54 |
| **Pennod 6 – Rôl Gweinyddwyr** | **58** |

Rôl gweinyddwyr 58

Rôl y gweinyddwr wrth gynnal urddas 59

Mathau o Weinyddwyr 60

Diffiniad o "sefydliadau cred crefyddol" 62

Diffiniad o "sefydliadau cred anghrefyddol" 63

Cyfnod Sefydlu Sylfaenol a Nifer yr Aelwydydd 64

Gweinyddwyr Sifil 68

**Pennod 7 – Rheoleiddio Gweinyddwyr 73**

Awdurdodi Gweinyddwyr (Gofynion Mynediad) 73

Rheoleiddio a Goruchwylio Gweinyddwyr 75

Cwynion ac Apeliadau 77

Gweinyddwyr Enwebedig 77

Gweinyddwyr Annibynnol 78

Gweinyddwyr Morwrol 79

Hyfforddi Gweinyddwyr 80

Rheoleiddiwr Canolog 81

**Holiadur 83**

Pennod 2: Rhagarweiniadau 83

Pennod 3: Ffurfio Priodas yn Gyfreithiol 83

Pennod 4: Y Fframwaith Urddas 84

Pennod 5: Lleoliadau Penodol ar gyfer Priodasau 85

Pennod 6: Rôl Gweinyddwyr 86

Pennod 7: Rheoleiddio Gweinyddwyr 86

**Amdanoch chi 88**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb 89**

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg 91**

**Egwyddorion ymgynghori 92**

# Rhagair

Nid oes fawr o ddiwrnodau'n bwysicach i bobl na diwrnod eu priodas. Dyma'r eiliad y mae dau berson yn gwneud ymrwymiad gydol oes i'w gilydd gerbron eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned. Dylai fod yn llawen, yn bersonol ac yn adlewyrchiad o bwy ydyn nhw, beth maen nhw'n ei gredu a'r bywyd maen nhw eisiau ei greu gyda'i gilydd. Ond i ormod o gyplau, nid yw hynny'n bosibl.

Mae'r gyfraith priodasau bresennol yn dal i fod yn seiliedig ar reolau sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'n perthyn i oes wahanol ac nid yw bellach yn adlewyrchu'r gymdeithas amrywiol sydd gennym heddiw. Y canlyniad yw system sy'n gymhleth, yn anghyson ac weithiau'n annheg, sy'n trin gwahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd.

Mae gan y ffydd Anglicanaidd, Iddewig a Chrynwyr ei fframwaith cyfreithiol ei hun, tra bod yn rhaid i bob grŵp crefyddol arall ffitio o fewn un set o reolau, sy'n aml yn methu ag adlewyrchu eu traddodiadau. Mae priodasau sifil yn cael eu llywodraethu gan set arall o reolau yn gyfan gwbl. Ac ni all sefydliadau cred anghrefyddol, gan gynnwys Dyneiddwyr, gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith o gwbl.

Mae'r gyfraith hefyd yn gosod cyfyngiadau hen-ffasiwn ar ble y gall pobl briodi a sut y gellir cynnal eu seremoni.

Gall y cymysgedd cymhleth hwn o gyfreithiau achosi problemau go iawn i gyplau, yn enwedig y rhai sydd eisiau priodas grefyddol. Mae rhai yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i dalu am ddwy seremoni wahanol, un gyfreithiol ac un yn seiliedig ar gred. Mae rhai yn ymrwymo i briodas nad yw'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Mae eraill yn teimlo nad oes ganddynt lawer o ddewis ond priodi mewn ffordd nad yw'n adlewyrchu eu credoau, gan ddifetha rhywbeth a ddylai fod yn achlysur llawen.

I lawer o gyplau, mae costau cynyddol priodasau yn golygu eu bod yn dewis peidio â phriodi. Mae'r swm cyfartalog sy'n cael ei wario ar briodasau heddiw dros £20,000, sy'n anfforddiadwy i lawer o deuluoedd pan fo costau byw yn uwch a phan fo blaenoriaethau ariannol yn cystadlu â'i gilydd.

Mae cyplau anghrefyddol hefyd yn wynebu heriau diangen, gan gynnwys cael eu cyfyngu i ddewis lleoliad o blith mathau cyfyngedig o adeiladau cymeradwy. Ond does dim rheswm pam na all priodas sy'n cael ei chynnal ar draeth, mewn coedwig, neu mewn gardd deuluol ddwyn yr un urddas a phwysigrwydd â phriodas sy'n cael ei chynnal mewn lleoliad mwy traddodiadol.

Mae'r rhwystrau diangen hyn yn cynyddu costau, yn lleihau dewis ac yn creu cymhlethdod diangen. Mewn rhai achosion, maent yn annog cyplau i beidio â phriodi o gwbl.

Priodas yw un o'n sefydliadau cymdeithasol pwysicaf – mae'n rhoi sefydlogrwydd i deuluoedd, yn cryfhau cymunedau ac yn cyfrannu at lefelau uwch o foddhad mewn bywyd. Dyna pam mae'r Llywodraeth eisiau cefnogi mwy o gyplau i briodi pan fyddant yn teimlo mai dyma'r dewis iawn i'w teulu, gan ei gwneud yn haws – nid yn anos —gwneud hynny mewn ffordd sy'n iawn iddyn nhw ac sy'n adlewyrchu pwy ydyn nhw fel pobl.

Dyna pam fy mod, fis Hydref diwethaf, wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer y diwygiadau mwyaf sylweddol i gyfraith priodasau ers dwy ganrif a mwy, gan adeiladu ar adroddiad cynhwysfawr 2022 Comisiwn y Gyfraith *Celebrating Marriage: A New Weddings Law.*

Bydd y diwygiadau hyn yn creu fframwaith modern sy'n adlewyrchu ein cymdeithas heddiw ac yn rhoi mwy o ddewis i gyplau ynglŷn â phwy sy'n gweinyddu eu priodas, ble gallant briodi a sut maent yn dathlu un o ddyddiau pwysicaf eu bywydau.

Byddai'r diwygiadau hefyd yn lleihau rhai o'r anghysondebau sydd yn y gyfraith bresennol, ac yn caniatáu i sefydliadau cred grefyddol, gan gynnwys Dyneiddwyr, i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith am y tro cyntaf.

Ond rydym hefyd yn glir na ddylai diwygio ddigwydd ar draul mesurau diogelu. Mae ein cynigion yn cynnal urddas ac arwyddocâd priodas. Wrth i fwy o ryddid gael ei gyflwyno, mae'r Llywodraeth yn glir bod yn rhaid i ddiwrnod priodas bob amser adlewyrchu'r ymrwymiad difrifol a gydol oes y mae priodas yn ei gynrychioli. Byddwn hefyd yn cryfhau amddiffyniadau yn erbyn priodasau gorfodol, rheibus a ffug – i sicrhau bod priodasau bob amser yn cael eu gwneud yn rhydd, gyda chydsyniad gwybodus, ac nad ydynt yn cael eu defnyddio i ecsbloetio pobl agored i niwed nac i gael mantais annheg.

Y tu hwnt i'r manteision i gymdeithas, bydd y cynigion hyn hefyd o fudd i'n heconomi. Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhagweld y gallai ein newidiadau arwain at gynnydd o 3% yn nifer y priodasau, gan gynhyrchu bron i £140 miliwn yn fwy o wariant blynyddol a chefnogi busnesau ar draws sector priodasau ffyniannus y DU.

Yn bwysicaf oll, bydd y diwygiadau hyn o fudd i gyplau – a fydd yn gallu cael y briodas maen nhw ei heisiau, yn y ffordd maen nhw ei heisiau ac yn y lle maen nhw ei eisiau. Mae'n debygol y byddant hefyd yn gostwng costau priodi, fel y gall cyplau ddewis priodi ni waeth beth fo'u cyllideb.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam nesaf wrth lunio'r diwygiadau pwysig hyn, a byddem yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i rannu eu barn.

Mae priodas yn sefydliad anhygoel. Mae pob cwpl yn haeddu cychwyn ar eu taith gyda diwrnod bythgofiadwy sy’n adlewyrchu eu credoau, eu personoliaethau a’r bywydau maen nhw’n bwriadu eu creu gyda’i gilydd.

Bydd newidiadau’r Llywodraeth hon yn dod â chyfraith priodasau i’r unfed ganrif ar hugain, gan sicrhau bod pob cwpl yn gallu dechrau bywyd priodasol gyda seremoni sy’n cael ei chydnabod yn gyfreithiol ac sy’n wirioneddol addas iddyn nhw.

**Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS**

Y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Geirfa

**"Adeilad cofrestredig":** man addoli ardystiedig sydd hefyd wedi'i gofrestru i briodasau ddigwydd yno.

**"Anglicanaidd":** Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru.

**"Atodlen":** dogfen a gyhoeddir gan y gwasanaeth cofrestru fel rhan o ragarweiniadau sifil, sy'n awdurdodi priodas y cwpl ac sy'n cael ei defnyddio i gofrestru eu priodas.

**"Clerigwyr Anglicanaidd", "clerigwyr" neu "Clerc mewn Urdd Sanctaidd":** esgob, offeiriad neu ddiacon Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru. Dim ond clerigwyr Anglicanaidd all weinyddu priodasau Anglicanaidd.

**"Cofrestr briodas":** cofnod swyddogol o briodasau yng Nghymru a Lloegr a gydnabyddir yn gyfreithiol gan y wladwriaeth.

**"Cofrestrydd" neu "cofrestrydd priodasau":** swyddog a benodir gan awdurdod lleol, sy'n cofrestru priodasau sifil a phriodasau crefyddol mewn adeiladau cofrestredig (ac eithrio pan fydd person awdurdodedig yn bresennol).

**"Cofrestrydd arolygol":** swyddog a benodir gan awdurdod lleol, sy'n cynnal rhagarweiniadau sifil ac yn mynychu priodasau sifil.

**"Cofrestrydd Cyffredinol":** pennaeth y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

**"Cyplau ffydd cymysg":** cyplau lle mae'r unigolion yn dilyn traddodiadau crefyddol gwahanol, neu pan nad yw un partner yn grefyddol tra bo'r llall yn arfer ffydd.

**"Dogfen briodas":** y ddogfen a gyhoeddir ar ôl rhagarweiniadau Anglicanaidd ac a ddychwelir i'w chofrestru ar ôl y seremoni, a gyflwynwyd o dan y system amserlennu o dan Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ac ati) 2019.

**"Drysau agored":** o dan y gyfraith bresennol, gofyniad statudol sy'n berthnasol i briodasau mewn adeiladau cofrestredig neu swyddfeydd cofrestru, a ddehonglir y gyffredinol i olygu bod yn rhaid i'r cyhoedd allu gweld y briodas a chyflwyno gwrthwynebiadau cyn neu yn ystod y seremoni. Mae gofyniad tebyg yn berthnasol i briodasau ar safleoedd cymeradwy y mae'n rhaid iddynt fod ar agor i'r cyhoedd yn ddi-dâl.

**"Dyfroedd mewndirol":** cyrff dŵr tua'r tir o'r llinell sylfaen, fel baeau, afonydd, llynnoedd a chamlesi sydd o dan awdurdodaeth Gwladwriaeth arfordirol yn gyffredinol. Mae gan

wladwriaethau arfordirol sofraniaeth lwyr dros y dyfroedd hyn, gan gynnwys yr hawl i sefydlu a gorfodi cyfreithiau a rheoliadau.[1]

**"Dyfroedd rhyngwladol":** Mae'r moroedd mawr (a elwir hefyd yn ddyfroedd rhyngwladol) yn cynnwys yr holl ardaloedd môr y tu hwnt i'r parthau morwrol eraill (fel moroedd tiriogaethol) ac maent y tu hwnt i sofraniaeth unrhyw Wladwriaeth unigol.

**"Dyneiddiaeth":** Mae Humanists UK yn diffinio Dyneiddiwr fel rhywun:

- sy'n ymddiried yn y dull gwyddonol o ran deall sut mae'r bydysawd yn gweithio ac yn gwrthod y syniad o'r goruwchnaturiol (ac sydd felly'n anffyddiwr neu'n agnostig);
- sy'n gwneud eu penderfyniadau moesegol ar sail rheswm, empathi a phryder am fodau dynol ac anifeiliaid ymdeimladol eraill;
- sy'n credu, yn absenoldeb ôl-fywyd ac unrhyw ddiben canfyddadwy i'r bydysawd, y gall bodau dynol weithredu i roi ystyr i'w bywydau eu hunain drwy geisio hapusrwydd yn y bywyd hwn a helpu pobl eraill i wneud yr un peth.[2]

**"Eglwys sefydledig":** yr eglwys a gydnabyddir gan y gyfraith fel yr eglwys wladol swyddogol. Eglwys Loegr yw eglwys sefydledig Lloegr. Nid yw'r Eglwys yng Nghymru yn eglwys sefydledig yng Nghymru ond mae ganddi olion o fod wedi bod yn eglwys sefydledig yng Nghymru.

**"Geiriau gofynnol":** o dan y diwygiadau arfaethedig, y geiriau y mae'n rhaid i bob pâr eu defnyddio i fynegi eu cydsyniad mewn seremoni sifil.

**"Geiriau rhagnodedig":** o dan y gyfraith bresennol, dyma'r geiriau gosodedig a ddefnyddir ar hyn o bryd gan gyplau i roi caniatâd i briodi, dan adran 44(3) Deddf Priodasau 1949.

**"Gostegion":** math o ragarweiniadau Anglicanaidd ar gyfer priodasau mewn capeli neu eglwysi Anglicanaidd, sy'n cynnwys cyhoeddi mewn eglwys y bwriad i briodi.

**"Gweinyddwr":** yn yr ymgynghoriad hwn, mae'n berson sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod priodas yn cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n goruchwylio ffurf gyfreithiol y briodas. Mae hyn yn cynnwys swyddogion cofrestru, clerigwyr Anglicanaidd, gweinyddwyr enwebedig, gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr arforol.

**"Gweinyddwr annibynnol":** gweinyddwyr (gweler y diffiniad o "Weinyddwr") na fyddant yn swyddogion cofrestru a benodwyd gan y wladwriaeth, nac yn weinyddwyr sy'n

[1] Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau 'Dyfrffyrdd mewndirol a chategoreiddio dyfroedd' (Gov.Uk, 30 Hydref 2023) <https://www.gov.uk/guidance/inland-waterways-and-categorisation-of-waters>

[2] Humanists UK, 'Humanism' (Humanists UK) <https://humanists.uk/humanism/>

gweithredu ar ran sefydliad cred crefyddol neu anghrefyddol, o dan y diwygiadau arfaethedig.

**"Gweinyddwr enwebedig":** gweinyddwyr (gweler y diffiniad o "Weinyddwr") sydd wedi'u henwebu gan sefydliadau cred crefyddol neu anghrefyddol.

**"Gweinyddwr morwrol":** gweinyddwr (gweler y diffiniad o "Weinyddwr") sy'n gallu cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar long fordeithio sydd wedi'i chofrestru yn y DU mewn dyfroedd rhyngwladol.

**"Gweinyddwyr cred":** Clerigwyr Anglicanaidd a gweinyddwyr enwebedig o sefydliadau cred crefyddol neu anghrefyddol.

**"Gweinyddwyr sifil":** Y person a fyddai'n gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod priodas sifil yn cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n goruchwylio ffurf gyfreithiol y briodas, o dan y diwygiadau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys swyddogion cofrestru, gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol.

**"Gwladolyn perthnasol":** a ddiffinnir yn adran 62 o Ddeddf Mewnfudo 2014 fel dinesydd Prydeinig neu Wyddelig; person sydd â statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog a roddwyd o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE; neu berson sydd â phenderfyniad neu apêl yn yr arfaeth ar gais dilys i'r EUSS a gyflwynwyd cyn 1 Gorffennaf 2021[3].

**"Hysbysiad":** mae hysbysiad o briodas yn hysbysiad cyhoeddus ffurfiol bod cwpl yn bwriadu priodi ac mae'n rhaid iddynt wneud hwnnw o leiaf 29 diwrnod cyn eu seremoni.

**"Llong fordeithio":** Llong i deithwyr sydd wedi'i hardystio i gludo mwy na 200 o deithwyr ac sy'n cael ei defnyddio ar gyfer mordeithiau rhyngwladol o dros 600 o filltiroedd morol.

**"Man addoli cofrestredig":** man addoli sydd wedi'i ardystio o dan Ddeddf Cofrestru Mannau Addoli 1855. Ar ôl cael ei ardystio fel man addoli, gellir cofrestru adeilad i weinyddu priodasau hefyd o dan y gyfraith bresennol.

**"Môr tiriogaethol":** Mae'r môr tiriogaethol yn cael ei fesur o linell sy'n cael ei thynnu o amgylch yr arfordir o'r enw'r llinell sylfaen, gan ymestyn 12 milltir fôr tuag allan o'r llinell sylfaen[4].

[3] Deddf Mewnfudo 2014, adran 2.

[4] Deddf Môr Tiriogaethol 1987, adran 1.

**"Partneriaeth sifil":** statws cyfreithiol wedi'i ffurfio gan ddau berson sy'n cofrestru fel partneriaid sifil dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 sy'n darparu'r un hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol i raddau helaeth â phriodas.

**"Person awdurdodedig":** o dan y gyfraith bresennol, person a benodir gan ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu adeilad cofrestredig i fod yn bresennol yn y priodasau sy'n cael eu cynnal yn yr adeilad cofrestredig hwnnw ac i'w cofrestru, sy'n golygu nad oes angen i gofrestrydd fod yn bresennol.

**"Priodas dan orfod":** priodas yr ymrwymodd un neu'r ddau o'r partïon iddi heb gydsyniad rhydd a llawn oherwydd trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth, neu heb y galluedd meddyliol oedd ei angen i gydsynio i'r briodas, fel o dan adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, neu cyn eu pen-blwydd yn 18 oed yn unol â Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (Isafswm Oedran) 2022[5].

**"Priodas ffug":** os nad yw un o'r partïon neu'r ddau ohonynt yn wladolyn perthnasol, mae'r naill barti neu'r llall neu'r ddau ohonynt yn ymrwymo i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil er mwyn osgoi rheolaethau mewnfudo'r DU neu os nad oes perthynas wirioneddol rhwng y partïon.[6]

**"Porthladd o ddewis":** y porthladd penodol y mae cwmni mordeithio yn ei ddewis i ddal ei chofrestrfa.

**"Priodasau crefyddol yn unig":** priodas sy'n cael ei chydnabod gan gymuned neu sefydliad crefyddol ond nid gan y wladwriaeth, oherwydd nad oedd y briodas yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**"Priodas ddi-rym":** mae priodas ddi-rym yn annilys sy'n golygu bod y briodas yn cael ei thrin fel pe na bai erioed wedi dod i fodolaeth.

**"Priodas ddirymadwy":** mae priodas yn ddirymadwy os gellir sefydlu meini prawf penodol, er enghraifft, diffyg cyflawni'r briodas. Yn wahanol i briodas ddi-rym, mae priodas ddirymadwy yn briodas ddilys nes iddi gael ei dirymu gan orchymyn dirymu priodas.

**"Priodas reibus":** caiff ei ddefnyddio i ddisgrifio priodasau mewn amgylchiadau lle mae un person yn priodi person arall, yn aml person sy'n oedrannus ac yn agored i niwed neu heb alluedd, a hynny er mwyn cael mantais ariannol neu fantais arall.

[5] Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Isafwm Oedran 2022, a.1.

[6] Y Swyddfa Gartref,, 'Suitability: Sham Marriage or Civil Partnership' (Gov.uk, 11 Tachwedd 2025) <https://www.gov.uk/government/publications/suitability-sham-marriage-or-civil-partnership/suitability-sham-marriage-or-civil-partnership-accessible>

**"Rhagarweiniadau Anglicanaidd":** y rhagarweiniadau (gweler y diffiniad o "Ragarweiniadau") sy'n cael eu cynnal gan Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, i awdurdodi priodasau Anglicanaidd. Mae'n cyfeirio at gyhoeddi'r gostegion a rhoi trwyddedau cyffredin a thrwyddedau arbennig.

**"Rhagarweiniadau":** y camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn y rhoddir awdurdod cyfreithiol i gynnal priodas.

**"Rhagarweiniadau sifil":** rhaid i bob priodas nad yw'n briodasau Anglicanaidd gael ei rhagflaenu gan ragarweiniadau sifil. O dan y broses hon, rhaid i bob parti roi hysbysiad o'u bwriad i briodi'n bersonol yn yr ardal gofrestru lle maent yn byw. Mae pob parti'n cael ei gyfweld ar wahân gan swyddog cofrestru a rhaid iddo ddarparu dogfennau ategol i ddangos ei fod yn cael priodi'n rhydd ac yn gyfreithlon.

**"Rhwystr cyfreithiol":** rheswm cyfreithiol pam na all dau berson briodi ei gilydd yn ddilys, gan gynnwys bod y naill neu'r llall o'r cwpl o dan 18 oed[7], eisoes wedi priodi, heb gydsyniad neu alluedd dilys i briodi neu fod y cwpl yn perthyn i'w gilydd o fewn y "graddau gwaharddedig" o dan adran 1 o Ddeddf Priodasau 1949.

**"Rhyng-ffydd":** priodas rhyng-ffydd yw priodas sy'n cyfuno elfennau o draddodiadau crefyddol gwahanol (ac weithiau traddodiadau anghrefyddol).

**"Safleoedd cymeradwy":** o dan y gyfraith bresennol, safleoedd lle gellir cynnal priodasau sifil, yn dilyn cymeradwyaeth awdurdod lleol o dan Reoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005[8].

**"Seremoni anghymwys":** seremoni nad yw'n creu priodas ddilys na phriodas ddi-rym oherwydd bod y seremoni briodas y tu allan i gwmpas Deddf Priodasau 1949.

**"Seremoni cred" neu "priodas cred":** yn yr ymgynghoriad hwn, mae'n seremoni sy'n cael ei gweinyddu gan weinyddwr cred (clerigwr Anglicanaidd neu weinyddwr enwebedig). Gallai seremoni gred fod naill ai'n seremoni grefyddol neu'n seremoni gred heb fod yn un grefyddol.

**"Seremoni sifil" neu "priodas sifil":** o dan y gyfraith bresennol, priodasau a gynhelir mewn swyddfa gofrestru neu ar safle cymeradwy.

**"Swyddog bwrdd":** Mae'r swyddogion bwrdd yn cynnwys y capten, y prif is-gapten a swyddogion eraill sy'n gyfrifol am wylfa fordwyol ar long.

[7] Deddf Priodasau 1949, a.2.

[8] OS 2005 Rhif 316; Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005.

**“Swyddfa Gofrestru”:** swyddfa cofrestrydd arolygol ym mhob ardal gofrestru. Un o’r ddau gategori o leoliadau lle gall cwpl gael priodas sifil.

**“Swyddfa Gofrestru Gyffredinol”:** swyddfeydd a staff y Cofrestrydd Cyffredinol sy’n goruchwylio’r broses o gofrestru genedigaethau, marwolaethau, priodasau a phartneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr.

**“Swyddog cofrestru”:** naill ai cofrestrydd priodasau neu gofrestrydd arolygol.

**“Trwydded arbennig”:** dogfen a gyhoeddir gan Archesgob Caergaint sy’n caniatáu i briodas Anglicanaidd ddigwydd mewn unrhyw leoliad a enwir yn y drwydded.

**“Trwydded gyffredin”:** dogfen a gyhoeddir gan Eglwys Loegr neu’r Eglwys yng Nghymru, fel rhan o un o’r tri math o ragarweiniad Anglicanaidd. Mae trwydded gyffredin yn awdurdodi priodas mewn eglwys neu gapel Anglicanaidd heb gyfnod aros.

# Crynodeb gweithredol

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch diwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n dilyn adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2022, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law*[9] a chyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Hydref 2025 o'i fwriad i ddiwygio'r gyfraith pan fydd amser seneddol yn caniatáu.[10]

Mae'r fframwaith sy'n llywodraethu cyfraith priodasau yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg ganrif. Mae'n cynnwys myrdd o reolau sy'n berthnasol yn anghyson i wahanol grwpiau. Yn ei adroddiad yn 2022, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod y gyfraith yn "anghyson a chymhleth, yn aneffeithlon, yn annheg ac yn cyfyngu'n ddiangen".[11]

Mae'r gyfraith bresennol yn creu rhwystrau diangen i briodas ac yn cyfyngu ar ddewis. Er bod rhai grwpiau'n gallu priodi'n rhydd yn unol â'u traddodiadau, rhaid i eraill addasu i gyd-fynd â fframwaith nad yw'n cyd-fynd â'u credoau. Ni all sefydliadau cred anghrefyddol, megis Dyneiddwyr, gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith o gwbl.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ymrwymodd y Llywodraeth ym mis Hydref 2025 i ddiwygio cyfraith priodasau pan fydd amser seneddol yn caniatáu. Fe wnaeth hefyd ymrwymo i sicrhau bod dwy nodwedd allweddol a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn sail i'r diwygio. Yn gyntaf, symud oddi wrth system sy'n seiliedig ar yr adeilad lle mae priodas yn digwydd tuag at un sy'n canolbwyntio ar y gweinyddwr sy'n gyfrifol am y seremoni. Yn ail, cyflwyno rheolau cyffredinol sy'n berthnasol ar draws gwahanol fathau o briodasau (ac eithrio priodasau Anglicanaidd), gan leihau gwahaniaethau rhwng grwpiau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar yr ymrwymiadau hynny drwy ddatblygu darlun llawnach o sut y dylai elfennau allweddol diwygio priodasau weithredu'n ymarferol.

## Yr egwyddorion sy'n sail i'r ymgynghoriad

Mae dull y Llywodraeth o ddiwygio yn seiliedig ar bedair egwyddor, sy'n sail i'r holl gynigion yn yr ymgynghoriad:

---

[9] Comisiwn y Gyfraith, Celebrating Marriage: A New Weddings Law (Law Com Rhif 408, HC 557, 2022); Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[10] 'Major boost to economy through wedding law reform' (Datganiad i'r Wasg, 2 Hydref 2025) https://www.gov.uk/government/news/major-boost-to-economy-through-wedding-law-reform.

[11] Comisiwn y Gyfraith, Celebrating Marriage: A New Weddings Law (Law Com No 408, HC 557, 2022) paragraff 1.23.

1. **Darparu fframwaith syml, teg a chynhwysol:** Sefydlu strwythur cyfreithiol clir, cydlynol a chyson ar gyfer priodasau, gan sicrhau tegwch ar draws gwahanol grwpiau drwy set gyffredin o reolau a galluogi sefydliadau cred anghrefyddol, gan gynnwys Dyneiddwyr, i gynnal seremonïau sy'n rhwymo mewn cyfraith.
2. **Ehangu'r dewis o ran sut a ble mae cyplau'n priodi:** Caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran lleoliad a ffurf priodasau, er mwyn i seremonïau adlewyrchu credoau ac amgylchiadau cyplau yn well.
3. **Cynnal urddas ac arwyddocâd priodas:** Sicrhau bod pob priodas yn bodloni safonau urddas clir a chyson drwy fframwaith cynhwysfawr sy'n llywodraethu seremonïau a lleoliadau, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth gan weinyddwyr a meini prawf clir i sefydliadau ddiogelu uniondeb priodas.
4. **Amddiffyn rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug:** Cryfhau mesurau diogelu drwy system fwy effeithiol o wiriadau a mwy o dryloywder i sicrhau bod priodasau'n cael eu gwneud yn rhydd, gyda chydsyniad gwybodus ac nad ydynt yn cael eu defnyddio i gael mantais annheg.

## Cynigion craidd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2022 ar ddiwygio cyfraith priodasau, a gafodd ei lywio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a dros 1,600 o ymatebion i'w ymgynghoriad.[12] Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu ailadrodd y gwaith manwl a thrylwyr hwnnw. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

### Pennod 1: Y gyfraith bresennol a'r achos dros ddiwygio

Yma, mae'r Llywodraeth yn rhoi trosolwg o'r fframwaith presennol sy'n llywodraethu cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr, pam mae angen diwygio a moderneiddio'r fframwaith hwn a phwy fydd yn cael budd o'r newidiadau hyn. Yn olaf, mae'n crynhoi dull y Llywodraeth o ymdrin â'r diwygiadau hyn a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.

### Pennod 2: Rhagarweiniadau

Mae'r Llywodraeth yn cynnig proses ragarweiniol dau gam wedi'i moderneiddio, gan wahanu rhoi hysbysiad gweinyddol (i'w gwblhau ar-lein) oddi wrth gyfweliad wyneb yn wyneb gorfodol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu.[13] Byddai'r dull hwn yn cryfhau amddiffyniadau yn erbyn priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug, gan

[12] Comisiwn y Gyfraith, Celebrating Marriage: A New Weddings Law (Law Com No 408, HC 557, 2022) paragraff 1.92.

[13] Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod mynediad at roi hysbysiad ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu mynd ar-lein.

gynnwys drwy gyhoeddi hysbysiadau ar-lein (gydag eithriadau priodol), cyfeirio gwell a mynnu bod cofrestryddion yn gofyn set graidd o gwestiynau i nodi risgiau.

**Pennod 3: Ffurfio priodas yn gyfreithiol**
Mae'r Llywodraeth yn cynnig caniatáu i gydsyniad mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol gael ei fynegi drwy weithredoedd neu ddefodau. Ar gyfer seremonïau sifil, mae'n cynnig cadw ffurf fer safonol ar eiriau contract, gyda rhywfaint o hyblygrwydd drwy "eiriau i'r un perwyl" i gydbwyso personoli (e.e. dweud y geiriau mewn ieithoedd eraill fel Cernyweg) â sicrwydd cyfreithiol.

**Pennod 4: Y fframwaith urddas**
Mae'r Llywodraeth yn cynnig cyflwyno fframwaith urddas strwythuredig gan roi cyfrifoldeb cyfreithiol ar weinyddwyr i sicrhau eu bod yn cynnal urddas ac arwyddocâd priodas, wedi'i arwain gan safon gyffredinol, safonau ategol ar gyfer lleoliadau a seremonïau a set o ffactorau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynnwys a defnydd y fframwaith hwn.

**Pennod 5: Lleoliadau priodas penodol**
Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a ddylai lleoliadau priodas allu gwneud cais am gyn-awdurdodi gwirfoddol, gan gynnwys sut y dylai system o'r fath weithredu a chael ei chynnal. Mae hefyd yn gofyn am farn ar ganiatáu priodasau mewn cartrefi preifat a pha fesurau diogelu ychwanegol y gallai fod eu hangen, yn ogystal â chaniatáu priodasau ar ddyfroedd mewndirol a thiriogaethol ac ar longau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y DU mewn dyfroedd rhyngwladol, yn amodol ar amodau priodol.

**Pennod 6: Rôl gweinyddwyr**
Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch cyflwyno set glir o ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer pob gweinyddwr, gan gynnwys cyfrifoldeb dros sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni ac am gynnal urddas ac arwyddocâd priodas. Mae hefyd yn gofyn am farn ar y meini prawf y mae'n rhaid i sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol eu bodloni er mwyn enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig caniatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith a sefydlu categori penodol o weinyddwyr morwrol ar gyfer priodasau ar y môr.

**Pennod 7: Rheoleiddio gweinyddwyr**
Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ar gryfhau rheoleiddio gweinyddwyr drwy ofynion mynediad clir, gan gynnwys prawf "addas a phriodol" a rheolau gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer gweinyddwyr annibynnol a morwrol. Mae hefyd yn gofyn am farn ar sut y dylid monitro, hyfforddi a dwyn gweinyddwyr i gyfrif. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y rôl y gallai rheoleiddiwr canolog ei chwarae o ran goruchwylio gweinyddwyr a sut y gellid goruchwylio drwy enwebu neu sefydliadau aelodaeth sy'n destun goruchwyliaeth reoleiddiol.

### Partneriaethau Sifil

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i'r fframwaith sy'n rheoli cyfraith priodasau ac felly nid yw'n trafod cymhwyso'r cynigion hyn i bartneriaethau sifil. Fodd bynnag, yn unol â'n nodau i greu fframwaith mwy cyson a syml ar gyfer ffurfio perthnasoedd cyfreithiol, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried goblygiadau'r cynigion hyn ar bartneriaethau sifil wrth i'r gwaith diwygio fynd rhagddo, er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethau na chymhlethdodau newydd yn cael eu cyflwyno i'r gyfraith.

### Y camau nesaf

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr. Cyflwynir unrhyw ddeddfwriaeth pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

# Cyflwyniad

Mae'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu cynigion y Llywodraeth i ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynigion yn dilyn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith priodasau yn 2022 a chyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Hydref 2025 ei bod yn bwriadu moderneiddio cyfraith priodasau. Mae'r cynigion yn ceisio cryfhau sefydliad priodas drwy sicrhau bod y broses o briodi yn symlach, yn gliriach ac yn fwy hygyrch i bawb.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at seneddwyr, sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol, academyddion, gweinyddion annibynnol, sefydliadau cymorth, gwasanaethau cofrestru lleol ac aelodau o'r cyhoedd sydd â buddiant yng nghyfraith priodasau Cymru a Lloegr.

Mae/bydd papur ymgynghori Saesneg ar gael yn [INSERT LINK  TO ENGLILSH VERSION HERE]

Mae Asesiad Effaith yn dangos bod hyn yn debygol o effeithio'n benodol ar gyplau sy'n priodi, cofrestryddion presennol, personau awdurdodedig, sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol a'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Mae'r cynigion yn debygol o arwain at arbedion ychwanegol i fusnesau a chyplau sy'n priodi. Mae Asesiad Effaith ar gael yn [INSERT LINK HERE].

# Pennod 1 - Y Gyfraith Bresennol, yr Achos dros Ddiwygio a'r Dull Diwygio

## Y Gyfraith Bresennol

Mae cyfraith priodasau yn nodi'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i gyplau eu bodloni er mwyn priodi'n gyfreithlon. Mae'r fframwaith presennol sy'n rheoli cyfraith priodasau wedi'i nodi'n bennaf yn Neddf Priodasau 1949, er bod ei strwythur sylfaenol yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg ganrif.

Yng Nghymru a Lloegr, mae ymrwymo i briodas sy'n rhwymo mewn cyfraith yn cynnwys tri cham penodol.[14] Yn gyntaf, rhaid i gwpl gael awdurdod cyfreithiol i fwrw ymlaen â'r briodas (y "rhagarweiniadau"). Yn ail, rhaid iddynt gymryd rhan mewn seremoni sy'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Yn drydydd, rhaid i'r briodas gael ei chofrestru'n briodol ar ôl y seremoni.

O dan y gyfraith bresennol, rhaid i gyplau ddewis rhwng priodas sifil a phriodas grefyddol. Mae priodasau crefyddol yn cael eu rhannu ymhellach yn gategorïau, ac mae pob un yn ddarostyngedig i ddarpariaethau gwahanol. Mae priodasau Anglicanaidd, priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn gweithredu o dan reolau unigryw a phwrpasol, ond mae pob priodas grefyddol arall yn ddarostyngedig i fframwaith cyffredin ar wahân. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth gyfreithiol ar gyfer priodasau a gynhelir gan sefydliadau cred anghrefyddol, fel Dyneiddwyr.

Ni fwriedir i'r crynodeb isod fod yn gynhwysfawr, ond yn hytrach mae'n rhoi trosolwg o'r broses.

### Cam 1: Rhagarweiniadau

Rhagarweiniadau yw'r camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn y rhoddir awdurdod cyfreithiol i gynnal priodas. Eu pwrpas yw sicrhau bod y ddau barti mewn cwpl yn gallu priodi ei gilydd yn gyfreithlon, eu bod yn cydsynio'n rhydd i wneud hynny ac nad ydynt yn ymrwymo i briodas i osgoi rheolaethau mewnfudo ("priodas ffug").[15] Mae Deddf Priodasau 1949 yn darparu ar gyfer dau fath o ragarweiniad: sifil ac Anglicanaidd.

---

[14] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Consultation Paper on Wedding Law* (Papur Ymgynghori Rhif 247, 2020) paragraff 2.1

[15] Comisiwn y Gyfraith, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 3.1

*Rhagarweiniadau Sifil*

Rhaid i bob priodas nad yw'n briodasau Anglicanaidd gael ei rhagflaenu gan ragarweiniadau sifil. O dan y broses hon, rhaid i bob parti roi hysbysiad o'u bwriad i briodi'n bersonol yn yr ardal gofrestru lle maent wedi byw am y 7 diwrnod blaenorol.[16] Mae pob parti'n cael ei gyfweld ar wahân gan swyddog cofrestru a rhaid iddo ddarparu dogfennau ategol i ddangos ei fod yn cael priodi'n rhydd ac yn gyfreithlon.[17]

Ar ôl i hysbysiad gael ei roi, bydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus yn y swyddfa gofrestru am gyfnod statudol (28 diwrnod fel arfer) er mwyn i wrthwynebiadau allu cael eu codi. Pan wneir gwrthwynebiadau, rhaid i gofrestryddion arolygol ymchwilio iddynt. Mewn rhai achosion, gan gynnwys pan fydd un parti neu'r ddau yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, gellir cyfeirio'r briodas at y Swyddfa Gartref a gellir ymestyn y cyfnod aros i 70 diwrnod.[18]

Os na chaiff unrhyw wrthwynebiad ei gadarnhau a bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni, cyhoeddir atodlen briodas. Mae hyn yn rhoi'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer y briodas ac fel arfer bydd yn cael ei lofnodi yn y seremoni cyn cael ei ddychwelyd i'w gofrestru.

*Rhagarweiniadau Anglicanaidd*

Gall cyplau sy'n priodi yn Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru ddefnyddio rhagarweiniadau sifil ond bydd y rhan fwyaf fel arfer yn mynd drwy ragarweiniadau Anglicanaidd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu galw gostegion. Mae gostegion yn gyhoeddiadau cyhoeddus a wneir yn ystod gwasanaeth eglwys o fwriad cwpl i briodi.[19] Cânt eu darllen ar dri dydd Sul cyn y briodas yn y plwyf lle mae pob aelod o'r cwpl yn byw, yn ogystal â'r plwyf lle mae'r briodas yn digwydd, os yw hwnnw'n wahanol.[20] Mae galw gostegion yn gyfle i godi gwrthwynebiadau ac, ar ôl eu galw, gall y briodas fwrw ymlaen ar yr amod nad oes rhwystr cyfreithiol wedi'i godi.

---

[16] Mae Deddf Priodasau 1949 (adran 27(1)) yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti breswylio yno am gyfnod o 7 diwrnod yn union cyn rhoi hysbysiad. Mae pobl sy'n gaeth i'w cartrefi neu sy'n cael eu cadw yno yn gwneud trefniadau eraill ac nid ydynt yn mynd i'r swyddfa gofrestru.

[17] O dan Ddeddf Priodasau 1949 (adran 26(1)(dd)), rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol hefyd mewn perthynas â phriodasau unigolion sydd naill ai'n gaeth i'r tŷ oherwydd eu salwch neu eu hanabledd neu'n cael eu cadw yn y carchar neu'r ysbyty.

[18] Deddf Priodasau 1949 a.28H ac Atodlen 3A.

[19] Eglwys Loegr, *Reading Banns* <https://www.churchofengland.org/life-events/your-church-wedding/planning-your-ceremony/reading-banns>

[20] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Consultation Paper on Wedding Law* (Papur Ymgynghori Rhif 247, 2020) paragraff 2.72

Mewn rhai amgylchiadau, gall cwpl gael trwydded gyffredin yn lle gostegion, er enghraifft lle mae gwir angen priodi cyn y gellir cwblhau cyhoeddi gostegion.[21] Mewn achosion prin, gall cwpl wneud cais i Swyddfa Cyfadran Archesgob Caergaint am drwydded arbennig. Mae trwydded arbennig yn caniatáu i briodas Anglicanaidd ddigwydd mewn unrhyw leoliad a enwir yn y drwydded. Nid oes cyfnod aros ffurfiol ar gyfer trwyddedau cyffredin neu arbennig.[22]

### Cam 2: Seremoni

Rhaid i bob cwpl gael seremoni briodas i briodi'n gyfreithlon. Mae'r gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu'r seremoni, o ran lleoliad a ffurf, yn dibynnu ar y math o briodas.

*Lleoliad*

Mae'r gyfraith bresennol yn rheoleiddio'n bennaf lle mae priodasau'n cael eu cynnal drwy gyfeirio at yr adeilad lle maent yn cael eu cynnal, yn hytrach na'r unigolyn sy'n cynnal y seremoni. Felly, mae'r system yn aml yn cael ei disgrifio fel un sy'n "seiliedig ar adeiladau".[23]

O dan y fframwaith hwn, rhaid i briodasau sifil naill ai gael eu cynnal mewn swyddfa gofrestru neu ar safleoedd cymeradwy sydd, ers 2021, yn cynnwys ardaloedd cymeradwy o dir awyr agored.[24] Cyn i leoliad gael ei gymeradwyo, rhaid ystyried ei fod yn "weddus ac yn urddasol" a'i fod ar gael yn rheolaidd ar gyfer priodasau.[25]

Rhaid i briodasau crefyddol (ac eithrio priodasau Iddewig, priodasau'r Crynwyr a rhai priodasau Anglicanaidd) gael eu cynnal mewn man addoli cofrestredig. Yn gyffredinol, mae Deddf Priodasau 1949 yn mynnu bod priodasau Anglicanaidd yn cael eu cynnal mewn eglwys neu gapel. Fodd bynnag, pan roddir trwydded arbennig, gall y briodas ddigwydd mewn unrhyw leoliad.

Mae priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn eithriadau hirsefydlog i'r fframwaith adeiladau. Mae'r rhain yn dyddio'n ôl i Ddeddf Priodasau Dirgel 1753, a oedd yn eithrio'r grwpiau hyn o ddarpariaethau'r Ddeddf. O ganlyniad, gellir cynnal priodasau Iddewig a

---

[21] Swyddfa Cyfadran, *'General information about marriage in the Church of England'* <https://www.facultyoffice.org.uk/special-marriage-licences/couples/general-information-about-marriage-in-the-church-of-england/> https://www.facultyoffice.org.uk/special-marriage-licences/couples/general-information-about-marriage-in-the-church-of-england/; Getting Married - A Consultation Paper on Wedding Law paragraff 2.79.

[22] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Consultation Paper on Wedding Law* (Papur Ymgynghori Rhif 247, 2020) paragraff 2.90

[23] Comisiwn y Gyfraith, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law* (Law Com Rhif 408, 2022), paragraff 6.13.

[24] Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) (Diwygio) 2021.

[25] Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005, rheoliad 5(1)(b) ac Atodlen 1 Paragraff 1.

phriodasau'r Crynwyr yn unol â defnydd (hynny yw, eu harferion) y grwpiau hynny, heb unrhyw gyfyngiadau statudol ar leoliad.

*Ffurf*

Mae ffurf y seremoni hefyd yn amrywio yn dibynnu ar y math o briodas.

Mae priodasau sifil yn gofyn am bresenoldeb cofrestrydd a chofrestrydd arolygol, ochr yn ochr â dau dyst.[26] Rhaid iddynt fod ar agor i'r cyhoedd ("drysau agored") a pheidio â chynnwys deunydd crefyddol y tu hwnt i gyfeirio atynt yn achlysurol.[27] I fynegi cydsyniad i briodi, rhaid i gyplau ddweud y geiriau datganol a chontractiol (a elwir gyda'i gilydd yn "eiriau rhagnodedig"), sy'n sefydlu bod person yn rhydd i briodi ac yn dymuno sefydlu contract priodas cyfreithiol.[28]

Rhaid i briodasau Anglicanaidd gael eu cynnal gan glerigwr sydd wedi'i ordeinio ac ym mhresenoldeb dau dyst.[29] Nid oes gofyniad statudol am "ddrysau agored" na'r angen am eiriau rhagnodedig penodol, er bod priodas, yn ymarferol, yn cael ei thrin fel digwyddiad cyhoeddus a bod testunau gwasanaeth awdurdodedig yn cael eu defnyddio fel y Llyfr Gweddi Gyffredin.[30]

Gellir cynnal priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn ôl eu defnydd. Felly, nid oes unrhyw ofynion statudol ynghylch ffurf y seremoni, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â thystion, geiriau rhagnodedig neu ddrysau agored.

**Cam 3: Cofrestru**

Yn dilyn y seremoni, rhaid cofrestru'r briodas er mwyn cwblhau'r broses gyfreithiol a chreu cofnod swyddogol.

Ar gyfer priodasau sy'n defnyddio rhagarweiniadau sifil, cyhoeddir "atodlen briodas" gan y cofrestrydd arolygol yn yr ardal lle cynhelir y briodas. Llofnodir hwn yn y seremoni gan y person priodol, naill ai cofrestrydd neu gofrestrydd arolygol ar gyfer priodasau sifil, ysgrifennydd synagog Iddewig, swyddog y Crynwyr neu berson awdurdodedig ar gyfer priodasau crefyddol eraill. Ac eithrio priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr, gwneir hyn ym mhresenoldeb tystion.[31]

---

[26] Deddf Priodasau 1949 adrannau 45(1) a 46(1)(b).

[27] Deddf Priodasau 1949 adrannau 45(2) a 46(b)(4) a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (OS 2005 Rhif 3168), Atodlen 2 Paragraff 11.

[28] Deddf Priodasau 1949 adran 44(3a).

[29] Deddf Priodasau 1949, adran 22.

[30] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Consultation Paper on Wedding Law* (Papur Ymgynghori Rhif 247, 2020) paragraff 2.100-2.102.

[31] Comisiwn y Gyfraith, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law* (Law Com Rhif 408, 2022), paragraff 7.8.

Ar gyfer priodasau sy'n defnyddio rhagarweiniadau Anglicanaidd, mae'r clerigwr sy'n gweinyddu yn cyhoeddi "dogfen briodas". Rhaid i hon gael ei llofnodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r seremoni gael ei chynnal gan y cwpl a dau dyst.

Yna, rhaid danfon y ddogfen briodas neu'r atodlen wedi'i llenwi at gofrestrydd yr ardal o fewn 21 diwrnod i'r briodas, ac ar ôl hynny bydd y manylion yn cael eu cofnodi ar y gofrestr briodas.[32]

*Methiant i gydymffurfio â gofynion*
Pan fydd cwpl yn cydymffurfio â'r ffurfioldebau cyfreithiol gofynnol a nodir yn Neddf Priodas 1949, bydd eu priodas yn ddilys yn gyfreithiol. Mae priodas ddilys yn rhoi amrywiaeth o hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol i'r cwpl, gan gynnwys hawliau etifeddu, rhai buddion treth a mynediad at rwymedïau ariannol adeg ysgaru, lle gellir rhannu eiddo ac asedau.

Os oes methiant "gwybodus a bwriadol" i gydymffurfio ag un neu ragor o'r prif ofynion cyfreithiol, gellir trin y briodas fel un ddi-rym. Mewn achosion o'r fath, mae'r gyfraith yn trin y briodas fel pe na bai erioed wedi bodoli, er y gallai'r partïon fod yn gymwys i wneud cais am gymorth ariannol fel pe baent yn ysgaru.

Mewn amgylchiadau lle mae'r ffurfioldebau a nodir wedi'u bodloni, ond nad oedd unigolyn wedi cydsynio i'r briodas, gellir tybio bod y briodas yn un "y gellir ei dirymu". Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r briodas yn parhau i fod yn ddilys ond gellir ei dirymu drwy gael dyfarniad dirymiad.

Os na fodlonir unrhyw un o ofynion allweddol Deddf Priodasau 1949, gellir dosbarthu'r seremoni fel "seremoni anghymwys". Nid yw hyn yn creu priodas a gydnabyddir yn gyfreithiol ac mae'n golygu na fydd gan y cwpl unrhyw un o'r hawliau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phriodas, nac unrhyw rwymedïau ar ôl i briodas chwalu.

## Yr Achos dros Ddiwygio'r Gyfraith

Mae priodas yn ymrwymiad difrifol a gydol oes, ac mae iddo ganlyniadau cyfreithiol, cymdeithasol a phersonol sylweddol. Nid yw'r penderfyniad i briodi yn un dibwys. Mae'n benderfyniad mawr mewn bywyd pan fydd dau berson yn ymuno mewn undeb ffurfiol, gyda'r disgwyliad y bydd yr ymrwymiad yn para am oes.

Gall priodas ddod â manteision pwysig i gyplau a'u plant. Canfu ymchwil a gyhoeddwyd yn y British Medical Journal fod parau priod 10-15% yn llai tebygol o farw cyn pryd na'r boblogaeth ehangach, a chanfu'r National Bureau of Economic Research fod parau priod yn dweud eu bod yn fwy bodlon ar fywyd ar gyfartaledd na chyplau nad ydynt yn briod.[33] I

[32] Deddf Priodasau 1949 adran 53D.

[33] 'Marriage and health' (2011) 342 *BMJ* d404 <https://www.bmj.com/content/342/sbmj.d404>

blant, mae tystiolaeth yn awgrymu bod priodas yn gysylltiedig â mwy o sefydlogrwydd teuluol, gyda rhieni priod yn llai tebygol o wahanu.[34]

O ystyried y manteision hyn, cred y Llywodraeth y dylid annog y rhai sy'n dymuno gwneud yr ymrwymiad hwn i wneud hynny. Fodd bynnag, mae nifer y priodasau wedi gostwng chwarter yn ystod y 30 mlynedd diwethaf.[35] Awgrymodd Comisiwn y Gyfraith y gallai diwygio priodasau helpu i wrthdroi'r duedd hon, gan ragweld cynnydd o dri y cant yn nifer y priodasau.[36]

Priodasau yw dechrau'r undeb o briodas. Maent yn dathlu cariad, yn creu atgofion parhaol ac yn cryfhau'r cwlwm rhwng cwpl. Mae caniatáu i gyplau nodi'r ymrwymiad hwn mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw yn atgyfnerthu arwyddocâd yr achlysur a natur barhaus priodas, gan gryfhau sefydliad priodas wrth wneud hynny.

Nid yw'r fframwaith cyfreithiol presennol wedi cyd-fynd â chymdeithas fodern. Mae strwythur sylfaenol cyfraith priodasau wedi aros fwy neu lai yr un fath ers bron i 200 mlynedd ac mae wedi dod yn fwyfwy cymhleth ac anghyson. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i wahanol fathau o briodasau. Mae priodasau Anglicanaidd, Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn gweithredu o dan reolau pwrpasol. Rhaid i bob priodas grefyddol arall ddilyn un set o reolau ac mae set arall o reolau'n llywodraethu priodasau sifil. Mae'r fframwaith hefyd yn eithrio sefydliadau cred anghrefyddol, fel Dyneiddwyr, rhag cynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithiol yn gyfan gwbl.

Mae'r dull tameidiog hwn yn creu gwahaniaethau amlwg mewn ymarfer. Mae rhai grwpiau'n gallu priodi'n rhydd yn unol â'u credoau a'u traddodiadau, tra bod yn rhaid i eraill addasu eu seremonïau i gyd-fynd â fframwaith nad yw'n cyd-fynd â'u credoau. Er enghraifft, gall Iddewon a Chrynwyr briodi'n gyfreithlon yn unrhyw le heb unrhyw ofynion o ran pwy sy'n bresennol na sut y cynhelir y seremoni. I'r gwrthwyneb, rhaid i Fwslimiaid briodi mewn adeilad cofrestredig a defnyddio geiriau rhagnodedig, er nad yw seremonïau Mwslimaidd traddodiadol yn cael eu cynnal mewn mosgiau nac yn defnyddio geiriau o seremoni sifil. Gall cyplau sydd â chysylltiadau crefyddol gwahanol neu gyplau ag un

; Richard E Lucas Jr ac eraill, 'Marriage and Subjective Well-Being' (2014) NBER Working Paper No 20794 <https://www.nber.org/papers/w20794>.

[34] W Bradford Wilcox a Wendy Wang, *The Millennial Success Sequence: Marriage, Kids, and the 'Success Sequence' Among Young Adults* (Institute for Family Studies 2017) <https://ifstudies.org/ifs-admin/resources/reports/wfm-2017-fullreport.pdf>.

[35] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Marriages in England and Wales: 2013* (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, rhyddhawyd 27 Ebrill 2016) <https://www.ons.gov.uk/releases/marriagesinenglandandwalesprovisional2013>.

[36] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Marriages in England and Wales: 2013* (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/marriagecohabitationandcivilpartnerships/datasets/marriagesinenglandandwales2013>; Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Weddings Law Reform.*

partner heb grefydd, yr amcangyfrifir eu bod yn 21% o berthnasoedd, hefyd wynebu heriau o ran cael priodas sy'n cyd-fynd â'u credoau. [37]

Un o brif ysgogwyr y materion hyn yw bod y gyfraith bresennol yn rheoleiddio priodasau yn bennaf yn ôl yr adeilad lle cânt eu cynnal, yn hytrach na'r sawl sy'n cynnal y seremoni. Mae hyn yn creu rhwystrau i grwpiau nad yw eu credoau'n cysylltu eu man addoli â phriodas, neu nad oes ganddynt lawer o fannau addoli (neu ddim). O ganlyniad, er enghraifft, dim ond 12.2% o demlau Bwdaidd sydd wedi'u cofrestru ar gyfer priodi ac, yng Nghymru, mae'r unig ddewisiadau ar gyfer priodas gyfreithiol Fwslimaidd ym Mangor neu yng Nghaerdydd.[38]

Yn fwy cyffredinol, mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes rheswm egwyddorol pam y dylid cyfyngu priodas i gategori cyfyngedig o adeiladau cymeradwy pan allai seremoni gael ei chynnal yn ddiogel a chydag urddas mewn lleoliadau eraill fel traeth, coedwig, gardd deuluol neu gwch camlas. Byddai symud oddi wrth ddull sy'n seiliedig ar adeiladau yn caniatáu i'r gyfraith adlewyrchu'n well yr amrywiaeth o ffyrdd y gallai cyplau ddymuno nodi un o ymrwymiadau pwysicaf eu bywydau.

Pan nad yw unigolion yn gallu priodi yn unol â'u credoau, mae goblygiadau ymarferol, oherwydd gallent ddewis cael seremoni grefyddol neu seiliedig ar gred nad yw'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Gall unigolion sy'n cael priodasau "crefyddol yn unig" gael eu rhoi mewn sefyllfa fregus yn ariannol os bydd y berthynas yn chwalu, gan eu bod yn cael eu trin yn ddibriod yn ôl y gyfraith ac nad ydynt yn elwa o'r hawliau a'r amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar gael wrth ysgaru. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn broblem sylweddol yn ymarferol, gydag arolwg gan Channel 4 yn 2017 yn canfod nad oedd 6 o bob 10 menyw a oedd wedi cael priodasau Mwslimaidd crefyddol yn unig wedi cael priodas a gydnabyddir yn gyfreithiol ac nad oedd bron i 3 o bob 10 o'r rhai mewn priodasau crefyddol yn sylweddoli mai dim ond amddiffyniadau cyfreithiol cyfyngedig oedd ganddynt.[39]

Mae'r system bresennol hefyd yn cynyddu costau ac felly'n cyfyngu ar fynediad at briodas. Mae hanner y dynion dibriod a thraean o fenywod dibriod yn nodi cost fel rheswm dros beidio â phriodi, gyda phriodas ar gyfartaledd yn costio rhwng £20,600 a £21,990.[40] Mae'r

---

[37] Brian Collisson, 'Interfaith Relationships Are Becoming Common. Do They Work?' (*Psychology Today*, 7 Hydref 2022) <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/dating-toxic-or-tender/202210/interfaith-relationships-are-becoming-common-do-they-work>.

[38] Rebecca Probert, Rajnaara C Akhtar a Sharon Blake, Belief in Marriage: The Evidence for Reforming Weddings Law (Bristol University Press 2023) <https://library.oapen.org/bitstream/id/4735f8aa-bc1d-432f-aa3e-3741d40002ed/9781529230499.pdf>.

[39] Channel 4, 'New Channel 4 survey reveals The Truth About Muslim Marriage' (20 Tachwedd 2017) <https://www.channel4.com/press/news/new-channel-4-survey-reveals-truth-about-muslim-marriage>.

[40] Bridebook, Wedding Report, 2026 https://partners.bridebook.com/uk/wedding-report-2026; Marriage Foundation, *Cheaper Weddings Could Bridge the Marriage Gap* (Ionawr 2021)

costau hyn yn cael eu sbarduno'n rhannol gan ofynion i briodasau sifil fod ar gael i'r cyhoedd ac wedi'u cyfyngu i safleoedd cymeradwy neu swyddfeydd cofrestru, sy'n lleihau cystadleuaeth a dewis. Ar ben hynny, gall cyplau nad ydynt yn gallu priodi mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i dalu am ddwy seremoni: priodas sifil i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol a seremoni ar wahân sy'n adlewyrchu eu credoau. Mae hyn yn creu cost ychwanegol a thriniaeth anghyfartal rhwng gwahanol grwpiau.

Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn dangos nad yw'r gyfraith bresennol wedi cyd-fynd â sut mae pobl yn ffurfio perthnasoedd na sut maent yn dymuno priodi. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen diwygio i greu fframwaith sy'n decach, yn fwy cynhwysol ac mewn sefyllfa well i alluogi cyplau i briodi mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymdeithas fodern ar yr un pryd â chynnal urddas ac uniondeb priodas.

Dyna pam, ym mis Hydref 2025, y cyhoeddodd y Llywodraeth gynlluniau i ddiwygio cyfraith priodasau yng Nghymru a Lloegr pan fydd amser seneddol yn caniatáu.[41] Cadarnhaodd y Llywodraeth y bydd dwy nodwedd allweddol yn sail i'r diwygiadau hyn, a argymhellwyd gan adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2022, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law:*

1. System sy'n seiliedig ar weinyddwr: symud oddi wrth reoleiddio'r adeilad lle mae priodas yn digwydd tuag at y gweinyddwr sy'n gyfrifol am y seremoni. Bydd y newid hwn yn dileu'r cyfyngiadau ar le mae priodasau'n cael eu cynnal, ar yr amod bod seremonïau'n bodloni gofynion llym sy'n sicrhau eu bod yn parhau i fod yn urddasol. Wrth wneud hynny, bydd yn caniatáu i briodasau ddigwydd mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau, gan ei gwneud yn haws i gyplau briodi mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu credoau a'u hamgylchiadau.
2. **Rheolau Cyffredinol:** cyflwyno un set o reolau cyffredinol ar gyfer pob priodas (ac eithrio priodasau Anglicanaidd) er mwyn symleiddio'r broses o briodi a chreu tegwch i bob grŵp. Byddai hyn yn cynnwys galluogi Dyneiddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith am y tro cyntaf.

Mae'r Llywodraeth yn lansio'r ymgynghoriad hwn fel rhan o raglen ehangach sydd â'r bwriad o foderneiddio cyfraith teulu. Mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd â'n cynlluniau i ddiwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ar ysgariad a chyflwyno hawliau i gyplau sy'n cyd-fyw ar wahanu a marwolaeth, yn dilyn ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i "gryfhau

<https://marriagefoundation.org.uk/wp-content/uploads/2021/01/MF-briefing-note-Cheaper-weddings-bridge-marriage-gap.pdf>; Hitched, 'How Much Does a Wedding Cost in 2026? Average UK Wedding Now Costs £21,990' (12 Ionawr 2026) <https://www.hitched.co.uk/wedding-planning/organising-and-planning/the-average-wedding-cost-in-the-uk-revealed/>.

[41] Ministry of Justice, 'Major boost to economy through wedding law reform' (2 Hydref 2025) <https://www.gov.uk/government/news/major-boost-to-economy-through-wedding-law-reform>.

hawliau ac amddiffyniadau menywod mewn cyplau sy'n cyd-fyw". Roedd y Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad, "A fairer end to relationships" ym mis Mehefin yn gwahodd safbwyntiau ar y cynigion hyn.[42]

## Y Dull o Ddiwygio

Amcan cyffredinol y Llywodraeth wrth ddiwygio cyfraith priodasau yw cryfhau sefydliad priodas drwy sicrhau bod y gyfraith yn cefnogi, ac nad yw'n llesteirio, cyplau sydd wedi dewis ymrwymo i'r ymrwymiad difrifol a gydol oes hwn. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae dull y Llywodraeth o ddiwygio yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

**Yr egwyddorion sy'n sail i'r ymgynghoriad**

1. Darparu fframwaith syml, teg a chynhwysol
2. Ehangu'r dewis o ran sut a ble mae cyplau'n priodi
3. Cynnal urddas ac arwyddocâd priodas
4. Amddiffyn rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug

**1. Darparu fframwaith syml, teg a chynhwysol**

Un o nodau canolog y diwygiadau arfaethedig yw sefydlu fframwaith cyfreithiol clir, cydlynol a chyson ar gyfer priodasau, gan sicrhau bod y gyfraith yn gweithredu'n deg ar draws gwahanol grwpiau a'i bod yn syml ei deall a'i defnyddio.

Bydd set gyson o reolau craidd yn berthnasol i bob priodas, gan sicrhau eu bod i gyd, ac eithrio priodasau Anglicanaidd, yn ddarostyngedig i'r un fframwaith cyffredinol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau presennol. Byddai'r diwygiadau hefyd yn gwneud y system yn fwy cynhwysol, drwy alluogi sefydliadau cred anghrefyddol, gan gynnwys Dyneiddwyr, i gynnal priodasau sy'n rhwymo'n gyfreithiol am y tro cyntaf.

I gefnogi hyn, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid cael dull cyson o reoleiddio gweinyddwyr. Ac eithrio cofrestryddion a gyflogir gan y wladwriaeth, byddai gweinyddwyr yn atebol i'w sefydliad ac yn destun goruchwyliaeth gan reoleiddiwr annibynnol, er mwyn cryfhau atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

**2. Ehangu'r dewis o ran sut a ble mae cyplau'n priodi**

Byddai'r diwygiadau'n rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd, gan alluogi cyplau i briodi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu credoau, eu cefndiroedd a'u hamgylchiadau personol.

[42] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, A Fairer End to Relationships (Ymgynghoriad, 5 Mehefin 2026) <https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships>.

O dan fframwaith diwygiedig, ni fyddai unrhyw gyfyngiadau penodol ynghylch ble y gellir cynnal priodasau, ar yr amod bod gofynion urddas a diogelwch yn cael eu bodloni. O ganlyniad, bydd cyplau'n gallu priodi mewn amrywiaeth llawer ehangach o leoliadau ystyrlon, gan gynnwys traethau, llongau mordeithio a chartrefi preifat.

Byddai'r diwygiadau hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut mae seremonïau'n cael eu cynnal. Gellid mynegi cydsyniad drwy weithredoedd, yn unol ag arferion cred. Gall priodasau sifil gael eu cynnal gan weinyddwyr annibynnol a gallent o bosibl gynnwys deunyddiau cred, ar yr amod eu bod yn parhau i fod yn amlwg yn sifil. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn caniatáu seremonïau mwy personol ac yn diwallu anghenion cyplau ffydd cymysg a rhyng-ffydd yn well.

**3. Cynnal urddas ac arwyddocâd priodas**

Mae priodas yn un o sefydliadau pwysicaf cymdeithas. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn sicrhau nad yw ehangu dewis o ran sut a ble mae cyplau'n priodi yn digwydd ar draul ei uniondeb.

I gyflawni hyn, mae'r Llywodraeth yn cynnig fframwaith urddas cynhwysfawr a fydd yn berthnasol ar draws pob priodas. Byddai'r fframwaith hwn yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer lleoliad y briodas a ffurf y seremoni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn urddasol. Byddai'n ofynnol i weinyddwyr ystyried hyn wrth gymeradwyo lleoliadau a chynnal seremonïau. Gallai peidio â chynnal y safonau hyn arwain at sancsiynau, gan gynnwys dad-awdurdodi.

Byddai'r trefniadau hyn yn cael eu cefnogi gan feini prawf clir y byddai'n rhaid i sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol eu bodloni er mwyn enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau cyfreithlon. Byddai hyn yn helpu i ddiogelu yn erbyn grwpiau annidwyll, diurddas neu grwpiau sy'n cael eu llywodraethu'n wael yn cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

**4. Amddiffyn rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug**

Rhaid i'r gyfraith barhau i sicrhau bod pob priodas yn cael ei gwneud yn rhydd a chyda chydsyniad gwybodus ac nad yw'n cael ei defnyddio i gael mantais annheg. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cryfhau amddiffyniadau yn erbyn priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug drwy system fwy effeithiol a modern o ragarweiniadau.

Bydd proses dau gam ar gyfer rhoi hysbysiad yn caniatáu i wiriadau gael eu gwneud ar y cam ar-lein ac yn y cyfweliad wyneb yn wyneb. Byddai'r cam gweinyddol yn cael ei gwblhau ar-lein er mwyn i gofrestryddion allu canolbwyntio ar asesu a yw rhywun yn rhydd ac yn barod i briodi yn ystod y cyfweliad. Fel rhan o'r broses hon, byddai'n ofynnol i gofrestryddion ofyn set graidd o gwestiynau wedi'u cynllunio i nodi dangosyddion priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug.

Ategir hyn gan fwy o dryloywder, gan gynnwys arddangos hysbysiadau ar-lein, gan ei gwneud yn haws nodi rhwystrau posibl i briodas ac atgyfnerthu natur gyhoeddus priodas.

## Partneriaethau Sifil

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i'r fframwaith sy'n rheoli cyfraith priodasau ac felly nid yw'n trafod cymhwyso'r cynigion hyn i bartneriaethau sifil. Fodd bynnag, yn unol â'n nodau i greu fframwaith mwy cyson a syml ar gyfer ffurfio perthnasoedd cyfreithiol, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystyried goblygiadau'r cynigion hyn ar bartneriaethau sifil wrth i'r gwaith diwygio fynd rhagddo, er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethau na chymhlethdodau newydd yn cael eu cyflwyno i'r gyfraith.

# Pennod 2 - Rhagarweiniadau

Bwriad diwygiadau arfaethedig y Llywodraeth i gyfraith priodasau yw rhoi mwy o ddewis i gyplau yng Nghymru a Lloegr o ran sut maent yn priodi, gan wneud y broses yn symlach ac yn decach, tra'n parhau i ddiogelu urddas ac uniondeb priodas. Wrth gynyddu dewis, mae'n hanfodol nad yw diwygio'n cynyddu'r risg o briodasau C yn cael eu cynnal.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion helaeth a fyddai'n gwneud y rhagarweiniadau'n fwy cadarn. O ystyried ei ffocws ar sicrhau amddiffyniad yn erbyn priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug, mae'r Llywodraeth yn cytuno'n gyffredinol ag argymhellion arfaethedig Comisiwn y Gyfraith ynghylch rhagarweiniadau. Aeth dadansoddiad Comisiwn y Gyfraith o'r rhagarweiniadau yn ei flaen ar sail system ddeuol, lle mae dwy broses o ragarweiniadau yn gweithredu: rhagarweiniadau sifil a rhagarweiniadau Anglicanaidd. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â dull deuol o ragarweiniadau, ar ôl ymrwymo eisoes i gadw rhagarweiniadau Anglicanaidd fel elfen hanfodol o briodas drwy'r eglwys sefydledig.

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n benodol ar ffyrdd y gellid cryfhau argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhagarweiniadau sifil, er mwyn darparu haen ychwanegol o amddiffyniad rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug y tu hwnt i gynigion Comisiwn y Gyfraith.

## Y broses ragarweiniadau dau gam

Mae'r system bresennol yn darparu mesur diogelu pwysig drwy ei gwneud yn ofynnol i gael apwyntiad wyneb yn wyneb, sy'n galluogi cofrestryddion i gynnal gwiriadau gweinyddol a swyddogaethau diogelu. Mae'r Llywodraeth yn glir na fydd y diwygiadau hyn yn gwanhau nac yn newid yr amddiffyniadau presennol yn erbyn priodasau ffug. Bydd y mesurau diogelu presennol yn parhau i fod ar waith, gan gynnwys gofyniad i rai cyplau fod yn bresennol yn bersonol a pharhau i gyfeirio rhai achosion at yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a oes angen ymchwiliad i briodas ffug, gyda'r opsiwn o ymestyn y cyfnod aros o 28 i 70 diwrnod pan fo hynny'n briodol.[43]

[43] Mae "rhai cyplau" yn cyfeirio at achosion lle nad yw'r naill neu'r llall neu'r ddau ohonynt: i) yn wladolion perthnasol (gweler Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 adran 19(1A) ii) wedi'u heithrio rhag rheolaeth fewnfudo (gweler Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 adran 19(1B)); mae "rhai achosion" yn cyfeirio at achosion lle nad yw'r un o'r partïon yn y briodas arfaethedig yn berson esempt (gweler adran 28H Deddf Priodasau 1949).

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn y gellid cryfhau'r mesurau diogelu hyn ymhellach drwy alluogi cofrestryddion i ganolbwyntio'n gliriach ar nodi risg, gan sicrhau bod gwiriadau gweinyddol yn parhau i gael eu cwblhau'n effeithiol.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymell cyflwyno dull dau gam o ymdrin â rhagarweiniadau sifil. Mae'r dull hwn yn gwahanu agweddau gweinyddol y broses oddi wrth y cyfweliad sy'n canolbwyntio ar ddiogelu. Barn y Llywodraeth yw y bydd y dull dau gam hwn yn gwella effeithlonrwydd ac yn cynnig gwell amddiffyniad rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug. Nodir y rhesymau dros hyn isod.

**Cam 1: Rhoi hysbysiad**

Ar y cam cyntaf hwn, byddai cyplau'n rhoi hysbysiad drwy gyflwyno'r wybodaeth bersonol ofynnol a llwytho tystiolaeth ddogfennol i fyny i ddangos hunaniaeth, cenedligrwydd, preswylfa a'u cymhwysedd i briodi. Byddai hyn yn cael ei wneud o bell, drwy system ar-lein.

Byddai cofrestrydd wedyn yn adolygu'r manylion a ddarparwyd. Byddai hyn yn golygu bod modd nodi unrhyw broblemau yn y cam cynharach hwn, yn hytrach na dibynnu ar un apwyntiad wyneb yn wyneb i gasglu a dilysu'r holl wybodaeth. Ar ôl rhoi hysbysiad, byddai'n cael ei gyhoeddi ar-lein.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y byddai gwahanu'r cam gweinyddol hwn oddi wrth y cyfweliad yn caniatáu i gofrestrwyr wneud defnydd mwy effeithiol o'u hamser yn y cam cyfweld, gan gynnwys paratoi ar gyfer trafodaethau diogelu a'u cynnal. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu mynd ar-lein yn dal yn gallu rhoi hysbysiad. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y dylid dileu'r gofyniad presennol y dylai pob cwpl fod wedi byw yng Nghymru a Lloegr am saith diwrnod cyn rhoi hysbysiad.

*Dangos hysbysiad ar-lein gan gynnwys eithriadau*

Mae hysbysiad o briodas yn hysbysiad cyhoeddus ffurfiol bod cwpl yn bwriadu priodi. Mae'r broses hysbysu yn cyflawni swyddogaeth ddiogelu bwysig drwy alluogi trydydd partïon i nodi a mynegi gwrthwynebiadau lle gallai fod rhwystr cyfreithiol i'r briodas. Gall hyn gynnwys pryderon ynghylch bigami, diffyg galluedd neu faterion eraill sy'n golygu na ddylai'r briodas fynd yn ei blaen.

O dan y system bresennol, mae hysbysiadau'n cael eu harddangos mewn swyddfeydd cofrestru am y cyfnod hysbysu statudol. Dywedodd Comisiwn y Gyfraith y gallai'r dull hwn gyfyngu ar effeithiolrwydd y mesur diogelu, gan nad yw llawer o bobl yn debygol o weld hysbysiadau sy'n cael eu harddangos mewn swyddfeydd cofrestru. Felly, roedd yn argymell y dylai hysbysiadau a roddir drwy ragarweiniadau sifil gael eu cyhoeddi ar-lein yn lle hynny. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y byddai cyhoeddi hysbysiadau priodas yn gwneud y system hysbysiadau yn fwy hygyrch ac yn cryfhau ei rôl o ran nodi rhwystrau cyfreithiol i'r briodas.

Mae’r Llywodraeth yn cydnabod y gallai cyhoeddi hysbysiadau ar-lein greu risgiau i rai unigolion, yn enwedig rhai a allai fod yn agored i gael eu cam-drin ac y byddai angen mesurau diogelu mewn achosion o’r fath. Felly, mae’r Llywodraeth o’r farn bod yn rhaid i unrhyw symudiad at gyhoeddi ar-lein gael ei ategu gan fesurau diogelu priodol.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai esemptiad fod ar gael os byddai cyhoeddi yn arwain at risg o niwed corfforol neu seicolegol penodol y gellir ei adnabod. Gallai hyn fod pan fydd unigolyn sy’n bwriadu priodi wedi dioddef cam-drin domestig, rheolaeth drwy orfodaeth neu gam-drin ar sail ‘anrhydedd’. Er enghraifft, gallai person fod mewn perygl o niwed corfforol penodol y gellir ei adnabod gan gyn-bartner sy’n cam-drin os caiff hysbysiad ei gyhoeddi ar-lein sy’n dangos ei fod yn bwriadu priodi rhywun arall. Mae’r Llywodraeth yn cytuno y dylid cyflwyno proses esemptio yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae’r Llywodraeth hefyd yn cytuno y dylai esemptiad o’r fath fod yn amodol ar ofynion tystiolaethol priodol. Gallai tystiolaeth gynnwys gorchymyn llys neu ddatganiad gan weithiwr proffesiynol fel gweithiwr cymdeithasol, heddwas neu weithiwr cymorth arbenigol.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn am y mathau o dystiolaeth y dylid bod eu hangen i gefnogi esemptiad rhag cyhoeddi ar-lein. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb arbennig yn y ffordd orau o daro’r cydbwysedd rhwng yr angen i amddiffyn unigolion sydd mewn perygl, pwysigrwydd diogelu a swyddogaeth cyhoeddusrwydd hysbysiadau.

*Gwybodaeth a chymorth yn y cam hysbysiad ar-lein*

Roedd Comisiwn y Gyfraith o’r farn y gallai’r system hysbysiadau ar-lein roi cyfle i gefnogi unigolion sydd mewn perygl o briodas dan orfod neu briodas reibus, drwy ddarparu gwybodaeth am alluedd a chydsyniad a chyfeirio at wybodaeth.[44] Mae’r Llywodraeth yn cytuno ac yn cynnig y dylai’r cam hysbysiad ar-lein fod yn borth diogelu allweddol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth glir a hygyrch er mwyn helpu unigolion i adnabod dangosyddion posibl o orfodaeth neu reolaeth, fel pwysau gan aelodau o’r teulu neu unigolion eraill, bygythiadau, unigrwydd neu reolaeth ariannol. Gallai hefyd gyfeirio unigolion at yr Uned Priodasau dan Orfod ac egluro sut y gellir codi pryderon yn ystod y broses ragarweiniadau, gan gynnwys yn y cyfweliad wyneb yn wyneb. [45]

Mae’r Llywodraeth hefyd yn cynnig y dylai’r broses hysbysiadau ar-lein gyfeirio cyplau at gymorth ac arweiniad ehangach am berthnasoedd. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am

[44] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Scoping Paper for Reform* (2022), Pennod 3 (Rhagarweiniadau) paragraff 3.61.

[45] Mae’r Uned Priodasau Dan Orfod yn fenter ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a’r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu sy’n arwain ymdrechion i frwydro yn erbyn priodasau dan orfod yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Mae’n darparu cymorth a chyngor i ddioddefwyr, y rhai sydd mewn perygl a gweithwyr proffesiynol.

natur gyfreithiol a chanlyniadau priodas, yr hawliau a'r cyfrifoldebau y mae'n eu creu a mynediad at adnoddau addysg perthnasoedd.

**Cam 2: Cyfweliad wyneb yn wyneb**

Yn yr ail gam, byddai'n ofynnol i bob parti fynychu cyfweliad wyneb yn wyneb gorfodol ar wahân gyda chofrestrydd.[46]

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith bod hwn yn fesur diogelu pwysig iawn. Mae cofrestryddion eisoes yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau bod y gofynion cyfreithiol ar gyfer priodas yn cael eu bodloni ac o nodi pryderon a allai godi yn ystod y broses ragarweiniadau. Byddai cyfweliad wyneb yn wyneb ar wahân yn diogelu ac yn cryfhau'r diogelwch hwnnw drwy sicrhau bod pob parti'n cael cyfle preifat i fynegi pryderon neu ddatgelu eu bod yn cael eu gorfodi, eu rhoi dan bwysau neu eu gorfodi i briodi.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai cyfweliad wyneb yn wyneb, ar ôl rhoi hysbysiad ar-lein, yn rhoi rhagor o gefnogaeth i gofrestryddion gyflawni'r rôl bwysig hon. Drwy ganiatáu i wybodaeth gael ei darparu ymlaen llaw drwy broses hysbysu ar-lein, gallai'r cyfweliad fod yn gyfle mwy penodol i ystyried materion diogelu a gwirio ac asesu a oes dangosyddion gorfodi.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir cynnwys haenau ychwanegol o ddiogelwch yn y cyfweliad wyneb yn wyneb hefyd, y tu hwnt i argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai cofrestryddion orfod gofyn set o gwestiynau gyda'r nod o nodi priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig y dylai cofrestryddion orfod darparu gwybodaeth mewn perthynas â phriodasau dan orfod a phriodasau rheibus yn yr apwyntiad wyneb yn wyneb, gan gyd-fynd â mesurau diogelu sy'n diogelu rhag priodasau ffug.

**Cwestiwn 1**

A ddylid darparu gwybodaeth a chyfeirio ar y llwyfan hysbysiad ar-lein er mwyn cefnogi a diogelu cyplau, gan gynnwys mewn perthynas â phriodas dan orfod, cydsyniad a galluedd?

- Dylid
- Na ddylid
- Heb benderfynu

Os mai 'Dylid' oedd eich ateb, nodwch pa wybodaeth a chyfeirio y dylid eu darparu?

- [Testun rhydd]

[46] Oni bai, fod gofyn i rai cyplau fynychu gyda'i gilydd (er enghraifft, pan fydd un parti neu'r ddau yn destun rheolaethau mewnfudo).

**Cwestiwn 2**

Ydych chi’n cytuno â’r math o wybodaeth y mae’r Llywodraeth yn cynnig y dylid ei darparu yn ystod y cam hysbysiad ar-lein? Mae hyn yn cynnwys deunydd i helpu unigolion i adnabod dangosyddion posibl o orfodaeth neu reolaeth, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth am sut i ofyn am gymorth drwy’r Uned Priodasau dan Orfod, sut i godi pryderon yn ystod y broses ragarweiniadau a chyfeirio at gymorth ac arweiniad am berthnasoedd. Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 3**

Beth yw eich barn am y math o dystiolaeth a ddylai fod yn ofynnol ar gyfer yr eithriad seiliedig ar niwed rhag cyhoeddi hysbysiad ar-lein? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 4**

Ydych chi’n cytuno, yn y cyfweliad wyneb yn wyneb, y dylai cofrestryddion orfod gofyn set benodol o gwestiynau sydd â’r nod o nodi priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

# Pennod 3 - Ffurfio Priodas yn Gyfreithiol

Mae dechrau priodas yn ymrwymiad personol mawr a hefyd yn ddechrau perthynas gyfreithiol newydd rhwng cwpl. Seremoni briodas yw'r adeg pan ffurfir y statws cyfreithiol hwnnw. Mae'r bennod hon yn gofyn am farn ar y gofynion cyfreithiol ar gyfer seremonïau priodas, gan gynnwys y geiriau neu'r gweithredoedd a ddefnyddir i fynegi cydsyniad mewn gwahanol fathau o seremoni.

Mae'r Llywodraeth yn ceisio sicrhau bod y gyfraith yn glir ynghylch y gofyniad craidd i gyplau roi caniatâd i briodi gan ganiatáu iddynt gael seremoni sy'n ystyrlon iddynt ac sy'n adlewyrchu eu credoau, eu traddodiadau a'u dymuniadau.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith fframwaith symlach lle byddai pob priodas yn golygu bod yn rhaid i'r ddau barti fynegi cydsyniad i briodi ym mhresenoldeb ei gilydd, gweinyddwr a dau dyst. Mae'r Llywodraeth yn cytuno mai'r adeg y mynegir cydsyniad yw'r adeg y ffurfir y briodas yn gyfreithlon. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig mai unig ofynion cyfreithiol craidd y seremoni fyddai:

- y ddau barti'n mynegi eu cydsyniad i briodi ei gilydd yng ngŵydd ei gilydd, y gweinyddwr a dau dyst; a
- llofnodi'r atodlen neu'r ddogfen briodas.[47]

Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r dull hwn yn rhoi mwy o gysondeb a sicrwydd cyfreithiol. Byddai'n sefydlu pwynt clir a gweladwy ym mhob priodas lle mae'r ddau barti'n cadarnhau eu bod yn cytuno'n rhydd i briodi. Bydd hyn yn lleihau'r risg o anghydfodau ynghylch a wnaeth cwpl ymrwymo i briodas gyfreithiol yn rhydd a bydd yn cryfhau mesurau diogelu yn erbyn priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug.

## Cydsyniad mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol

O dan y fframwaith cyfreithiol presennol, mae'r ffordd y mae'n rhaid mynegi cydsyniad yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o seremoni. Yn y rhan fwyaf o achosion, bodlonir y gofyniad hwn drwy ddefnyddio geiriau rhagnodedig. Dyma sut mae'r cwpl yn mynegi eu cydsyniad i briodi ei gilydd a chadarnhau nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol.

Tynnodd Comisiwn y Gyfraith sylw at nifer o broblemau gyda geiriau rhagnodedig. I lawer o grwpiau crefyddol, mae mynegi eu cydsyniad gan ddefnyddio'r geiriau rhagnodedig yn fwrn ac yn anghydnaws â'u harferion. Er enghraifft, mae'r ddefod Hindŵaidd o gwpl yn cerdded saith gwaith o amgylch yr Agni, y tân cysegredig, neu'r ddefod Fwslimaidd o

[47] Rhaid i hwn gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan bob un o'r partïon, ym mhresenoldeb ei gilydd, dau dyst a'r gweinyddwr sy'n cadarnhau eu bod wedi mynegi cydsyniad yn gyfreithiol i briodi.

gyfnewid ijāb (cynnig) a qubūl (derbyn) yn cael eu hystyried yn weithredoedd canolog lle mae'r cwpl yn priodi yn y crefyddau hyn. O dan y gyfraith bresennol, nid yw'r gweithredoedd hyn yn cael eu cydnabod fel mynegiant cyfreithlon o gydsyniad i briodas sy'n ddilys yn gyfreithiol a gall pryderon tebyg godi i sefydliadau cred anghrefyddol y gall eu seremonïau fynegi cydsyniad drwy weithredoedd, gan gynnwys defodau, yn hytrach na thrwy eiriau gosodedig.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y dylid gallu mynegi cydsyniad, mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol, drwy weithredoedd yn ogystal â geiriau. Byddai hyn yn golygu y gellid cydnabod gweithredoedd neu eiriau fel y foment y caiff priodas ei ffurfio'n gyfreithiol, ar yr amod bod y cwpl, y gweinyddwr a'r tystion yn rhannu dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd y weithred neu'r geiriau. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai hyn yn adlewyrchu'n well yr amrywiaeth o draddodiadau ac arferion a ddefnyddir mewn seremonïau priodas.

**Cwestiwn 5**

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gydsyniad gael ei fynegi drwy gyflawni gweithredoedd mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Cydsyniad mewn seremonïau sifil

Mae ystyriaethau gwahanol yn berthnasol i seremonïau sifil. Nid oes angen i seremonïau sifil ddarparu ar gyfer yr un ystod o arferion cred crefyddol neu anghrefyddol pan fydd cwpl yn rhoi caniatâd i briodi. Wedi dweud hynny, canfu Comisiwn y Gyfraith y gall y geiriau rhagnodedig deimlo'n annilys ac yn amhersonol i rai cyplau ac y gallant gyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio geiriau sy'n adlewyrchu traddodiadau diwylliannol neu deuluol neu hunaniaethau'r cwpl.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderon hyn. Fodd bynnag, mae'n credu y dylai seremonïau sifil barhau i gynnwys mynegiant clir, safonedig ac adnabyddadwy o gydsyniad. Mae hyn yn diogelu buddiannau'r wladwriaeth o ran sicrhau bod y ddau barti wedi cytuno'n rhydd i briodi ac yn rhoi sicrwydd yn y gyfraith ar gyfer seremonïau sifil lle nad oes arferion a thraddodiadau di-eiriau sefydledig ar gyfer mynegi cydsyniad. Rydym yn cynnig y dylid defnyddio geiriau cydsynio gofynnol mewn seremonïau sifil fel y ffordd o fynegi cydsyniad, ond y dylid cyfyngu'r geiriau hyn i elfennau craidd ymrwymiad priodas. Mae hyn yn unol â chynigion Comisiwn y Gyfraith.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r geiriau gofynnol fod ar ffurf datganiad byr o gontract, megis:

*"Rwyf i [enw] yn dy dderbyn di [enw] yn [ŵr/wraig/briod] i mi"*

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y geiriad hwn yn syml, yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Mae hefyd yn cynnwys opsiwn ("priod") ar gyfer cyplau nad ydynt yn uniaethu â'r termau "gŵr" a "gwraig".

Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn y dylid caniatáu amrywiad cyfyngedig drwy ddefnyddio "geiriau i'r un perwyl". Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd priodol ar yr amod bod y ddau barti'n parhau i fynegi cydsyniad yn glir. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys geiriau sy'n cael eu siarad mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg fel Cernyweg neu amrywiadau o ran cyflwyno'r geiriau o ganlyniad i anabledd neu gyflyrau meddygol, fel syndrom Tourette.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r gweinyddwr fod yn gyfrifol am benderfynu a yw unrhyw amrywiad yn dderbyniol, wedi'i gefnogi gan ganllawiau a ddarperir gan y rheoleiddiwr. Byddai hyn yn helpu i osgoi unrhyw ansicrwydd ynghylch a roddwyd cydsyniad ac yn sicrhau bod modd adnabod yr adeg gyfreithiol ar gyfer mynegi cydsyniad o hyd.

Er y byddai'r dull hwn yn golygu bod rheolau gwahanol ynghylch sut mae cydsyniad yn cael ei fynegi mewn seremonïau sifil a seremonïau cred, mae'r Llywodraeth yn credu bod cyfiawnhad dros hyn. Byddai'n darparu ar gyfer gwahanol arferion cred, gan wella cysondeb ac eglurder cyfreithiol ym mhob seremoni briodas.

**Cwestiwn 6**

Ydych chi'n cytuno â'r geiriau gofynnol arfaethedig ar gyfer priodasau sifil? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 7**

Oes yna unrhyw amrywiadau penodol i'r geiriau gofynnol y dylid eu hystyried yn dderbyniol ac y dylai "geiriau i'r un perwyl" fod yn berthnasol iddynt? Esboniwch eich rhesymeg a/neu rhowch enghreifftiau yn y blwch testun.

- Oes
- Nac oes
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

# Pennod 4 - Y Fframwaith Urddas

Mae priodas yn ymrwymiad cyfreithiol a phersonol sylweddol a dylid ymrwymo iddo fel rhwymedigaeth ddifrifol a gydol oes. Mae cynigion y Llywodraeth yn ymwneud â rhoi mwy o ddewis i gyplau ynghylch y seremoni a ddefnyddir ganddynt i briodi, gan gynnal difrifoldeb, cyfreithlondeb a phwysigrwydd cymdeithasol y briodas ei hun.

Ni ddylid deall bod mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir cynnal seremoni briodas yn lleihau difrifoldeb yr ymrwymiad sy'n cael ei wneud. Felly, bwriad y fframwaith urddas yw sicrhau, er bod gan gyplau ragor o ddewis ynghylch ffurf a lleoliad eu seremoni, bod y weithred o ymrwymo i briodas yn dal yn ddifrifol, yn fwriadol, yn ddiogel ac yn gyfreithiol sicr.

Mae'r bennod hon yn gofyn am farn ar fframwaith urddas arfaethedig a sut y dylai fod yn berthnasol i leoliadau a seremonïau priodas. Mae hefyd yn trafod y gwahaniaeth rhwng seremonïau cred a seremonïau sifil.

## Diogelu urddas o dan gynllun diwygiedig

O dan y gyfraith bresennol, mae urddas priodasau yn cael ei ddiogelu'n anwastad. O ran priodasau sifil, mae'n cael ei sicrhau'n bennaf drwy reoleiddio safleoedd. Yn gyffredinol, dim ond mewn swyddfa gofrestru neu ar safle cymeradwy y gellir cynnal priodas sifil, ond dim ond mewn perthynas â safleoedd cymeradwy y mae'r gyfraith yn mynnu'n benodol bod y lleoliad yn "weddus ac yn urddasol". Felly, mae'r rheolau presennol hyn yn rhoi urddas yn bennaf i'r lleoliad lle mae'r briodas yn digwydd, yn hytrach nag i'r seremoni ei hun neu gyfrifoldebau'r person sy'n gweinyddu.

Nid yw priodasau crefyddol yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd â phriodasau sifil ac mae gan rai grwpiau crefyddol fwy o hyblygrwydd nag eraill ynghylch ble a sut y gellir cynnal priodasau. Mae hyn yn arwain at fframwaith anghyson lle mae urddas yn cael ei ddiogelu ar gyfer rhai priodasau, ond nid yn yr un ffordd ar gyfer pob math o seremonïau.

O dan fodel arfaethedig y Llywodraeth sy'n seiliedig ar weinyddwyr, byddai'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros gynnal urddas ac arwyddocâd priodas yn nwylo'r gweinyddwr. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, a ddywedodd hefyd y dylai gweinyddwyr gael eu cefnogi gan ganllawiau i'w helpu i gyflawni'r rôl honno.[48] Fodd bynnag, o ystyried yr hyblygrwydd ychwanegol y byddai diwygio'n ei gyflwyno, mae'r Llywodraeth o'r farn na

[48] A-new-weddings-law-LC-report.pdf, tudalen 119; Gweler Pennod 6 – Officiants for more discussion of the officiant's role and duties.

fyddai canllawiau cyffredinol ar eu pen eu hunain yn darparu digon o eglurder na chysondeb.

Er mwyn mynd i’r afael â hyn, mae’r Llywodraeth yn cynnig creu fframwaith urddas er mwyn cefnogi gweinyddwyr yn eu hasesiad ynghylch a yw priodas, yn ei chyfanrwydd, yn cynnal urddas ac arwyddocâd priodas. Bwriad y fframwaith yw darparu sail glir ar gyfer gwneud penderfyniadau, drwy ddarparu safonau clir sy’n nodi beth yw priodas urddasol (gan gynnwys mewn perthynas â’r seremoni a’r lleoliad) ynghyd â ffactorau mwy penodol y dylai gweinyddwyr eu hystyried wrth asesu a yw’r ddyletswydd i gynnal urddas ac arwyddocâd wedi cael ei chyflawni’n ymarferol. Gyda’i gilydd, mae’r elfennau hyn wedi’u cynllunio i helpu gweinyddwyr i arfer eu barn mewn ffordd gyson a thryloyw.

## Y Fframwaith Urddas

Bydd urddas yn fwyaf uniongyrchol berthnasol mewn dwy agwedd ar rôl gweinyddwr: cymeradwyo lleoliad y briodas a chytuno ar ymddygiad a chynnwys y seremoni ei hun. Felly, mae’r fframwaith arfaethedig yn cynnwys safonau a ffactorau penodol ar gyfer lleoliadau priodasau a seremonïau priodas.

Mae’r Llywodraeth yn cydnabod bod urddas yn oddrychol i ryw raddau ac y gallai gwahanol gyplau, cymunedau a thraddodiadau ei ddeall a’i fynegi’n wahanol. Felly, nid yw’r fframwaith yn ceisio rhagnodi pob nodwedd o briodas urddasol. Yn hytrach, mae’n darparu safonau a ffactorau i arwain a chefnogi gweinyddwyr i wneud penderfyniadau cyson a rhesymegol, tra’n rhoi disgresiwn er mwyn adlewyrchu amgylchiadau penodol pob priodas.

Wrth roi’r fframwaith ar waith, bydd angen i weinyddwyr ystyried traddodiadau a diwylliannau amrywiol cyplau fel yr adlewyrchir mewn priodasau sifil a phriodasau cred crefyddol ac anghrefyddol. Mae’r fframwaith yn nodi tri cham craidd y byddai disgwyl i weinyddwyr eu hystyried fel rhan o’u dyletswydd gyfreithiol i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas, wrth asesu pob priodas unigol.

Mae’r ddau gam cyntaf yn nodi safonau sy’n disgrifio beth yw priodas urddasol, ac mae’r trydydd cam yn darparu set o ffactorau er mwyn helpu gweinyddwyr i roi’r safonau hynny ar waith yn ymarferol:

**Tri cham y fframwaith urddas**

**Cam 1:** Safon gyffredinol ar gyfer urddas y dylid asesu'r briodas yn ei chyfanrwydd yn ei herbyn;

**Cam 2:** Dwy safon ategol yn ymwneud â'r lleoliad a'r seremoni;

**Cam 3:** Rhestr o ffactorau y mae'n rhaid i'r gweinyddwr eu hystyried wrth benderfynu a yw'r lleoliad a'r seremoni arfaethedig yn briodol.

**Cam 1: Safon urddas gyffredinol**

Mae'r Llywodraeth yn cynnig safon gyffredinol ar gyfer cynnal urddas a dylai gweinyddwr asesu addasrwydd priodas yn ei chyfanrwydd yn erbyn y safon hon. Mae tair elfen i'r cynnig hwn.

- *Bydd y briodas yn galluogi'r cwpl i fynegi cydsyniad rhydd a gwybodus i briodi, mewn ffordd ddealladwy.*

Mae gan y gweinyddwr ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod y cwpl yn mynegi cydsyniad rhydd i briodi ei gilydd ac felly dylai ystyried sut y dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n cynnal urddas cyffredinol y briodas.

- *Ni fydd urddas yr achlysur yn cael ei danseilio gan ymyrraeth neu ddibrisio.*

Mae dibrisio'n cyfeirio at elfennau a fyddai'n tanseilio neu'n lleihau'r arwyddocâd neu'r difrifoldeb. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, os yw'r lleoliad neu'r gweithgareddau'n ymyrryd i'r graddau bod y weithred o briodi troi'n rhywbeth damweiniol neu os yw'r seremoni'n cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ei lleihau i addurn neu berfformiad heb gydnabyddiaeth ystyrlon o'r ymrwymiad sy'n cael ei wneud.

- *Bydd y briodas yn adlewyrchu arwyddocâd a difrifoldeb priodas fel digwyddiad mawr mewn bywyd ac ymrwymiad gydol oes.*

Nid yw difrifoldeb yn y cyd-destun hwn yn atal priodasau rhag bod yn achlysuron llawen a llawn dathlu nac yn atal adlewyrchu dymuniadau a dewisiadau personol y cwpl eu hunain. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at yr angen i'r seremoni, o'i chymryd yn ei chyfanrwydd, roi sylw priodol i arwyddocâd cyfreithiol a chymdeithasol priodas.

Mae'r safon gyffredinol hon yn adlewyrchu'r elfennau allweddol y mae'r Llywodraeth yn credu sydd eu hangen i fod yn sail i briodas urddasol yn ymarferol, gan gynnwys pwysigrwydd canolog cydsyniad rhydd a gwybodus a'r disgwyliad bod priodas yn cael ei chydnabod fel ymrwymiad difrifol ac ystyrlon. Gyda'i gilydd, bwriad yr elfennau hyn yw sicrhau bod pob priodas yn cael ei chynnal gyda'r parch a'r sylw sydd eu hangen i ffurfio ymrwymiad cyfreithiol gydol oes.

**Safon urddas gyffredinol arfaethedig**

Bydd priodas urddasol yn galluogi’r cwpl i fynegi cydsyniad rhydd a gwybodus i briodi, mewn ffordd ddealladwy. Ni fydd urddas yr achlysur yn cael ei danseilio gan ymyrraeth neu ddibrisio. Bydd y briodas yn adlewyrchu arwyddocâd a difrifoldeb priodas fel digwyddiad mawr mewn bywyd ac ymrwymiad gydol oes.

**Cam 2: Safonau ategol i sicrhau lleoliad a seremoni urddasol**
Fel y nodir uchod, bydd urddas gan amlaf yn dod o’r lleoliad lle mae priodas yn digwydd a’r ffordd mae seremoni’n cael ei chynnal. Er bod y safon gyffredinol yn darparu’r egwyddorion craidd ar gyfer asesu priodas, mae’r Llywodraeth yn credu y byddai gweinyddwyr yn elwa o safonau mwy penodol i’w cefnogi i wneud penderfyniadau cyson.

Felly, mae’r Llywodraeth yn cynnig dwy safon ategol: un yn ymwneud â lleoliad priodasau ac un yn ymwneud â chynnal y seremoni. Mae’r safonau hyn yn trosi’r cysyniad cyffredinol o urddas yn ddau gyd-destun allweddol lle mae’n rhaid ei gymhwyso’n ymarferol.

*Lleoliad Urddasol*
Mae’r Llywodraeth yn cynnig bod lleoliad urddasol yn un sy’n:

- *caniatáu i gyfranogwyr fod yn bresennol yn ddiogel*

Dylai’r gweinyddwr fod yn fodlon bod pawb sydd angen bod yn bresennol, gan gynnwys y cwpl, tystion, unigolion eraill a’r gweinyddwr ei hun, yn gallu cael mynediad at y lleoliad ac aros yno gyda lefel resymol o ddiogelwch. Bydd hon yn ystyriaeth arbennig o berthnasol mewn lleoliadau awyr agored, anghysbell neu anhraddodiadol eraill.

- *caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan ystyrlon yn y seremoni*

Dylai’r lleoliad ganiatáu i’r rhai sydd angen bod yn bresennol gymryd rhan yn y seremoni, gan gynnwys gallu deall yr hyn sy’n digwydd, yn enwedig y mynegiant o gydsyniad i briodi. Ni fydd lleoliadau lle mae hyn yn cael ei rwystro’n sylweddol yn gydnaws â phriodas urddasol.

- *lleihau’r risg o ymyrraeth y gellid yn rhesymol fod wedi’i rhagweld a’i hatal.*

Dylai’r lleoliad sicrhau bod y ffocws yn parhau ar yr ymrwymiad i briodas sy’n cael ei wneud gan y cwpl, Felly, dylai ddigwydd mewn amgylchedd sydd heb fod yn destun ymyrraeth ormodol na tharfu.

**Safon ategol arfaethedig i sicrhau lleoliad urddasol**

Mae lleoliad urddasol yn un sy'n caniatáu i gyfranogwyr fynychu'n ddiogel, sy'n caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan ystyrlon yn y seremoni ac sy'n lleihau'r risg o ymyrraeth y gellid yn rhesymol fod wedi'i rhagweld a'i hatal.

*Seremoni Urddasol*
Mae'r Llywodraeth yn cynnig bod seremoni urddasol yn un sy'n galluogi'r rhai sy'n gysylltiedig i wneud y canlynol:

- *canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd*

Dylai'r seremoni gael ei strwythuro mewn ffordd sy'n caniatáu i'r cwpl, y tystion a'r gweinyddwr ganolbwyntio ar elfennau craidd y seremoni, yn enwedig y mynegiant o gydsyniad i briodi.

- *trin yr achlysur â pharch*

Dylai ffurf a dull cynnal y seremoni adlewyrchu difrifoldeb priodas fel ymrwymiad cyfreithiol a phersonol gydol oes. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r seremoni fod yn brudd neu'n brin o bersonoleiddio, ond dylai gefnogi dealltwriaeth o bwysigrwydd yr ymrwymiad sy'n cael ei wneud.

- *osgoi'r risg o wneud i briodas ymddangos yn ddibwys.*

Ni ddylai'r seremoni gynnwys elfennau a allai danseilio neu israddoli'r weithred o briodi o'i chymharu â gweithgareddau eraill. Er y gall seremonïau gynnwys nodweddion ysgafn neu bersonol, dylai'r rhain aros yn gyson ag urddas cyffredinol yr achlysur.

**Safon ategol arfaethedig i sicrhau seremoni urddasol**

Dylai seremoni urddasol ganiatáu i'r rhai dan sylw ganolbwyntio ar y gweithrediadau a thrin yr achlysur â pharch. Ni ddylai beryglu gwneud i briodas ymddangos yn ddibwys.

### Cam 3: Ffactorau y mae'n rhaid i'r gweinyddwr eu hystyried

*Ffactorau ar gyfer asesu a yw lleoliad yn urddasol*
Er mwyn cefnogi gweinyddwyr i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol, rydym yn cynnig y dylent ystyried y rhestr ganlynol o ffactorau wrth asesu a yw lleoliad yn urddasol. Bwriad y rhain yw arwain, ond nid penderfynu, y gweinyddwr fyddai'n gwneud y penderfyniad a hynny fesul achos.

**Ffactorau arfaethedig ar gyfer asesu a yw lleoliad yn urddasol**

- **Bod ar wahân i weithgareddau eraill:** oes yna fodd rheoli'r lleoliad yn ddigonol fel bod y seremoni ar wahân i weithgareddau eraill sy'n digwydd ar yr un pryd ac yn cael ei diogelu rhag ymyrraeth neu aflonyddwch, er mwyn i'r cwpl allu canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd.
- **Preifatrwydd:** a yw'r lleoliad yn darparu lefel briodol o breifatrwydd ac yn caniatáu i'r cwpl ganolbwyntio ar y seremoni heb ymyrraeth ormodol.
- **Cefnogi dyletswydd broffesiynol y gweinyddwr:** i ba raddau y mae'r lleoliad yn galluogi'r gweinyddwr i wneud ei waith i safon broffesiynol uchel, gan adlewyrchu arwyddocâd cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol priodas.
- **Arwyddocâd personol:** ystyr bersonol y lleoliad i'r cwpl, a allai gefnogi, ond nid penderfynu, canlyniad yr asesiad ynghylch a yw lleoliad yn urddasol.

Bwriad y ffactorau hyn yw helpu gweinyddwyr i wahaniaethu rhwng lleoliadau sy'n gallu cefnogi priodas urddasol a rhai sy'n annhebygol o wneud hynny. Er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn gallu adlewyrchu urddas ac arwyddocâd priodas, mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a yw'r ffactorau hyn yn cyflawni'r nod hwn ac oes yna unrhyw ffactorau ychwanegol y dylai gweinyddwyr eu hystyried. Yn benodol, rydym o'r farn y bydd defnydd cyffredin o'r lleoliad yn berthnasol o ran penderfynu a ellir cynnal y seremoni gyda'r ffocws a'r parch sy'n ofynnol ar gyfer priodas.

Ni fydd lleoliadau a nodweddir gan ymyrraeth neu aflonyddwch nad oes modd ei osgoi, fel clybiau nos yn ystod gweithrediad arferol neu stadia yn ystod digwyddiadau chwaraeon byw, yn bodloni'r safon arfaethedig. Bydd lleoliadau lle mae gofyn i gyfranogwyr ganolbwyntio ar weithgaredd arall yn ystod y seremoni, fel plymio o'r awyr, rafftio dŵr gwyn, neu reidiau difyrion, hefyd yn methu â chyrraedd y safon. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai cyfranogwyr yn gallu ymgysylltu'n briodol â'r seremoni, sy'n golygu efallai na fyddai'r gofynion cyfreithiol ar gyfer priodas yn cael eu bodloni, fel mynegi cydsyniad i briodi ym mhresenoldeb dau dyst. Nid yw'n agored i drafodaeth y dylai'r lleoliad alluogi'r cwpl i ddeall ei gilydd yn glir wrth fynegi cydsyniad i briodi ac i hyn gael ei dystio, er mwyn i'r gweinyddwr gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod y seremoni'n bodloni'r gofynion cyfreithiol.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r fframwaith eithrio pob lleoliad anhraddodiadol. Er enghraifft, efallai y bydd angen ystyried balŵn aer poeth wedi'i glymu neu draeth cyhoeddus yn ofalus ond gellid eu caniatáu ar yr amod bod y gweinyddwr wedi'i fodloni bod modd cynnal y seremoni'n ddiogel, o ddifri a heb ymyrraeth ddiangen.

*Ffactorau ar gyfer asesu a yw lleoliad yn ddiogel*
Yn ogystal â'r ddyletswydd i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas ac yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i'r gweinyddwr ystyried y ffactorau canlynol wrth asesu addasrwydd lleoliad er mwyn sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

**Ffactorau arfaethedig ar gyfer asesu a yw lleoliad yn ddiogel**

- Diogelwch personol, hygyrchedd a chyflwr ffisegol: unrhyw risgiau diogelwch neu gyfyngiadau ymarferol sy'n deillio o gyflwr a safle'r lleoliad.
- **Risgiau amgylcheddol:** unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld a allai amharu ar yr hyn sy'n digwydd, gan gynnwys y tywydd neu dir anaddas, ac i ba raddau y gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy fesurau wrth gefn priodol.
- **Cydymffurfio â'r gyfraith:** a gafwyd pob caniatâd sydd ei angen gan y tirfeddiannwr neu'r awdurdod perthnasol a'u bod wedi cyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a allai fod ganddynt o dan y gyfraith gyffredinol.

Dim ond pan fydd yn fodlon ei fod yn cefnogi urddas y seremoni, yn ddiogel i gyfranogwyr ac yn caniatáu i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer priodas gael eu bodloni y dylai'r gweinyddwr gymeradwyo lleoliad. Os nad yw'r gofynion hynny'n cael eu bodloni, dylai'r gweinyddwr helpu'r cwpl i ddod o hyd i leoliad mwy addas neu wrthod gweinyddu yn y lleoliad arfaethedig.

*Ffactorau ar gyfer asesu a yw seremoni yn urddasol*
Yn yr un modd â lleoliadau priodas, mae'r Llywodraeth yn cynnig rhestr o ffactorau i helpu gweinyddwr wrth gytuno ar ffurf y seremoni gyda'r cwpl.

**Ffactorau arfaethedig ar gyfer asesu a yw seremoni yn urddasol**

- Cyflwyniad: a yw ymarweddiad personol, gan gynnwys gwisg, y gweinyddwr a'r cwpl yn cynnal urddas yr achlysur.
- Ymddygiad: yr ymddygiad a ddisgwylir gan y gweinyddwr a/neu berson arall sy'n arwain y gwasanaeth a'r cwpl eu hunain yn ystod y seremoni.
- Rheoli'r amgylchedd: a yw'r gweinyddwr yn gallu cadw rheolaeth briodol dros yr amgylchedd cyfagos, gan gynnwys atal ymyriadau neu aflonyddwch yn ystod y seremoni.
- Ystyr personol: a yw elfennau o ystyr personol yn cefnogi'r seremoni.

Bwriad y ffactorau hyn yw helpu gweinyddwyr i wahaniaethu rhwng seremonïau sy'n cynnal urddas priodas a seremonïau sydd ddim yn cynnal urddas priodas. Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a ydynt yn cyflawni'r nod hwn ac oes yna unrhyw ffactorau eraill y dylai gweinyddwyr eu hystyried wrth asesu ffurf seremoni. Er enghraifft, pe bai cwpl eisiau i'r seremoni gael ei pherfformio fel parodi neu sgets gomedi, gyda'r mynegiant o gydsyniad yn cael ei drin fel rhan o'r perfformiad, ni fyddai hyn yn bodloni'r safon arfaethedig. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r seremoni'n adlewyrchu'r difrifoldeb sy'n ofynnol ar gyfer y weithred gyfreithiol o briodi. Bwriedir i'r ffactorau gefnogi gweinyddwyr i wneud y penderfyniad hwnnw fesul achos.

Yn olaf, mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylai cyfyngiadau penodol fod yn berthnasol i'r seremoni er mwyn helpu i gadw urddas ac arwyddocâd priodas. Yn benodol, gofynnir am farn ynghylch a ddylai'r fframwaith orfodi'r canlynol:

**Cyfyngiadau arfaethedig a fyddai'n berthnasol i'r seremoni**

- Peidio ag yfed unrhyw fwyd na diod, gan gynnwys alcohol, yn achlysurol/hamddenol yn ystod y seremoni. Ni fyddai hyn yn atal defodau seremonïol, cred na chrefyddol sy'n cynnwys bwyd a diod, ac ni fyddai ychwaith yn berthnasol i fwyd neu ddiod sydd ei angen ar blant a babanod, nac i unigolion sydd angen bwyd neu ddiod i reoli anghenion meddygol.
- Ni ddylai'r seremoni gynnwys elfennau sy'n seiliedig ar gimig neu sy'n dibrisio ac a fyddai'n tynnu oddi ar arwyddocâd priodas fel gweithred gyfreithiol. Ni fyddai hyn yn atal cynnwys elfennau ysgafn fel darlleniad o waith Shakespeare, cydganu â Sweet Caroline neu gyfraniadau tebyg eraill, cyn belled â bod y rhain yn aros o fewn ffiniau urddas ac nad ydynt yn gyfystyr ag arddangosfeydd gormodol neu amhriodol.

**Cwestiwn 8**

Ydych chi'n cytuno â fframwaith urddas newydd arfaethedig y Llywodraeth i gefnogi gweinyddwyr yn eu dyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod priodasau'n urddasol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 9**

Ydych chi'n cytuno â'n safon urddas gyffredinol arfaethedig?

- Mae'r briodas yn galluogi'r cwpl i fynegi cydsyniad rhydd a gwybodus i briodi, mewn ffordd ddealladwy.
- Nid yw'r briodas yn cael ei thanseilio gan ymyrraeth neu ddibrisio.
- Mae'r briodas yn adlewyrchu arwyddocâd a difrifoldeb priodas fel digwyddiad mawr mewn bywyd ac ymrwymiad gydol oes.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 10**

Ydych chi'n cytuno â'r safon ategol arfaethedig a fydd yn cefnogi'r gweinyddwr i gytuno ar leoliad priodas urddasol?

- Mae'r lleoliad priodas yn caniatáu i gyfranogwyr fynychu'n ddiogel.

- Mae'r lleoliad priodas yn caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan yn y seremoni.
- Mae'r lleoliad priodas yn lleihau'r risg o unrhyw dynnu sylw y gellid bod wedi cael ei ragweld a'i atal yn rhesymol.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 11**

Ydych chi'n cytuno â'r safon ategol arfaethedig a fydd yn cefnogi'r gweinyddwr i gytuno ar seremoni briodas urddasol?

- Dylai'r seremoni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd
- Dylai'r seremoni drin yr achlysur â pharch
- Dylai'r seremoni osgoi'r risg o wneud i briodas ymddangos yn ddibwys.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 12**

Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau arfaethedig y dylai gweinyddwr eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw lleoliad yn urddasol? Rhowch resymau neu awgrymiadau ar gyfer ffactorau ychwanegol yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 13**

Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau y dylai'r gweinyddwyr eu hystyried wrth benderfynu a fydd seremoni briodas yn urddasol? Rhowch resymau neu awgrymiadau ar gyfer ffactorau ychwanegol yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 14

Ydych chi'n meddwl y dylid cael cyfyngiadau ar fwyta neu yfed, gan gynnwys alcohol, yn ystod seremoni briodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun, gan gynnwys ble y dylai unrhyw gyfyngiadau fod yn berthnasol ac a ddylai unrhyw gyfyngiadau o'r fath wahaniaethu rhwng defnydd "hamdden" a bwyd neu ddiod a ddefnyddir am resymau crefyddol, anghrefyddol, seremonïol neu feddygol.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 15

Ydych chi'n meddwl y dylid cael cyfyngiadau penodol ar weithredoedd neu elfennau sy'n seiliedig ar gimig neu sy'n dibrisio mewn seremoni briodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun, gan gynnwys sut y dylid cydbwyso unrhyw gyfyngiadau o'r fath yn erbyn mynegiant personol ac elfennau ysgafn neu ddiwylliannol ystyrlon.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Cynnwys y seremoni

### Gwahaniaethu rhwng seremonïau cred a seremonïau sifil

O dan y gyfraith bresennol, mae cynnwys crefyddol mewn seremonïau sifil wedi'i gyfyngu'n dynn. Mae gwasanaethau crefyddol wedi'u gwahardd ac ni chaiff cyplau ond cynnwys caneuon, cerddoriaeth neu ddarlleniadau sy'n cynnwys cyfeiriadau achlysurol at dduw os defnyddir y rhain mewn cyd-destun nad yw'n grefyddol yn ei hanfod.

Canfu Comisiwn y Gyfraith y gall fod yn anodd rhoi'r rheol hon ar waith yn ymarferol. Efallai y bydd gofyn i gofrestryddion nodi cynnwys crefyddol nad ydynt yn gyfarwydd ag ef, gan gynnwys mewn caneuon, darlleniadau neu ddeunydd diwylliannol. Gall hyn arwain at benderfyniadau anghyson a gall atal cyplau rhag cynnwys deunyddiau sy'n ystyrlon yn ddiwylliannol neu'n bersonol.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid llacio'r cyfyngiadau presennol ar gynnwys crefyddol mewn seremonïau sifil. Yn benodol, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith:

- Rhaid i weinyddwyr sy'n arwain seremonïau sifil nodi'n glir eu bod nhw neu'r seremoni yn sifil;
- Ni ddylai mynegi cydsyniad gynnwys elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol;
- Ni ddylai gweinyddwyr sifil orfod cymryd rhan mewn elfennau o gred grefyddol neu anghrefyddol; a

- Dylid caniatáu i seremonïau sifil gynnwys elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol unigol ond ni ddylent gynnwys gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol llawn.

Mae'r Llywodraeth yn croesawu dymuniad Comisiwn y Gyfraith i alluogi seremonïau sifil i adlewyrchu credoau, diwylliannau a hunaniaethau personol cyplau yn llawnach. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i gyplau o wahanol gefndiroedd ffydd neu gred a chyplau o'r un rhyw. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai fod gwerth caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn seremonïau sifil, gan gynnal gwahaniaeth clir rhyngddynt a seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen safbwyntiau pellach ar sut y dylai'r gwahaniaeth hwn weithredu'n ymarferol, gan gynnwys sut y gellid darparu ar gyfer elfennau cred unigol heb newid cymeriad hanfodol seremoni sifil.

**Cynnwys cred a ganiateir**

Mae angen gwahaniaethu rhwng gwasanaeth cred llawn, na ddylid ei ganiatáu ac elfennau unigol o gynnwys cred, a allai gael eu caniatáu. Gellir deall hyn fel caniatáu "cynhwysion" unigol, ond nid y "rysáit" llawn, na chyfuniad o elfennau a fyddai, gyda'i gilydd, yn gyfystyr â gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol adnabyddadwy. Dylai unrhyw ddeunyddiau o'r fath gael eu cynnwys yn ôl disgresiwn y gweinyddwr, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod modd adnabod y seremoni'n glir fel un sifil ac nad yw'n gyfystyr â gwasanaeth cred y gellir ei adnabod. Er enghraifft:

- Gallai seremoni sifil gynnwys cyfnewid modrwyau neu ddarlleniad o'r Beibl, ond ni ddylai efelychu strwythur llawn gwasanaeth priodas Anglicanaidd, fel dilyn y gwasanaeth yn y Llyfr Gweddi Gyffredin.

- Gallai cwpl ymgorffori elfennau fel torri'r gwydr neu rannu gwin, ond ni ddylent ail-greu seremoni briodas Iddewig lawn, gan gynnwys trefn strwythuredig bendithion neu wasanaeth dan arweiniad rabbi.

- Gallai seremoni sifil gynnwys cyfnewid garlantau ond ni ddylai efelychu seremoni briodas Hindŵaidd lawn sy'n cynnwys tân cysegredig a dilyniant strwythuredig o gamau defodol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod safbwyntiau pob grŵp ffydd a chred yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu drwy gydol yr ymgynghoriad hwn a'r diwygiadau dilynol. Felly, mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol, yn benodol, ar sut y gallai'r gwahaniaeth hwn weithredu'n ymarferol o bosibl. Rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch pa elfennau y gellir eu cynnwys yn briodol mewn seremoni sifil a pha elfennau ddylai aros y tu allan i'r cwmpas.

Bydd y safbwyntiau hyn yn sail i ddatblygu safonau clir i gefnogi gweinyddwyr sifil i arfer y disgresiwn hwn o bosibl. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, fodd bynnag, na fydd modd diffinio hyn yn drwyadl. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth arferion cred crefyddol ac anghrefyddol, yn ogystal â'r potensial i grwpiau cred newydd neu esblygol ymddangos dros amser.

**Gweinyddwyr wedi'u penodi gan y wladwriaeth**

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bryderon na ddylid disgwyl i gofrestryddion, fel cyflogeion y wladwriaeth, arwain na chymryd rhan mewn elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol mewn seremoni sifil. Gellid ystyried hefyd bod cyfranogiad o'r fath yn gymeradwyaeth gan y wladwriaeth i gredoau penodol. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig mynd ymhellach nag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Er bod Comisiwn y Gyfraith wedi cynnig y dylai cofrestryddion allu cymryd rhan mewn elfennau cred, ond na ddylai fod yn ofynnol iddynt wneud hynny, mae'r Llywodraeth o'r farn bod cyfyngiad cryfach yn briodol i gofrestryddion a gyflogir gan awdurdodau lleol.

Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig na ddylai cofrestryddion arwain na chymryd rhan mewn elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol mewn seremoni sifil. Byddai cyplau'n dal i allu cynnwys elfennau cred a ganiateir, ar yr amod eu bod yn cael eu harwain gan y cwpl, gwestai neu drydydd parti. Ni fyddai'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i weinyddwyr annibynnol na gweinyddwyr morwrol, na fyddent wedi cael eu penodi gan y wladwriaeth.

**Cwestiwn 16**

A ddylid caniatáu cynnwys cred crefyddol neu anghrefyddol mewn seremoni sifil, ar yr amod nad yw'r seremoni'n atgynhyrchu, nac yn gyfystyr â, gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol llawn? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os mai "dylid" oedd eich ateb, mae'r Llywodraeth wedi rhoi enghreifftiau unigol o elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol, fel cyfnewid modrwyau neu ddarlleniad o'r Beibl, a allai fod yn addas i'w cynnwys mewn seremoni sifil ac enghreifftiau o gyfuniadau o elfennau a allai fod yn gyfystyr â gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol llawn. Oes yna unrhyw enghreifftiau pellach a fyddai, yn eich barn chi, yn helpu i ddangos y gwahaniaeth hwn rhwng elfennau gwasanaeth a chred yn ymarferol? Rhowch resymau lle bo modd.

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 17**

Ydych chi'n cytuno na ddylid caniatáu i weinyddwyr sy'n cael eu cyflogi gan y wladwriaeth, h.y., cofrestryddion, arwain na chymryd rhan mewn cynnwys cred crefyddol neu anghrefyddol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw

- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

# Pennod 5 – Lleoliadau Penodol ar gyfer Priodasau

Byddai'r diwygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn caniatáu i gyplau briodi mewn ystod lawer ehangach o leoliadau nag sy'n bosibl ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr. Byddai'r fframwaith urddas a drafodwyd yn y bennod flaenorol yn berthnasol i bob priodas, ni waeth ble maent yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn bod rhai mathau o leoliad yn codi materion ymarferol a rheoleiddiol ychwanegol y mae angen eu hystyried ymhellach.

Felly, mae'r bennod hon yn gofyn am farn ar rag-awdurdodi lleoliadau, priodasau mewn cartrefi preifat a phriodasau ar ddŵr. Fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig sy'n ceisio caniatáu i briodasau gael eu cynnal mewn ystod ehangach o leoliadau, mae'r Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith bod y gofyniad presennol ar gyfer "drysau agored" yn anymarferol, yn ddiangen ac nad yw'n cyd-fynd ag amcan y diwygiadau hyn i ehangu'r lleoliadau lle gall cyplau ddewis priodi.

## Lleoliadau wedi'u rhag-awdurdodi

O dan y fframwaith presennol, mae awdurdodau lleol yn cadw rhestrau o safleoedd sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cynnal seremonïau priodas sifil. Rhoddir cymeradwyaeth yn unol â Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 a chanllawiau'r Cofrestrydd Cyffredinol.[49] Mae'n para am o leiaf dair blynedd ac mae'n ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys bod rhaid i'r safle fod ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod ar unrhyw adeg resymol. Gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os yw'r cyfnod cymeradwyo wedi dod i ben neu os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni mwyach. Nid oes angen cymeradwyaeth lleoliad ar gyfer priodasau sifil mewn swyddfeydd cofrestru.

Rhaid i fannau addoli nad ydynt yn Anglicanaidd, yn Iddewig nac yn Grynwyr hefyd geisio cymeradwyaeth os ydynt yn dymuno cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith, er bod y broses yn wahanol i'r broses ar gyfer safleoedd cymeradwy ar gyfer priodasau sifil.

[49] Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005; Swyddfa Basport EF, Canllawiau'r Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer cymeradwyo safleoedd fel lleoliadau ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil (fersiwn hygyrch) (GOV.UK, 29 Awst 2025) <https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-registering-a-venue-for-civil-marriage-and-civil-partnership/registrar-generals-guidance-for-the-approval-of-premises-as-venues-for-civil-marriages-and-civil-partnerships-accessible-version>

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith, gan na fyddai cyfraith priodasau bellach yn seiliedig ar reoleiddio adeiladau, na ddylai fod yn ofynnol mwyach i leoliadau gael eu cymeradwyo ymlaen llaw. O dan eu model arfaethedig, byddai gweinyddwyr yn penderfynu a yw lleoliad pob priodas maent yn ei chynnal yn addas, gan gynnwys ystyried diogelwch ac urddas y lleoliad.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno na ddylai'r gyfraith fynnu mwyach bod priodasau'n digwydd mewn lleoliadau sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n credu y gallai fod gwerth caniatáu i leoliadau wneud cais gwirfoddol i gael eu rhag-awdurdodi fel lleoliadau priodas addas.

Byddai hyn yn galluogi i restr o leoliadau sefydledig fod ar gael. Gallai helpu cyplau nad oes ganddynt leoliad penodol neu unigryw mewn golwg a gwella effeithlonrwydd y system drwy osgoi'r angen i gynnal asesiadau dro ar ôl tro o'r un lleoliad, yn enwedig os yw'r lleoliad hwnnw'n cynnal priodasau'n rheolaidd (yn amodol ar gynnal disgresiwn y gweinyddwr i gynnal ymweliad safle os oes angen).

Os bydd lleoliadau'n dewis gwneud cais i gael eu rhag-awdurdodi, mae'r Llywodraeth yn cynnig y byddai angen iddynt gydymffurfio â'r safon urddas a bod yn ddiogel. Byddai gan y gweinyddwr yr opsiwn o hyd i ymweld â lleoliad sydd wedi'i rag-awdurdodi a'i asesu os byddai'n dymuno gwneud hynny. Yn unol â'r canllawiau presennol ar gyfer cymeradwyo safleoedd ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil, rydym yn cynnig y dylid rhoi awdurdodiad am gyfnod penodol, gyda'r angen i adnewyddu ac y dylai'r rheoleiddiwr gael y pŵer i ddirymu awdurdodiad os nad yw'r meini prawf yn cael eu bodloni mwyach.

### Cwestiwn 18

Ydych chi'n cytuno y dylai lleoliadau priodasau allu gwneud cais am rag-awdurdodi, os ydynt yn dewis gwneud hynny? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 19

Ydych chi'n cytuno y dylai'r broses o rag-awdurdodi lleoliad fod yn amodol ar gyfnod penodol ac ar ofynion adnewyddu a dirymu os nad yw'r amodau cymeradwyo'n cael eu bodloni mwyach? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os mai “Ydw” oedd eich ateb, beth ddylai’r cyfnod penodol fod? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- 1 flwyddyn
- 2 flynedd
- 3 blynedd
- Mwy na 3 blynedd
- [Testun rhydd]

## Priodasau mewn cartrefi preifat

O dan y gyfraith bresennol, dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y gellir cynnal priodasau mewn cartrefi preifat. Gellir cynnal priodasau Iddewig a phriodasau’r Crynwyr yn unrhyw le, gan gynnwys mewn cartrefi preifat. Fel arfer, mae’n rhaid cynnal priodasau Anglicanaidd mewn eglwys neu gapel, er y gellir eu cynnal mewn cartref preifat drwy drwydded arbennig. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol penodol y gellir cynnal priodasau sifil a’r rhan fwyaf o briodasau crefyddol eraill mewn cartref preifat, er enghraifft pan fydd un parti yn gaeth i’r tŷ neu ar ddiwedd ei oes. Fel arall, ni chaniateir priodasau mewn cartrefi preifat fel arfer.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid caniatáu i briodasau gael eu cynnal ym mhob cartref preifat, ar yr amod bod y lleoliad yn ddiogel ac yn urddasol. Roedd o’r farn y byddai hyn yn cynyddu dewis a hyblygrwydd i gyplau, gan adlewyrchu’r ffaith y gallai’r cartref, i rai cyplau a chymunedau, fod yn lle ystyrlon, hygyrch neu fforddiadwy i briodi.

Mae’r Llywodraeth yn deall y rhesymau sylweddol pam y gallai rhai cyplau ddymuno priodi mewn cartref preifat. I rai, gall y cartref fod yn lle o ystyr personol neu deuluol penodol. I eraill, gall gynnig lleoliad mwy hygyrch, ymarferol neu fforddiadwy, yn enwedig os oes gan un person anabledd neu os byddai’n wynebu anawsterau wrth fynd i leoliad arall.

Mae’r Llywodraeth hefyd yn cydnabod y gallai llawer o sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol ddymuno cynnal priodasau mewn cartrefi preifat yn unol â’u credoau, gan gynnwys rhai enwadau Cristnogol, Mwslimiaid, Hindŵiaid, Paganiaid a Dyneiddwyr. Gallai caniatáu i’r grwpiau hyn wneud hynny leihau’r amgylchiadau lle mae cyplau’n cael priodas “grefyddol yn unig” nad yw’n cael ei chydnabod yn gyfreithiol.

Ar yr un pryd, mae’r Llywodraeth yn ymwybodol o natur amrywiol cartrefi preifat. Efallai na fydd cartref preifat bob amser yn amgylchedd niwtral ac efallai na fydd yn cynnig yr un gwelededd â lleoliad cyhoeddus neu fasnachol. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach adnabod priodasau dan orfod, priodasau rheibus, priodasau ffug neu gam-drin ehangach. Mae’r Llywodraeth yn nodi na ddaeth Comisiwn y Gyfraith o hyd i dystiolaeth o fwy o briodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug mewn cyd-destunau lle mae priodasau mewn cartrefi preifat eisoes yn cael eu caniatáu, gan gynnwys priodasau Iddewig a phriodasau’r Crynwyr ac mewn awdurdodaethau fel yr Alban a Guernsey. Serch

hynny, mae'r Llywodraeth yn glir na ddylai mwy o ddewis i gyplau fod ar draul diogelwch y rhai sy'n priodi.

Felly, mae'r Llywodraeth yn awyddus i ganiatáu priodasau mewn cartrefi preifat, ond dim ond os yw'n fodlon bod mesurau diogelu cadarn ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n priodi. Byddai'r rhain yn eistedd ochr yn ochr â'r mesurau diogelu sydd eisoes wedi'u cynnig mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y fframwaith urddas, y broses ragarweiniadau dau gam newydd ac awdurdodi, hyfforddi a sicrhau atebolrwydd priodol gweinyddwyr.

Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn croesawu safbwyntiau ynghylch a oes angen rhagor o amddiffyniadau i warchod rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug neu gam-drin ac i sicrhau bod cartrefi preifat yn lleoliadau diogel ac addas ar gyfer seremonïau priodas.

Ni fyddai caniatáu seremonïau mewn cartrefi preifat yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cred crefyddol neu anghrefyddol gynnal priodasau yn y lleoliadau hynny. Er y byddai'r gyfraith yn dod yn llai cyfyngol i ddiwallu anghenion a dymuniadau ystod ehangach o grwpiau, byddai sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol yn parhau i allu gosod eu gofynion eu hunain ar eu seremonïau, yn unol â'u credoau.

**Cwestiwn 20**

Oes yna angen mesurau diogelu eraill i (1) amddiffyn rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug a (2) sicrhau diogelwch seremonïau a gynhelir mewn cartrefi preifat? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun Rhydd]

## Priodasau ar Ddŵr

O dan y gyfraith bresennol, ni all priodasau gael eu cynnal fel arfer ar longau sy'n symud neu ar ddŵr agored. Fodd bynnag, gall priodasau sifil gael eu cynnal ar gychod sydd wedi'u hangori'n barhaol, os yw'r cychod hynny wedi'u cadarnhau fel safleoedd cymeradwy o dan y Rheoliadau Adeiladau Cymeradwy.[50] Mae hyn yn golygu y gallai rhai cychod, fel llongau hanesyddol sydd wedi'u hangori'n barhaol, eisoes gynnal priodasau sifil sy'n rhwymo mewn cyfraith os ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer safleoedd cymeradwy.

[50] Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005

Mewn perthynas â phriodasau crefyddol sy'n rhwymo mewn cyfraith o dan y gyfraith bresennol, priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn unig sydd ddim yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion na chyfyngiadau o ran lleoliad, sy'n golygu y gallant ddigwydd yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr. Ar y llaw arall, rhaid i'r rhan fwyaf o briodasau Anglicanaidd gael eu cynnal mewn eglwys neu gapel a rhaid i briodasau crefyddol eraill gael eu cynnal mewn adeiladau cofrestredig. Mae hyn yn golygu bod y ddwy reol i bob pwrpas yn gwahardd priodasau ar gychod. [51]

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith, fel rhan o ddiwygio ehangach i ganiatáu i briodasau ddigwydd mewn ystod ehangach o leoliadau, y dylid caniatáu priodasau yn y moroedd tiriogaethol a'r dyfroedd mewndirol, yn ogystal ag ar fwrdd llongau mordeithio mewn dyfroedd rhyngwladol.

**Priodasau mewn moroedd tiriogaethol / dyfroedd mewndirol**

Moroedd tiriogaethol yw'r rhai sy'n ymestyn 12 milltir fôr allan o arfordir Cymru a Lloegr.[52] Mae dyfroedd mewndirol yn cynnwys unrhyw ddŵr o fewn arfordir Cymru a Lloegr, fel afonydd, llynnoedd a baeau. Mae gan Gymru a Lloegr sofraniaeth dros y dyfroedd hyn, gan gynnwys y gallu i wneud a gorfodi cyfreithiau sy'n rheoli priodasau. Mae gwledydd eraill, fel yr Eidal, Awstralia a Seland Newydd eisoes yn cynnig priodasau cyfreithiol yn eu moroedd tiriogaethol a'u dyfroedd mewndirol.

Roedd Comisiwn y Gyfraith o'r farn y byddai caniatáu priodasau yn y môr tiriogaethol, dyfroedd arfordirol a dyfroedd mewndirol yn cyd-fynd â'i argymhelliad ehangach y dylai priodasau allu digwydd mewn unrhyw leoliad. Roedd Comisiwn y Gyfraith o'r farn y gallai priodasau yn y lleoliadau hyn fod yn ystyrlon yn bersonol i rai cyplau, gan gynnwys rhai sydd â chysylltiadau â'r môr neu â dyfrffyrdd penodol.

Os caniateir hynny, byddai priodasau mewn moroedd tiriogaethol a dyfroedd mewndirol yn cynnwys, er enghraifft, priodasau ar gychod camlas, cychod cul, cychod mordeithio afon (fel y rhai ar afon Tafwys) a llongau hanesyddol neu longau wedi'u datgomisiynu (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Gallai hefyd gynnwys llongau mwy ar ddyfroedd arfordirol, fel llongau fferi teithwyr a chychod siartredig neu gychod hwylio, sy'n boblogaidd mewn llawer o ardaloedd arfordirol fel Cernyw, Ynys Môn a Glannau Mersi.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno mewn egwyddor y dylid caniatáu i briodasau gael eu cynnal mewn dyfroedd mewndirol, y môr tiriogaethol a dyfroedd arfordirol eraill wrth ymyl Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn glir y dylai priodasau sy'n cael eu cynnal ar ddŵr fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyfreithiol craidd â phriodasau sy'n cael eu cynnal ar dir, gan gynnwys cwblhau'r broses ragarweiniadau, mesurau diogelu yn erbyn

[51] Deddf Priodasau 1949

[52] Mae milltir fôr yn 1,852 metr, tua 1.2 o filltiroedd tir cyffredin. Mae'n cael ei defnyddio wrth lywio oherwydd ei bod yn cyfateb i funud o ledred ar arwyneb y Ddaear.

priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug, presenoldeb gweinyddwr awdurdodedig a chydymffurfio â'r fframwaith urddas arfaethedig.

Mae priodas yn ymrwymiad cyfreithiol a phersonol sylweddol. Nid yw'r Llywodraeth o'r farn y byddai caniatáu priodasau ar ddyfroedd mewndirol neu yn y môr tiriogaethol yn dibrisio'r weithred o ymrwymo i briodas mewn unrhyw ffordd, na lleihau ei difrifoldeb, ei statws cyfreithiol na'i phwysigrwydd cymdeithasol. Bwriad y cynigion hyn yw rhoi mwy o ddewis i gyplau ynghylch y lleoliad lle maent yn gweinyddu eu priodas, nid tanseilio difrifoldeb yr ymrwymiad sy'n cael ei wneud. Felly, mae'r fframwaith urddas yn ganolog i ddull y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a oes angen unrhyw fesurau diogelu ychwanegol i sicrhau bod priodasau sy'n cael eu cynnal ar ddŵr yn ddiogel, yn hygyrch ac yn cyd-fynd ag urddas priodas.

**Cwestiwn 21**

Ydych chi'n cytuno y dylai priodasau allu cael eu cynnal mewn moroedd tiriogaethol a dyfroedd mewndirol, yn amodol ar y sicrwydd bod diogelwch ac urddas yn cael eu cynnal? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol**

Mae dyfroedd rhyngwladol yn ardaloedd o'r môr y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol unrhyw wlad, sydd fel arfer dros 12 milltir fôr o'r arfordir ac nad ydynt o dan awdurdodaeth unrhyw un wladwriaeth. Mae rhai cwmnïau llongau mordeithio eisoes yn cynnig priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol. Mae'r priodasau hyn yn bosibl pan fydd y llong wedi'i chofrestru mewn gwlad y mae ei chyfraith yn caniatáu priodasau ar y môr, fel Malta, Bermuda neu'r Bahamas. O dan gyfraith Cymru a Lloegr, ni chaniateir priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol ar hyn o bryd.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid caniatáu priodasau sifil mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio yn unig. Argymhellodd hefyd y dylai'r priodasau hyn gael eu cynnal ym mhresenoldeb gweinyddwr morwrol, sy'n fath newydd o weinyddwr a fyddai wedi'i awdurdodi i gynnal priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol. Mae rhagor o fanylion am weinyddwyr morwrol ar gael ym Mhennod 6.

Eu cynnig yw y gallai cyplau briodi ar long fordeithio sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gyda phorthladd o ddewis yng Nghymru a Lloegr) mewn dyfroedd rhyngwladol unrhyw le yn y byd a byddai priodasau o'r fath yn ddilys o dan gyfraith Cymru a Lloegr. [53] Roedd

[53] Diffinnir porthladd o ddewis fel y porthladd penodol y mae cwmni mordeithio yn ei ddewis i ddal ei chofrestrfa.

Comisiwn y Gyfraith o’r farn y dylai priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol gael eu cyfyngu i longau mordeithio oherwydd bod gan y llongau hyn griwiau proffesiynol, trefniadau diogelwch priodol a’r gallu i gadarnhau lleoliad y llong.

Mae’r Llywodraeth yn cytuno mewn egwyddor y dylid caniatáu priodasau sifil mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio. Yn yr un modd â phriodasau ar dir ac mewn dyfroedd mewndirol neu diriogaethol, byddai priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol yn ddarostyngedig i’r un gofynion cyfreithiol craidd. Byddai hyn yn cynnwys cwblhau’r broses ragarweiniadau, gan gynnwys mesurau diogelu yn erbyn priodasau gorfodol, priodasau rheibus a phriodasau ffug, rhoi hysbysiad wyneb yn wyneb yng Nghymru neu Loegr, presenoldeb gweinyddwr awdurdodedig a chydymffurfio â’r fframwaith urddas arfaethedig.

Mae’r Llywodraeth hefyd yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y dylai priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol gael eu cyfyngu i longau mordeithio am y rhesymau a amlinellir uchod. Mae’r Llywodraeth o’r farn y byddai’r cynnig hwn yn cynyddu dewis a hyblygrwydd i gyplau, tra’n cynnal mesurau diogelu, diogelwch ac urddas priodol. Gallai hefyd gyfrannu at y manteision economaidd ehangach a ragwelir yn sgil diwygio cyfraith priodasau.

### Cwestiwn 22

Ydych chi’n cytuno y dylid caniatáu priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio sydd wedi’u cofrestru yn y DU gyda phorthladd o ddewis yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod eu bod yn cadw at y broses rhagarweiniadau sifil? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

# Pennod 6 – Rôl Gweinyddwyr

Mae'r bennod hon yn ystyried rôl gweinyddwyr o dan y system newydd arfaethedig sy'n seiliedig ar weinyddwyr a'r mathau o weinyddwyr a ddylai allu cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r fframwaith diwygiedig gydnabod dau gategori eang o weinyddwyr:

- Gweinyddwyr sifil, yn cynnwys swyddogion cofrestru, gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morol.
- Gweinyddwyr cred, yn cynnwys clerigwyr Anglicanaidd a gweinyddwyr sydd wedi'u henwebu gan sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol (y cyfeirir atynt fel "gweinyddwyr enwebedig").

Mae'r bennod hon yn gofyn am farn ar ddyletswyddau cyfreithiol arfaethedig gweinyddwyr, gan gynnwys rôl gweinyddwyr wrth gynnal urddas ac arwyddocâd priodas, y meini prawf cymhwysedd ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio enwebu gweinyddwyr cred ac a ddylai gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol allu cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Rhoddir ystyriaeth i awdurdodi, rheoleiddio, monitro a hyfforddi gweinyddwyr yn y bennod nesaf.

## Rôl gweinyddwyr

O dan y system bresennol sy'n seiliedig ar adeiladau, mae rôl y sawl sy'n goruchwylio'r briodas a sicrhau ei bod wedi'i chofrestru'n briodol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol grwpiau a mathau o briodas. Mae priodasau Anglicanaidd yn cael eu goruchwylio gan "Glerc mewn Urdd Sanctaidd". [54] Mae priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol, ond nid oes rhaid i berson penodol eu gweinyddu o dan y gyfraith. Mewn priodasau crefyddol nad ydynt yn briodasau Anglicanaidd, Iddewig na phriodasau'r Crynwyr, am y flwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru man addoli, rhaid i gofrestrydd oruchwylio'r holl briodasau a gynhelir yno. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, gall priodasau gael eu goruchwylio naill ai gan gofrestrydd neu gan berson awdurdodedig a benodir gan y man addoli hwnnw.

Rhaid i briodasau sifil gael eu goruchwylio gan gofrestrydd arolygol a chofrestrydd. Mae cofrestryddion a chofrestryddion arolygol yn swyddogion llywodraeth leol sy'n cynnal seremonïau priodas sy'n rhwymo mewn cyfraith ac yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni. Ar hyn o bryd, personau awdurdodedig neu gofrestryddion sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfreithiol priodasau sy'n cael eu cynnal mewn adeilad

[54] Deddf Priodasau, adran 78(1).

cofrestredig yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys y rhagarweiniadau priodas, llofnodi atodlen y briodas a dychwelyd atodlen y briodas i'r swyddfa gofrestru leol.[55]

Gan adeiladu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai pob gweinyddwr gytuno ar ffurf seremoni gyda'r cwpl, gan fod yn ddarostyngedig i set glir o ddyletswyddau cyfreithiol ar yr un pryd. O dan y system ddiwygiedig, byddai'n rhaid i bob gweinyddwr:

- Sicrhau bod y ddau barti'n mynegi'n rhydd y cydsyniad i briodi ei gilydd;
- Rhoi gwybod am amheuon o briodas ffug;
- Sicrhau bod gofynion cyfreithiol eraill y seremoni'n cael eu bodloni;
- Sicrhau bod yr atodlen neu'r ddogfen briodas yn cael eu llofnodi;
- Cynnal urddas ac arwyddocâd priodas; ac
- Ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr wrth arfer eu dyletswyddau.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y dyletswyddau hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu cyfrifoldebau sydd eisoes yn cael eu cyflawni gan y rhai sy'n gweinyddu neu'n cofrestru priodasau o dan y fframwaith presennol. Fodd bynnag, bydd eu nodi'n glir yn gwneud rôl gweinyddwyr yn fwy tryloyw ac yn cefnogi mwy o gysondeb ar draws gwahanol fathau o briodas.

## Rôl y gweinyddwr wrth gynnal urddas

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai pob gweinyddwr fod â dyletswydd gyfreithiol benodol i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas. Mae hwn yn faes lle mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwyro oddi wrth argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y ddyletswydd hon yn angenrheidiol oherwydd, o dan system sy'n seiliedig ar weinyddwyr, byddai priodasau'n gallu cael eu cynnal mewn ystod ehangach o leoliadau a gydag ystod ehangach o ffurfiau. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer priodasau ar safleoedd awdurdodedig y mae mesurau diogelu yn bodoli mewn perthynas ag urddas. Mae'r Llywodraeth yn cynnig ymestyn y mesurau diogelu hyn, gan roi cyfrifoldebau clir ar weinyddwyr sy'n cynnal priodasau o bob math ac ym mhob lleoliad. Byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddwyr gymhwyso'r fframwaith urddas a drafodir ym Mhennod 4.

Gan y byddai'r diwygiadau hyn yn symud ffocws y gyfraith tuag at y gweinyddwr, yn hytrach na'r lleoliad lle mae'r briodas yn digwydd, byddai gweinyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y lleoliad arfaethedig yn addas cyn i'r briodas gael ei chynnal. Os nad yw'r lleoliad wedi'i rag-awdurdodi, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai gweinyddwyr fel arfer

55 Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, *A Guide for Authorised Persons* (Mai 2025) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/682467d7b9226dd8e81ab829/A_Guide_for_Authorised_Persons_May_2025.pdf>.

gynnal ymweliad safle neu gymryd camau priodol i asesu a yw'r lleoliad yn cynnal urddas ac arwyddocâd priodas gan gyfeirio at y fframwaith urddas. Os yw'r gweinyddwr yn fodlon bod y lleoliad a ddewiswyd yn addas, byddai'n gallu cynnal y briodas yno.

Byddai'r gweinyddwr hefyd yn cytuno ar ffurf y seremoni gyda'r cwpl, gan gymhwyso'r fframwaith urddas i'r cynlluniau hynny. Byddai angen bodloni'r gweinyddwr, cyn i'r seremoni gael ei chynnal, bod y seremoni arfaethedig yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer y math perthnasol o briodas. Mae rhagor o fanylion am y rheolau sy'n ymwneud â chynnwys seremonïau ym Mhennod 7.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y mwyafrif helaeth o briodasau'n cael eu cynnal mewn modd urddasol ar hyn o bryd. Nid yw'n disgwyl i bryderon ynghylch urddas nac arwyddocâd seremonïau priodas godi fel mater o drefn o dan y system ddiwygiedig. Fodd bynnag, pan fydd diwygiadau'n caniatáu i briodasau gael eu cynnal mewn ystod ehangach o leoliadau a gyda ffurfiau mwy hyblyg, mae'n bwysig bod y fframwaith cyfreithiol yn cynnwys mesurau diogelu cymesur.

Yn ymarferol, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd llawer o briodasau'n parhau i gael eu cynnal mewn lleoliadau sefydledig sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin ar gyfer priodasau, fel swyddfeydd cofrestru, safleoedd cymeradwy a mannau addoli. Yn yr achosion hynny, mae'r asesiad y mae'n rhaid i'r gweinyddwr ei gynnal yn debygol o fod yn syml. Mae'n fwy tebygol y bydd angen asesiad manylach pan fydd cwpl yn cynnig lleoliad neu seremoni newydd, anarferol neu bersonol iawn, neu pan nad yw'r swyddog wedi cynnal priodas yn y lle hwnnw o'r blaen.

Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r ddyletswydd gyfreithiol arfaethedig yn gweithredu fel mesur diogelu yn hytrach na gofyniad arferol.

Cwestiwn 23
Ydych chi'n cytuno y dylai pob gweinyddwr fod â dyletswydd gyfreithiol i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Mathau o Weinyddwyr

### Gweinyddwyr Cred

O dan y gyfraith bresennol, mae gwahanol fathau o sefydliadau crefyddol yn ddarostyngedig i reolau gwahanol ynghylch sut y gall eu gweinyddwyr gynnal priodasau cyfreithiol:

- Gall clerigwyr Anglicanaidd gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith yn awtomatig yn rhinwedd eu swydd fel Clercod mewn Urdd Sanctaidd.
- Nid yw priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn mynnu bod unigolyn penodol yn cael ei awdurdodi i weinyddu'r briodas, a'r unig ofyniad yw bod priodasau'n mynd rhagddynt yn unol â'u priod arferion (h.y. eu harferion).
- Dim ond pan fydd person awdurdodedig wedi'i benodi, neu ym mhresenoldeb cofrestrydd, mewn perthynas â man addoli cofrestredig y caiff sefydliadau crefyddol eraill gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.[56] Rhaid i'r man addoli fod wedi'i gofrestru am o leiaf blwyddyn cyn y gellir gwneud penodiad o'r fath.[57]
- Nid yw sefydliadau cred anghrefyddol yn gallu cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar hyn o bryd.

Mae'r adran hon yn nodi newidiadau arfaethedig y Llywodraeth i'r rheolau hyn er mwyn caniatáu i sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol (h.y. sefydliadau enwebu) enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

I ddechrau, byddai'n rhaid i bob gweinyddwr cred (sy'n cynnwys sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol) weithredu fel gweinyddwr enwebedig ar ran sefydliad enwebu er mwyn cynnal priodas sy'n rhwymo mewn cyfraith.

### Clerigwyr Anglicanaidd

Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylid parhau i gynnal priodasau Anglicanaidd fel y maent ar hyn o bryd. Mae'n cydnabod rôl unigryw Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru mewn perthynas â phriodas ac nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i newid y swyddogaethau hynny.

### Gweinyddwyr Enwebedig

Mae'r Llywodraeth yn symud oddi wrth system sy'n seiliedig yn bennaf ar adeiladau cofrestredig tuag at system sy'n seiliedig ar weinyddwyr awdurdodedig. O dan y system hon, mae angen fframwaith clir a chyson i benderfynu sut y gall sefydliadau enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Yn unol â chynigion Comisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol allu enwebu gweinyddwyr os ydynt yn bodloni set o feini prawf diffiniedig. Bwriad y meini prawf hyn yw sicrhau bod sefydliadau cred go iawn yn gallu enwebu gweinyddwyr addas tra'n atal sefydliadau amhriodol neu sefydliadau sy'n cael eu llywodraethu'n wael rhag cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Mae'r adran hon yn ystyried, yn ei thro, y diffiniadau arfaethedig o sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol, y cysylltiad gofynnol rhwng credoau sefydliad a gweinyddu

[56] Deddf Priodasau 1949, adran 44(2)(a).

[57] Deddf Priodasau 1949, adran 43B(3).

priodas, gofynion sylfaenol sefydliadau ac aelwydydd ac a ddylai unrhyw eithriadau penodol fod yn berthnasol.

O dan y diwygiadau arfaethedig hyn, ni fyddai angen cofrestru mannau addoli ar gyfer priodasau o dan Ddeddf Priodasau 1949 mwyach.[58] O ganlyniad, ni fyddai angen ardystiad gan y Cofrestrydd Cyffredinol o dan Ddeddf Mannau Addoli 1855 mwyach i ganiatáu cynnal priodasau crefyddol (ac eithrio priodasau Anglicanaidd, Iddewig neu briodasau'r Crynwyr) yn yr adeiladau hynny.[59]

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn dileu'r diben modern craidd i'r Cofrestrydd Cyffredinol ardystio mannau addoli. Felly, bydd y Llywodraeth yn adolygu rôl ardystio'r Cofrestrydd Cyffredinol a Deddf Mannau Addoli 1855 wrth i'r gwaith o ddiwygio'n mynd rhagddo.

## Diffiniad o "sefydliadau cred crefyddol"

Mae'r diffiniad presennol o grefydd at ddibenion gweinyddu priodasau yn deillio o benderfyniad y Goruchaf Lys yn 2013 yn *R (Hodkin) v Registrar General.*[60] Roedd hyn yn disgrifio crefydd fel hyn:

"system gred ysbrydol neu anseciwlar, a ddelir gan grŵp o ymlynwyr, sy'n honni esbonio lle dynolryw yn y bydysawd a'i berthynas â'r anfeidrol, ac addysgu ei ymlynwyr sut y maent i fyw eu bywydau yn unol â'r ddealltwriaeth ysbrydol sy'n gysylltiedig â'r system gred...Gall system gred o'r fath gynnwys cred mewn duw neu beidio, ond mae'n cynnwys cred bod mwy i'w ddeall am natur a pherthynas dynolryw â'r bydysawd nag y gellir ei ennill o'r synhwyrau neu o wyddoniaeth."

Mae'r Llywodraeth yn credu y byddai cadw'r disgrifiad hwn yn sicrhau parhad â'r gyfraith bresennol ac yn rhoi sicrwydd ynghylch y mathau o sefydliadau a fyddai'n dod o fewn ei chwmpas. Fel y nododd Comisiwn y Gyfraith, mae'r disgrifiad hwn wedi profi ei fod yn gallu darparu ar gyfer ystod eang o sefydliadau cred crefyddol o dan y gyfraith bresennol. Er enghraifft, mae grwpiau Paganaidd a rhyng-ffydd llai wedi gallu cofrestru mannau addoli o dan y fframwaith presennol.[61]

Mae tystiolaeth hefyd nad yw'r disgrifiad yn rhy ganiataol. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi defnyddio egwyddorion Hodkin, ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill, i benderfynu a yw sefydliadau'n bodloni'r diffiniad o grefydd at ddibenion cyfraith elusennau. Wrth wneud hynny, mae wedi eithrio nifer o grwpiau. Er enghraifft, yn 2016 daeth i'r casgliad nad oedd

---

[58] Deddf Priodasau 1949 adran 41.

[59]Deddf Cofrestru Mannau Addoli 1855; Deddf Priodas 1949, adrannau 41 a 43.

[60] *R (on the application of Hodkin and another) v Registrar General of Births, Deaths and Marriages [2013] UKSC 77.*

[61] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 4.137.

gan Jediaeth (grŵp yn seiliedig ar gyfres ffilmiau “Star Wars”) yr elfen “ysbrydol neu anseciwlar” sydd ei angen i fod yn grŵp crefyddol.[62]

## Diffiniad o “sefydliadau cred anghrefyddol”

O ystyried bod y diffiniad arfaethedig o grwpiau crefyddol yn cyfeirio at “systemau cred ysbrydol neu anseciwlar” ni ellir ei gymhwyso’n uniongyrchol i sefydliadau cred anghrefyddol. Yn ogystal, dangosodd adborth i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith na fyddai efelychu nodweddion y diffiniad o grefydd yn briodol nac yn ddymunol ar gyfer sefydliadau cred anghrefyddol, sy’n gallu gweithredu’n wahanol i grwpiau crefyddol.

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai cymhwysedd sefydliadau cred anghrefyddol i enwebu gweinyddwyr gael ei gyfyngu i’r canlynol

“ei unig ddiben neu ei brif ddiben yw hyrwyddo system o gredoau anghrefyddol sydd â lefel o argyhoeddiad, difrifoldeb, cydlyniad a phwysigrwydd sy’n dod â hwy o fewn ystyr erthygl 9 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.”

Mae’r Llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i ddefnyddio’r diffiniad hwn ar gyfer sefydliadau cred anghrefyddol. Er ei fod yn wahanol i’r diffiniad arfaethedig o grwpiau crefyddol, mae’n cyflawni swyddogaeth debyg drwy ddelio â sefydliadau cred anghrefyddol heb greu prawf gor-ganiataol.

Mae’r gofyniad bod credoau’n dangos “argyhoeddiad, difrifoldeb, cydlyniad a phwysigrwydd” yn adlewyrchu meini prawf a sefydlwyd mewn cyfraith achosion (a elwir yn “feini prawf Grainger”) ar gyfer penderfynu beth yw cred athronyddol warchodedig yn y gweithle o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[63] Bydd y gofyniad hwn yn diogelu rhag i sefydliadau parodi neu sefydliadau annidwyll allu cynnal priodasau sy’n rhwymo mewn cyfraith.

Ar ben hynny, byddai’r gofyniad “unig ddiben neu brif ddiben” yn eithrio sefydliadau a sefydlwyd yn bennaf at ddibenion eraill, fel un a sefydlwyd ar gyfer darparu gwasanaethau priodas masnachol yn unig. Mae dulliau tebyg yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfraith awdurdodaethau eraill, gan gynnwys yr Alban ac Iwerddon.[64]

---

[62] Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, *The Temple of the Jedi Order: Application for Registration – Decision of the Commission* (16 Rhagfyr 2016) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7f1b5c40f0b62305b851d9/Temple_of_the_Jedi_Order_FINAL_DECISION.pdf>.

[63] Grainger plc and others v Nicholson UKEAT/0219/09 ; Patrick Brione, ‘Employment Tribunal rulings on gender-critical beliefs in the workplace’ (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 7 Rhagfyr 2022) <https://commonslibrary.parliament.uk/employment-tribunal-rulings-on-gender-critical-beliefs-in-the-workplace/>.

[64] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 4.142.

### Cysylltiad rhwng credoau a phriodas

Cynigodd Comisiwn y Gyfraith, yn ogystal â bodloni'r disgrifiad perthnasol, y dylai sefydliadau cred fod yn gymwys i enwebu gweinyddwyr dim ond os "byddai'n arwydd o grefydd neu gredoau unigolyn i gael priodas wedi'i gweinyddu gan weinyddwr a enwebwyd gan y sefydliad hwnnw." [65]

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y gofyniad hwn yn darparu mesur diogelu pwysig, fel y cydnabyddir gan Gomisiwn y Gyfraith, oherwydd y byddai'n gweithredu fel "hidlydd pwysig pellach yn erbyn sefydliadau jôc neu sefydliadau ffug".[66]

Yn ymarferol, byddai hyn yn gofyn am "gysylltiad agos ac uniongyrchol" rhwng system gred y sefydliad a gweinyddu priodasau.[67] Byddai hyn yn helpu i sicrhau mai dim ond sefydliadau y mae priodas yn fynegiant ystyrlon o'u credoau fyddai'n gallu enwebu swyddogion. Byddai hefyd yn eithrio sefydliadau a sefydlwyd yn bennaf i ddarparu gwasanaethau priodas masnachol a sefydliadau nad yw eu credoau'n cwmpasu priodas yn ystyrlon, fel elusennau lles anifeiliaid neu glybiau chwaraeon.

## Cyfnod Sefydlu Sylfaenol a Nifer yr Aelwydydd

### Cyfnod Sefydlu Sylfaenol

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai fod yn ofynnol i sefydliadau fod wedi cael eu sefydlu am gyfnod penodol cyn enwebu gweinyddwyr, gan adael hyd y cyfnod hwnnw i'r Llywodraeth benderfynu arno.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai cyfnod sefydlu sylfaenol yn helpu i sicrhau bod sefydliadau wedi dangos didwylledd, sefydlogrwydd a llywodraethiant priodol cyn gallu enwebu gweinyddwyr. Byddai hefyd yn rhoi amser i sefydliadau mwy newydd ddatblygu trefniadau ar gyfer enwebu, hyfforddi, cefnogi ac, os oes angen, cael gwared ar weinyddwyr. Mae'r Llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i sefydliadau fod wedi bodoli am o leiaf dair blynedd cyn gallu enwebu gweinyddwyr.

O dan y gyfraith bresennol, rhaid i adeilad fod wedi'i gofrestru fel man addoli am flwyddyn cyn y gall cofrestrydd neu berson awdurdodedig gynnal priodas yno sy'n rhwymo mewn cyfraith.[68] Yn rhyngwladol, yn Awstralia mae'n rhaid bod sefydliad wedi bodoli ers tair blynedd, ac yn Iwerddon mae'n rhaid i "gyrff seciwlar" fod wedi bodoli yn bum mlynedd.[69]

---

[65] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) Argymhelliad 20.

[66] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 4.161.

[67] *R (Harrison & Ors) v Secretary of State for Justice* [2020] EWHC 2096.

[68] Deddf Priodasau, adrannau 43 a 43B; adran 44(2)(a)-(b).

[69] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20250109115755mp_/https:/cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/30/2022/07/A-new-weddings-law-LC-report.pdf paragraff 4.154.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod cyfnod o dair blynedd yn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod sefydliadau yn cael digon o amser i ddangos didwylledd, sefydlogrwydd a llywodraethiant priodol heb greu rhwystr gormodol i sefydliadau mwy newydd.

**Cwestiwn 24**

Ydych chi'n cytuno y dylai sefydliadau orfod bod wedi'u sefydlu am o leiaf dair blynedd cyn enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau cyfreithiol?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod lleiaf o dair blynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n cynnig ei gael yn lle hynny?

- Dim
- 1 Flwyddyn
- 2 Mlynedd
- 4 Mlynedd
- 5 Mlynedd
- Mwy na 5 Mlynedd

Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod lleiaf o dair blynedd ac yn dewis cyfnod gwahanol, eglurwch pam isod:

- [Testun Rhydd]

**Nifer Lleiaf o Aelwydydd**

O dan y gyfraith bresennol, rhaid i adeilad crefyddol fod ag o leiaf 20 aelwyd yn cadarnhau mai'r adeilad yw eu man addoli arferol er mwyn iddo gynnal priodas grefyddol sy'n rhwymo mewn cyfraith.[70] Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith gadw'r ffigur hwn fel isafswm yr aelwydydd sy'n gorfod bod yn aelodau o sefydliad cred cyn y gall enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Roedd o'r farn y byddai hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cymuned a pharhad, o ystyried bod y gofyniad wedi bod yn gyfraith ers 1837.[71]

Mae'r Llywodraeth yn cytuno, mewn egwyddor, y dylid cael isafswm o aelwydydd. Fodd bynnag, mae'n rhannu pryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys Eglwys Loegr a Humanists UK, bod 20 o aelwydydd yn rhy isel yng nghyd-destun system ddiwygiedig.

O dan y diwygiadau arfaethedig, byddai cyrraedd y trothwy yn caniatáu i sefydliad enwebu gweinyddwyr a fyddai'n gallu cynnal priodasau unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, yn hytrach nag mewn un man addoli cofrestredig. Mae'r Llywodraeth o'r farn, yn y cyd-destun

[70] Comisiwn y Gyfraith, *Getting Married: A Scoping Paper* (17 Rhagfyr 2015), paragraff 2.46.

[71] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 4.146.

hwn, nad yw 20 o aelwydydd bellach yn cynrychioli lefel ddigonol o gefnogaeth. Mae poblogaeth Cymru a Lloegr tua phedair gwaith yn fwy nag yr oedd yn 1837, pan gyflwynwyd y trothwy presennol, sy'n golygu bod 20 o aelwydydd bellach yn cynrychioli lefel is o lawer o gymorth.[72] Mewn oes ddigidol, mae hefyd yn llawer haws i nifer fach o unigolion, heb unrhyw agosrwydd daearyddol, drefnu'n gyflym o amgylch un syniad neu gred.

Am y rhesymau hyn, mae'r Llywodraeth yn cynnig trothwy isaf dros dro o 100 o aelwydydd. Mae'r Llywodraeth yn agored i safbwyntiau ar ffigur gwahanol a byddai ganddi ddiddordeb arbennig yn effaith bosibl y trothwy hwn ar sefydliadau cred llai, gan gynnwys rhai y mae eu haelodaeth yn dirywio.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith na ddylai syrthio o dan y trothwy arwain yn awtomatig at golli awdurdodiad presennol. Fodd bynnag, os nad yw mudiad yn cyrraedd y trothwy mwyach, ni fyddai'n gallu enwebu nac ailbenodi swyddogion. [73] Byddai trefniadau pontio'n cael eu rhoi ar waith i roi amser i sefydliadau sy'n gallu cynnal priodasau o dan y gyfraith bresennol wneud y newidiadau sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad newydd.

**Cwestiwn 25**

Ydych chi'n cytuno, er mwyn i sefydliad cred allu enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith, y dylai isafswm nifer yr aelwydydd sy'n aelodau o'r sefydliad hwnnw fod yn 100?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os ydych chi'n anghytuno ag isafswm nifer yr aelwydydd o 100, pa nifer fyddech chi'n ei gynnig yn lle hynny?

- 1-19 o aelwydydd
- 20-49 o aelwydydd
- 50-74 o aelwydydd
- 75-99 o aelwydydd
- 100+ o aelwydydd

Os ydych chi wedi dewis rhif gwahanol, eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun:

- [Testun Rhydd]

---

[72] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth Cymru a Lloegr 1838 i 2014 (Datganiad ad hoc 004358, 6 Gorffennaf 2015) <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/adhocs/004358englandandwalespopulationestimates1838to2014>.

[73] Comisiwn y Gyfraith, *A New Weddings Law* (Law Com No 408, 2022) paragraff 4.157.

**Gwaharddiadau Penodol**

Nid oedd Comisiwn y Gyfraith yn argymell creu rhestr benodol o sefydliadau a fyddai wedi'u gwahardd rhag gallu enwebu gweinyddwyr. Roedd o'r farn na fyddai cyrff fel pleidiau gwleidyddol ac undebau llafur yn bodloni'r diffiniadau a gynigir uchod ac felly eu bod eisoes y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig.

Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn ystyried a fyddai eithriadau penodol yn ddefnyddiol. Mae'n amlwg na ddylid gwahardd sefydliadau dim ond am fod ganddynt farn leiafrifol neu am eu bod yn cefnogi achosion gwleidyddol penodol. Fodd bynnag, gall gwaharddiadau penodol roi eglurder mewn achosion ymylol, er enghraifft lle mae'r ffin rhwng ideoleg wleidyddol a system gred yn aneglur.

Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn safbwyntiau ynghylch a ddylid cynnwys gwaharddiadau penodol mewn cyfreithiau newydd sy'n datgan pa sefydliadau gaiff enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Pe baent yn cael eu cyflwyno, gallent gynnwys gwaharddiadau ar gyfer pleidiau gwleidyddol, undebau llafur, siambrau masnach a sefydliadau sy'n hyrwyddo dibenion anghyfreithlon (fel sefydliadau terfysgol). Er bod y Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith na fyddai sefydliadau o'r fath yn bodloni'r diffiniad a'r meini prawf cymhwysedd sy'n cael eu cynnig, mae serch hynny'n agored i safbwyntiau ynghylch a allai gwaharddiadau penodol ddarparu eglurder a sicrwydd ychwanegol.

**Cwestiwn 26**

A ddylai'r Llywodraeth gael eithriadau penodol ar gyfer rai grwpiau yn eu hatal rhag gallu enwebu gweinyddwyr fel sefydliadau cred?

- Dylai
- Na ddylai
- Heb benderfynu

Os dylai, ticiwch pa rai o'r grwpiau canlynol ddylai gael eu gwahardd yn benodol. Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun:

- Pleidiau Gwleidyddol
- Undebau Llafur
- Siambrau Masnach
- Sefydliadau sy'n hyrwyddo dibenion anghyfreithlon
- Arall (nodwch)
- [Testun Rhydd]

Os ydych chi'n anghytuno y dylid cael eithriadau penodol, eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun:

- [Testun Rhydd]

## Gweinyddwyr Sifil

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y bennod hon, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith ddau brif gategori o weinyddwr: gweinyddwyr sifil a gweinyddwyr cred. O fewn y categori o weinyddwyr sifil, ceir swyddogion cofrestru ac, os caniateir hwy, gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol. Mae'r adran hon yn gofyn am farn ar weinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol yn benodol.

**Swyddogion Cofrestru**

Ni fydd rôl cofrestryddion a chofrestryddion arolygol mewn perthynas â chynnal priodasau cyfreithiol yn newid yn sylweddol. Y prif newidiadau fyddai y byddant yn gallu cynnig gwasanaethau mewn ystod ehangach o leoliadau; ac mai dim ond un swyddog cofrestru fydd ei angen i weinyddu priodas sifil. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai awdurdodau lleol barhau i'w hawdurdodi a'u rheoleiddio yn unol â'r trefniadau presennol. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r cynnig.

**Gweinyddwyr annibynnol**

Ni fyddai gweinyddwyr annibynnol yn swyddogion cofrestru a benodwyd gan y wladwriaeth, nac yn weinyddwyr sy'n gweithredu ar ran sefydliad cred crefyddol neu anghrefyddol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tua 1,000 o weinyddion annibynnol ar hyn o bryd yn cynnal tua 10,000 o seremonïau priodas nad ydynt yn rhwymo mewn cyfraith bob blwyddyn.[74] Ar hyn o bryd mae'r gweinyddion annibynnol hyn yn cynnal seremonïau priodas a allai fod yn ystyrlon i gyplau ond nad ydynt yn rhwymo mewn cyfraith o dan y gyfraith bresennol. Felly, rhaid i gyplau gwblhau seremoni gyfreithiol ar wahân i briodi yn ôl y gyfraith.

Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith rôl gweinyddwyr annibynnol o fewn system briodasau ddiwygiedig ond ni wnaeth argymhelliad penodol ynghylch a ddylent allu cynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Roedd yn amcangyfrif, pe bai gweinyddwyr annibynnol yn gallu gwneud hynny, y gallent gynnal tua 50,000 o briodasau bob blwyddyn, sy'n cynrychioli 22.6% o'r farchnad.[75] Yn y pen draw, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad mai mater i'r Llywodraeth oedd hyn.

---

[74] Cymdeithas y Gweinyddion Annibynnol, *AOIC White Paper: Wedding Reform* (Gorffennaf 2022) <https://web.archive.org/web/20221026072900/https://independentcelebrants.com/wp-content/uploads/2022/07/AOIC-White-Paper_Wedding-Reform_July-22.pdf> https://independentcelebrants.com/wp-content/uploads/2022/07/AOIC-White-Paper_Wedding-Reform_July-22.pdf.

[75] Comisiwn y Gyfraith a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Celebrating Marriage: A New Weddings Law – Impact Assessment* (IA No LAWCOM0079, 19 Gorffennaf 2022) <https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/54/2025/12/Weddings-IA-final.pdf>https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/54/2025/12/Weddings-IA-final.pdf.

**Safbwynt y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad cychwynnol y dylid caniatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith fel rhan o fframwaith priodasau diwygiedig. Byddai hyn yn creu system fwy hyblyg a chynhwysol, yn rhoi mwy o ddewis i gyplau ac yn sicrhau tegwch rhwng gwahanol fathau o seremonïau. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod rhesymau cryf dros ganiatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Yn gyntaf, byddai gwneud hynny'n cysoni Cymru a Lloegr â nifer o awdurdodaethau eraill. Mae Awstralia, rhai taleithiau yng Nghanada a rhai taleithiau yn America eisoes yn caniatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau cyfreithiol. Cyflwynodd Seland Newydd weinyddwyr annibynnol yn 1976. Yn Awstralia, ar hyn o bryd mae dros 10,000 o weinyddion priodas wedi'u cofrestru â'r Gymanwlad ac yn Seland Newydd roedd 4,445 o weinyddion annibynnol yn 2024/25.[76]

Yn ail, byddai swyddogion annibynnol yn cefnogi amcan y Llywodraeth o alluogi cyplau i gael priodasau sy'n ystyrlon iddynt hwy ac sy'n adlewyrchu eu gwerthoedd, eu credoau a'u hamgylchiadau. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i gyplau ffydd cymysg a rhyng-ffydd, sy'n cynrychioli tua un rhan o bump (21%) o holl gyplau.[77] O dan y gyfraith bresennol, mae priodasau crefyddol fel arfer ynghlwm wrth fannau addoli cofrestredig, er bod rhai grwpiau crefyddol eisoes yn caniatáu priodasau rhyng-ffydd neu ffydd cymysg yn eu hadeiladau. Felly, gall gweinyddwyr annibynnol fod yn opsiwn pwysig i gyplau sy'n dymuno cael seremoni sy'n ymgorffori elfennau o fwy nag un traddodiad ffydd neu gred, gan gael ei chydnabod yn gyfreithiol ar yr un pryd.

Yn drydydd, gallai swyddogion annibynnol fod o fudd i gyplau â chredoau anghrefyddol, ysbrydol neu bersonol sydd eisiau cael seremoni ystyrlon heb fod yn gysylltiedig â sefydliad cred crefyddol neu anghrefyddol. Dangosodd Cyfrifiad 2021 gynnydd ledled Cymru a Lloegr yng nghyfran y boblogaeth a nododd "dim crefydd" o 25.2% yn 2011 i 37.2% yn 2021.[78] Felly, byddai gweinyddwyr annibynnol yn cynnig opsiwn ychwanegol o

---

[76] Adran y Twrnai Cyffredinol (Awstralia), 'Become a marriage celebrant' https://www.ag.gov.au/families-and-marriage/marriage/become-marriage-celebrant; Adran Materion Mewnol (Seland Newydd), 'Independent Marriage & Civil Union Celebrants – Number of Ceremonies Performed' <https://catalogue.data.govt.nz/dataset/independent-marriage-civil-union-celebrants-number-of-ceremonies-performed/resource/90554172-dc22-4881-a13f-bab5543bdf4b>.

[77] Brian Collisson, 'Interfaith Relationships Are Becoming Common. Do They Work?' (*Psychology Today*, 7 Hydref 2022) <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/dating-toxic-or-tender/202210/interfaith-relationships-are-becoming-common-do-they-work>.

[78] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Religion, England and Wales: Census 2021' (29 Tachwedd 2022) <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021>.

fewn y fframwaith cyfreithiol, ochr yn ochr â phriodasau sifil a seremonïau cred, gan adlewyrchu amrywiaeth gynyddol y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bryderon y byddai gweinyddwyr annibynnol yn weinyddion masnachol, yn hytrach na swyddogion y wladwriaeth neu weinyddwyr sy'n gweithredu ar ran sefydliad cred crefyddol neu anghrefyddol.

Mae'r Llywodraeth yn deall y pryderon hyn. Fodd bynnag, nid yw o'r farn y byddai caniatáu gweinyddwyr annibynnol, ynddo'i hun, yn cyflwyno masnacheiddio gormodol i gyfraith priodasau. Mae priodasau eisoes yn cael eu cynnal mewn amgylchedd tra masnachol. Yn 2023, cynhaliwyd 90% o briodasau sifil (171,930 o briodasau) mewn safleoedd preifat cymeradwy a chost gyfartalog priodas oedd tua £20,000, wedi'i sbarduno'n bennaf gan wasanaethau dewisol a ddewiswyd gan gyplau. [79] Canfu tystiolaeth o astudiaeth yn 2020 fod y ffioedd a godir gan weinyddwyr annibynnol ar gyfer seremonïau nad ydynt yn rhwymo mewn cyfraith yn cymharu'n fras â'r ffioedd a godir gan gofrestryddion sy'n cynnal priodasau sifil mewn safleoedd cymeradwy neu weinyddion Dyneiddiol.[80]

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pryderon y gallai gweinyddwyr annibynnol arwain at safonau anghyson neu effeithio ar urddas ac arwyddocâd priodas. Fodd bynnag, mae gweinyddwyr annibynnol eisoes yn cynnal llawer o seremonïau ystyrlon ar gyfer cyplau ac mae'r sector yn cynnwys cyrff proffesiynol sefydledig y mae'r Llywodraeth wedi ymgysylltu â nhw.

Ar ben hynny, o dan y fframwaith diwygiedig, byddai gweinyddwyr annibynnol yn cael eu cynnwys mewn system glir o ddyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddio. Byddai'n rhaid iddynt gynnal urddas ac arwyddocâd priodas, cadw at y fframwaith urddas a bodloni'r gofynion awdurdodi, hyfforddi, monitro a rheoleiddio perthnasol. Ni fyddent chwaith yn gallu gweithredu pan fydd gwrthdaro rhwng buddiannau, er enghraifft os ydynt yn cael eu cymell yn ariannol i argymell lleoliad penodol i gyplau. Mae'r mesurau diogelu hyn yn cael eu hystyried ym Mhennod 7.

**Cwestiwn 27**

---

[79] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Marriages in England and Wales: 2023 (dros dro)' (18 Tachwedd 2025) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/marriagecohabitationandcivilpartnerships/bulletins/marriagesinenglandandwalesprovisional/2023; Zoe Burke, 'How much does a wedding cost in the UK? The average is £20,604' (Bridebook, 10 Mehefin 2026) <https://bridebook.com/uk/article/how-much-does-a-wedding-cost-the-uk-average>https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/marriagecohabitationandcivilpartnerships/bulletins/marriagesinenglandandwalesprovisional/2023.

[80] Stephanie Pywell, 'Beyond Beliefs: A Proposal to Give Couples in England and Wales a Real Choice of Marriage Officiants' (2020) 32(3) *Child and Family Law Quarterly* 215 <https://oro.open.ac.uk/72503/3/72503.pdf> https://oro.open.ac.uk/72503/3/72503.pdf.

Ydych chi'n cytuno â chaniatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

**Gweinyddwyr Morwrol**

Fel y nodir ym Mhennod 5, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith allu cael eu cynnal mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y DU. Mae'r adran hon yn ystyried rôl gweinyddwyr morol o dan y fframwaith hwnnw.

*Categori arbennig o weinyddwr*

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol gael eu cynnal gan gategori newydd o weinyddwr, a elwir yn weinyddwyr morwrol. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen categori penodol o weinyddwr ar gyfer y priodasau hyn, o ystyried y gofynion cyfreithiol ac ymarferol penodol sy'n berthnasol pan fydd priodas yn digwydd ar y môr.

Gweinyddwyr morwrol fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfreithiol y briodas yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod y cwpl wedi cwblhau'r rhagarweiniadau sifil gofynnol, bod y partïon yn mynegi cydsyniad i briodi ei gilydd yn rhydd, bod yr atodlen briodas neu'r ddogfen briodas yn cael ei llofnodi a bod y seremoni'n cael ei chynnal yn unol â'r gyfraith.

Mae'r gofyniad i sicrhau bod y briodas yn digwydd mewn dyfroedd rhyngwladol yn benodol i weinyddwyr morwrol. Mae'n golygu y byddai angen i'r gweinyddwr feddu ar ddigon o awdurdod a gwybodaeth am fordwyaeth i gadarnhau lleoliad y llong adeg y seremoni.

*Pwy ddylai allu gweithredu fel gweinyddwr morwrol*

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith mai dim ond swyddogion bwrdd ddylai allu gweithredu fel gweinyddwyr morwrol, gan fod ganddynt yr awdurdod a'r wybodaeth sydd eu hangen i fodloni'r gofynion hyn. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r dull hwn.

Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu uwch aelod o'r criw sy'n gyfrifol am weithredu a llywio'r llong. Byddai'n well gan y Llywodraeth pe bai capten y llong yn gweithredu fel y gweinyddwr morwrol lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai swyddogion bwrdd eraill, megis y dirprwy gapten neu'r prif is-gapten, hefyd allu gweithredu fel gweinyddwyr morwrol lle bo angen am resymau diogelwch neu weithredol. Byddai hyn yn cynnig hyblygrwydd tra'n sicrhau bod gan y swyddog yr awdurdod a'r arbenigedd gofynnol.

Fe wnaethant hefyd argymell y dylai gweinyddwyr morwrol allu cael eu hawdurdodi fel gweinyddwyr annibynnol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn gan y byddant yn destun yr un oruchwyliaeth.

*Dyletswyddau cyfreithiol a mesurau diogelu*
Byddai gweinyddwyr morwrol yn gategori penodol o weinyddwyr sifil sy'n gyfrifol am gynnal priodasau sy'n digwydd mewn dyfroedd rhyngwladol. Byddant hefyd yn rhwym wrth yr un gofyniad i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau â gweinyddwyr annibynnol (gweler uchod). Ar wahân i hyn, bydd gweinyddwyr morwrol yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau cyfreithiol, fframwaith urddas a threfn ddiogelu â gweinyddwyr eraill.

Yn yr un modd â phriodasau yng Nghymru a Lloegr, byddai angen cwblhau rhagarweiniadau sifil cyn y gallai'r cwpl briodi. Byddai hyn yn cynnwys y cyfweliad wyneb yn wyneb perthnasol a gwiriadau i helpu i nodi priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall fod pryderon ynghylch priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug ar longau mordeithio o ystyried eu bod wedi'u hynysu fel lleoliad. Fodd bynnag, dylai gwiriadau'r system ddiwygiedig ochr yn ochr â'r dyletswyddau a'r hyfforddiant gweinyddwyr arfaethedig sicrhau bod y mesurau diogelu cywir ar waith. Byddai'r Llywodraeth hefyd yn sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn ymdrin â sut i adnabod ac ymateb i amheuon o briodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug.

### Cwestiwn 28

Ydych chi'n cytuno â chaniatáu i weinyddwyr morwrol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y DU? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 29

Ydych chi'n cytuno mai dim ond swyddogion bwrdd y dylid eu hawdurdodi fel gweinyddwyr morwrol, ond gan ffafrio capteiniaid llongau? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

# Pennod 7 – Rheoleiddio Gweinyddwyr

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae'n hanfodol bod safonau clir a chadarn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod priodasau'n cael eu cynnal mewn ffordd ddiogel ac urddasol.

Mae symud o system sy'n seiliedig ar adeiladau i system sy'n seiliedig ar weinyddwyr yn rhoi mwy o ddibyniaeth ar ymarfer a barn gweinyddwyr, o ystyried eu cyfrifoldeb i sicrhau bod y gofynion cyfreithiol ar gyfer priodas yn cael eu bodloni a bod urddas yn cael ei gynnal. Felly, mae goruchwylio a rheoleiddio swyddogion yn briodol ac yn gymesur yn elfen hanfodol o'r diwygiadau hyn i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal ar gyfer pob priodas.

Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith nifer o gynigion ar gyfer gofynion i reoleiddio gweinyddwyr o dan y system ddiwygiedig, a oedd yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Gofynion mynediad uchel i sicrhau mai dim ond pobl "addas a phriodol" sy'n cael eu hawdurdodi i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.
- Dyletswyddau ar swyddogion sy'n rhwymo mewn cyfraith, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gynnal urddas ac arwyddocâd priodas, a drafodir ym Mhennod 4.
- Pwerau gorfodi cadarn, gan gynnwys rhoi'r gallu i'r rheoleiddiwr atal neu ddad-awdurdodi gweinyddwyr sy'n methu â chyrraedd y safonau gofynnol.
- Cadw'r cyfnod hysbysiad 28 diwrnod i atal priodasau "cyflym".

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r cynigion cyffredinol hyn ac mae'n gofyn am farn ynghylch sut gellid gwella rheoleiddio yn y system newydd i sicrhau ei bod yn ddigon cadarn, fel yr hyn sy'n ofynnol gan weinyddwyr a rôl y rheoleiddiwr o ran darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant.

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai swyddogion cofrestru barhau i gael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio drwy awdurdodau lleol, yn unol â'r trefniadau presennol, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cynnal gan ychwanegu goruchwyliaeth o'r rheoleiddiwr canolog yn unol â'r gofynion ar gyfer gweinyddwyr eraill. [81] Fe wnaethant hefyd argymell peidio â gwneud unrhyw newidiadau i oruchwyliaeth clerigwyr Anglicanaidd, ac mae'r Llywodraeth yn cytuno â hynny.

## Awdurdodi Gweinyddwyr (Gofynion Mynediad)

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith mai dim ond pobl "addas a phriodol" ddylai gael eu hawdurdodi i weithredu fel gweinyddwyr a chynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Fe wnaethant ddiffinio person "addas a phriodol" fel rhywun o gymeriad da, nad yw wedi

[81] Deddf Gwasanaeth Cofrestru 1953.

cael ei ddyfarnu'n euog o unrhyw drosedd y mae'r rheoleiddiwr yn credu ei bod yn anghydnaws â'r rôl, sy'n 18 oed o leiaf, sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant ar agweddau cyfreithiol bod yn weinyddwr ac sy'n deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal priodas sy'n rhwymo'n gyfreithiol a chyflawni'r rôl.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylid mabwysiadu'r cynigion hyn fel llinell sylfaen ar gyfer pob gweinyddwr. Maent yn gyson â'r dull a ddefnyddir mewn awdurdodaethau cyfraith gwlad eraill, yn pwysleisio pwysigrwydd rôl y gweinyddwr ac yn darparu safon glir ac unffurf ar gyfer sefydliadau enwebu a fydd yn gyfrifol am ddefnyddio'r prawf person "addas a phriodol" ac enwebu gweinyddwyr priodol i'r rheoleiddiwr.[82]

Er mwyn cymharu, yn Seland Newydd mae'n ofynnol i weithredwyr annibynnol ddarparu dogfennau ategol a phasio prawf ar-lein i ddangos cymeriad da, yn ogystal â darparu pedwar llythyr cefnogol wedi'u llofnodi a dau ganolwr cymeriad ar wahân.[83] Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd, gan atal unigolion rhag priodi ar gyfer ffrindiau neu deulu yn unig. Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a ddylid ehangu'r gwiriadau i sicrhau bod person yn 'addas ac yn briodol' fel rhan o'r diwygiadau hyn i gynnwys elfennau pellach fel y rhain.

Un o ofynion Comisiwn y Gyfraith yw na ddylai gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol weithredu pan fydd gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r mesur diogelu ychwanegol arfaethedig hwn gan y gallai roi sylw pellach i bryderon, er enghraifft, drwy fynnu bod cwpl yn defnyddio lleoliad neu wasanaeth penodol (e.e. arlwyo) neu dderbyn taliadau i argymell gwasanaethau eraill.

**Cwestiwn 30**

Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o 'addas a phriodol' a amlinellir uchod? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Os mai 'Nac ydw' oedd eich ateb, sut dylid ehangu'r diffiniad o 'addas a phriodol' i sicrhau mai dim ond gweinyddwyr addas sy'n cael eu henwebu? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun

[82] Swyddfa'r Cofrestrydd Arolygol (Jersey), *Code of Practice for Authorised Civil Celebrants* https://www.gov.je/sitecollectiondocuments/life%20events/code%20of%20practice%20for%20celebrants.pdf a Deddf Priodasau (Yr Alban) 1977.

[83] Llywodraeth Seland Newydd, 'Become a marriage celebrant' <https://www.govt.nz/organisations/births-deaths-and-marriages/information-for-marriage-celebrants/become-a-marriage-celebrant/>https://www.govt.nz/organisations/births-deaths-and-marriages/information-for-marriage-celebrants/become-a-marriage-celebrant/.

- [Testun rhydd]

## Rheoleiddio a Goruchwylio Gweinyddwyr

### Monitro gweinyddwyr

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith, ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi, y dylid monitro pob gweinyddwr (ac eithrio clerigwyr Anglicanaidd) i sicrhau eu bod yn parhau'n "addas a phriodol" ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n gywir. Byddai hyn yn cynnwys monitro cydymffurfiad â gofynion hyfforddi a darparu llwybrau clir ar gyfer codi pryderon am ymddygiad. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith mai'r sefydliad enwebu ddylai fod yn bennaf gyfrifol am fonitro gweinyddwyr enwebedig, er y dylai'r rheoleiddiwr fod â'r pŵer i ddad-awdurdodi swyddogion enwebedig lle bo hynny'n briodol ac os methodd y sefydliad enwebu â gweithredu.

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cael ffordd o wneud cwynion am weinyddwyr enwebedig, annibynnol a morwrol yn uniongyrchol i'r rheoleiddiwr, er mwyn ei alluogi i gael gwybod am unrhyw broblemau gyda'u gwaith. Argymhellodd hefyd na ddylai fod angen adnewyddu awdurdodiad o bryd i'w gilydd, ar y sail y gallai greu ansicrwydd i gyplau am argaeledd swyddog yn y dyfodol a thanseilio natur gydol oes bosibl y rôl.

Er bod y Llywodraeth yn cytuno â dull eang Comisiwn y Gyfraith, mae o'r farn bod angen ystyried a allai mesurau ychwanegol gryfhau goruchwyliaeth er mwyn canfod arferion gwael yn gyflym ac yn effeithiol. Mae dulliau rhyngwladol yn awgrymu ystod o fecanweithiau ychwanegol y gellid eu hystyried er mwyn cefnogi hyn. Er enghraifft, yn Awstralia, mae'n rhaid i weinyddion priodas gwblhau datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn ac maent yn destun fframwaith cwynion a disgyblu ffurfiol. Yn Seland Newydd, mae gweinyddion yn gorfod adnewyddu eu hawdurdodiad o bryd i'w gilydd a disgwylir iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, a gefnogir yn aml drwy gymdeithasau proffesiynol.

Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob gweinyddwr (ac eithrio clerigwyr Anglicanaidd) gael ei ail-awdurdodi bob pum mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o gwblhau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol angenrheidiol i sicrhau eu bod yn parhau i allu cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol a chyflawni eu cyfrifoldebau fel gweinyddwyr.

### Cwestiwn 31

Ydych chi'n credu bod mesurau pellach y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno, ar ben y gofynion monitro a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith, i helpu i nodi arferion gwael?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Os mai "Ydw" oedd eich ateb, eglurwch pa fecanweithiau y gellid eu rhoi ar waith.

- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 32

Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i bob gweinyddwr (ac eithrio clerigwyr Anglicanaidd) adnewyddu eu hawdurdodiad bob 5 mlynedd?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, pa gyfnod adnewyddu ydych chi'n meddwl sy'n briodol ar gyfer awdurdodiad gweinyddwyr?

- [Testun Rhydd]

### Gorfodi a rheoleiddio urddas mewn priodasau

Er mwyn sicrhau bod y fframwaith urddas, a nodir ym Mhennod 4, yn cael ei ddefnyddio'n briodol, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn hanfodol iddo gael ei ategu gan ddull clir o fonitro a gorfodi. Bydd hyn yn sicrhau bod gweinyddwyr yn bodloni eu dyletswydd i gynnal urddas a diogelwch.

Rydym felly'n awgrymu y byddai'n rhaid i weinyddwyr gofnodi eu penderfyniadau'n ymwneud â lleoliad y briodas a ffurf y seremoni a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, gan gyfeirio at y fframwaith urddas, er mwyn cefnogi cysondeb a thryloywder. Rydym yn cynnig y byddai'r penderfyniadau hynny wedyn yn cael eu goruchwylio gan y sefydliad enwebu.

Bydd sicrhau bod y briodas yn urddasol yn ddyletswydd gyfreithiol ac felly byddai gweinyddwyr sydd ddim yn defnyddio'r fframwaith mewn perygl o wynebu sancsiynau drwy eu sefydliad enwebu neu'r rheoleiddiwr, gan gynnwys dad-awdurdodi, a byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i'r sefydliad enwebu a/neu'r rheoleiddiwr gymryd camau cymesur pan na fydd y safonau'n cael eu bodloni.

### Cwestiwn 33

Ydych chi'n cytuno y dylai swyddogion sydd ddim yn defnyddio'r fframwaith urddas, y safonau person addas a phriodol a'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau eraill fod yn destun sancsiynau, gan gynnwys dad-awdurdodi? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Cwynion ac Apeliadau

Roedd consensws cyffredinol yn ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith y dylai sefydliadau enwebu ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros fonitro a dad-awdurdodi eu gweinyddwyr ond y dylai hyn gael ei oruchwylio gan reoleiddiwr canolog.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai cwynion am weinyddwyr enwebedig, annibynnol a morwrol gael eu trin gan y rheoleiddiwr canolog, a fyddai â'r pŵer i ymchwilio i bryderon a chymryd camau priodol, gan gynnwys dad-awdurdodi lle bo hynny'n briodol. Roedd cefnogaeth gref i'r dull hwn yn eu hymgynghoriad.

Roedd mwyafrif sylweddol iawn yr ymgyngoreion o blaid rhoi'r pŵer i'r rheoleiddiwr ddad-awdurdodi gweinyddwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau addas a phriodol neu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel gweinyddwr. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod swyddogaeth gwyno ganolog ar gyfer y rhan fwyaf o swyddogion yn ffordd bwysig o ddiogelu yn erbyn arferion gwael ac yn annog tegwch a chysondeb. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno y dylid cael gweithdrefn i swyddogion apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn erbyn penderfyniad gan y rheoleiddiwr i beidio â'u hawdurdodi, neu i dynnu eu hawdurdodiad yn ôl.

### Cwestiwn 34

Ydych chi'n cytuno â chael rheoleiddiwr canolog i oruchwylio cwynion ar gyfer swyddogion enwebedig, annibynnol a morwrol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Gweinyddwyr Enwebedig

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai'r prif gyfrifoldeb dros oruchwylio gweinyddwyr enwebedig fod yn nwylo'r sefydliad enwebu. Byddai rheoleiddiwr canolog yn goruchwylio'r sefydliadau hynny ac yn cadw pwerau gorfodi yn y pen draw, gan gynnwys y gallu i ddad-awdurdodi gweinyddwyr lle bo angen. I gefnogi'r dull hwn, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai fod yn rhaid i sefydliadau cred gael polisïau clir ar gyfer enwebu a monitro gweinyddwyr fel amod o gael eu hawdurdodi i'w henwebu. Byddai'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â meini prawf cymhwysedd eraill ar gyfer sefydliadau cred sy'n ceisio awdurdodiad i enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r dull hwn. Mae'n darparu llinell atebolrwydd glir a chymesur drwy sefydliadau sefydledig sydd eisoes â threfniadau llywodraethu, gan sicrhau bod rheoleiddiwr yn gallu ymyrryd os nad yw safonau'n cael eu bodloni. Mae hyn yn

osgoi'r angen am oruchwyliaeth uniongyrchol reolaidd o weinyddwyr unigol tra ei fod yn sefydlu goruchwyliaeth reoleiddiol effeithiol er mwyn cynnal safonau uchel.

## Gweinyddwyr Annibynnol

I'r gwrthwyneb, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol (a fyddai, fel y trafodwyd ym Mhennod 6, yn gyfrifol am briodasau ar longau mordeithio mewn dyfroedd rhyngwladol) gael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan reoleiddiwr, yn hytrach na drwy sefydliad canolradd. Roeddent o'r farn y byddai atebolrwydd i un rheoleiddiwr yn cefnogi cysondeb a nodwyd, yn wahanol i sefydliadau cred, nad yw'r gweinyddwyr hyn wedi'u rhwymo ynghyd gan set gyffredin o werthoedd.

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y dull hwn yn creu system oruchwylio ddwy haen ddiangen. Gallai'r nifer fawr a chynyddol bosibl o weinyddwyr annibynnol hefyd greu cymhlethdod sylweddol i'r rheoleiddiwr, gan ei gwneud yn anoddach cynnal goruchwyliaeth uniongyrchol effeithiol o ymarfer nifer fawr o unigolion ar raddfa fawr. [84] Felly, rydym yn argymell dull amgen lle byddai'n rhaid i weithredwyr annibynnol berthyn i sefydliad aelodaeth cydnabyddedig sydd wedi'i gymeradwyo gan reoleiddiwr, yn debyg i'r dull a gynigir ar gyfer grwpiau cred.

O dan y dull hwn, byddai sefydliadau aelodaeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros asesu a yw ymgeiswyr yn "addas a phriodol", yn darparu neu'n hwyluso hyfforddiant, yn monitro cydymffurfiad ac yn delio â chwynion. Byddai'r rheoleiddiwr yn cymeradwyo ac yn goruchwylio'r cyrff hyn gyda phwerau i fonitro cydymffurfiad ac ymyrryd yn uniongyrchol lle bo angen. Byddai hyn yn sicrhau safonau cyson gan osgoi'r angen i'r rheoleiddiwr oruchwylio nifer fawr o weinyddwyr unigol yn uniongyrchol.

Rydym o'r farn y byddai angen meini prawf cymhwysedd clir er mwyn i sefydliadau aelodaeth gael eu cymeradwyo, mewn perthynas â strwythur y sefydliad a sut mae'n penodi ac yn goruchwylio swyddogion. Byddai'r gofynion hyn yn cynnwys y canlynol, fan leiaf:

- Strwythur Sefydliadol: bod yn gorff cofrestredig cyfreithiol yn y DU gyda strwythur llywodraethu sefydledig, gan gynnwys swyddogion cyfrifol a enwir, trefniadau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau clir a'r gallu i ddangos cynaliadwyedd ariannol a chapasiti gweithredol;

- Penodi a Goruchwylio Gweinyddwyr: gweithredu proses ymgeisio gadarn ar gyfer gweinyddwyr, mynnu bod hyfforddiant cydnabyddedig yn cael ei gwblhau (er enghraifft, cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau), darparu datblygiad proffesiynol parhaus, cynnal cod

[84] Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tua 1,000 o weinyddion annibynnol yn cynnal tua 10,000 o seremonïau o'r fath bob blwyddyn.

ymddygiad clir a fframwaith disgyblu, ail-awdurdodi swyddogion bob pum mlynedd a sicrhau bod gan swyddogion yswiriant atebolrwydd priodol.

## Gweinyddwyr Morwrol

Ar gyfer gweinyddwyr morwrol, mae'r Llywodraeth yn cynnig y byddai Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, sydd eisoes yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion bwrdd, yn ymgymryd â'r rôl hon. Byddai hyn yn osgoi ei gwneud yn ofynnol i weinyddwyr morwrol ymuno â sefydliad aelodaeth ychwanegol y tu hwnt i'w gwaith morwrol presennol (oni bai eu bod hefyd yn dewis gweithredu fel gweinyddwr annibynnol) gan barhau i alluogi goruchwyliaeth effeithiol drwy un corff arbenigol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau rôl reoleiddiol uniongyrchol mewn perthynas â swyddogion bwrdd. Mae'n gosod safonau cymhwysedd, yn cyhoeddi "Tystysgrifau Cymhwysedd" i swyddogion bwrdd sy'n gwasanaethu ar longau â baner y DU ac yn achredu hyfforddiant ac arholiadau, fel y rhai a ddarperir drwy golegau morwrol. Mae Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ac yn gorfodi'r gofynion uchod, gan gynnal archwiliadau i sicrhau bod llongau'n cael eu criwio gan swyddogion sydd â'r cymwysterau priodol.

### Cwestiwn 35

Ydych chi'n cytuno y dylai sefydliadau aelodaeth fod yn gyfrifol am fonitro gweinyddwyr annibynnol, yn amodol ar oruchwyliaeth gan y rheoleiddiwr canolog? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 36

Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf cymhwysedd arfaethedig (sy'n ymwneud â strwythur sefydliadol a'u rôl wrth benodi a goruchwylio gweinyddwyr) yn ddigonol?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os nad ydych, oes gennych chi unrhyw gynigion i ehangu'r gofynion hyn?

- [Testun rhydd]

### Cwestiwn 37

Ydych chi'n cytuno y dylai Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau weithredu fel y sefydliad aelodaeth ar gyfer gweinyddwyr morol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw

- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

## Hyfforddi Gweinyddwyr

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y byddai'r rheoleiddiwr, ar gyfer gweinyddwyr sefydliadau cred, yn goruchwylio hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan y sefydliadau eu hunain. Ni wnaeth Comisiwn y Gyfraith nodi'r gofynion hyfforddi'n benodol ac yn hytrach gwnaeth awgrymiadau ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys. Er enghraifft, hyfforddiant ar sut i gynnal priodasau cyfreithiol ar gyfer sefydliadau cred crefyddol ac anghrefyddol, a fyddai'n cael ei gymeradwyo gan y Cofrestrydd Cyffredinol.[85] Fe wnaethant hefyd argymell y dylai pob gweinyddwr gael hyfforddiant ar alluedd a chydsyniad.

Fe wnaethant argymell bod y rheoleiddiwr yn gweithredu fel y prif ddarparwr hyfforddiant uniongyrchol ar gyfer gweinyddwyr annibynnol a gweinyddwyr morwrol, neu sefydliadau cred os nad ydynt yn gallu darparu eu hyfforddiant eu hunain. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â phwysigrwydd safon gyffredinol ac uchel o hyfforddiant a bod gan y rheoleiddiwr rôl allweddol o ran sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni, yn enwedig ar gyfer gweinyddwyr annibynnol.

Yn unol â'r dull arfaethedig a nodir uchod, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai sefydliadau aelodaeth cymeradwy ar gyfer gweinyddwyr annibynnol fod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, yn amodol ar oruchwyliaeth reoleiddiol i sicrhau bod yr hyfforddiant o'r safon uchel sydd ei angen.

Byddai hyn yn osgoi'r angen i'r rheoleiddiwr ddatblygu a darparu hyfforddiant yn uniongyrchol, gan ganiatáu iddo ganolbwyntio yn hytrach ar oruchwylio'r hyfforddiant a ddarperir gan eraill. Gallai goruchwyliaeth gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod hyfforddiant wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau a bod sefydliadau'n darparu digon o hyfforddiant i sicrhau bod gweinyddwyr yn gallu adnabod priodasau dan orfod, priodasau rheibus a phriodasau ffug. Ar hyn o bryd mae'r Uned Priodasau dan Orfod yn darparu hyfforddiant i gofrestryddion ac mae ganddi gyrsiau ar-lein am ddim ar adnabod arwyddion priodas dan orfod. Mae'n bosibl y gellid ymestyn neu ddyblygu'r hyfforddiant presennol, ynghyd â'r cynigion ym Mhennod 2, i wella mesurau diogelu a sicrhau bod y gweinyddwyr wedi'u hyfforddi'n ddigonol.

**Cwestiwn 38**

[85] Ar hyn o bryd, mae'r Cofrestrydd Cyffredinol yn darparu canllawiau ysgrifenedig i unigolion awdurdodedig a Rhaglen â Sicrwydd Cenedlaethol ardystiedig i hyfforddi cofrestryddion awdurdodau lleol.

Ydych chi'n cytuno, yn yr un modd â grwpiau cred, y dylai sefydliadau aelodaeth fod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, ar yr amod bod y rheoleiddiwr canolog yn sefydlu'r safon ar gyfer hyfforddiant?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant?

- [Testun rhydd]

## Rheoleiddiwr Canolog

Nododd Comisiwn y Gyfraith mai'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yw'r rheoleiddiwr mwyaf priodol, o ystyried ei chyfrifoldeb presennol dros gofrestru priodasau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ac am gadw cofnod o gofrestryddion awdurdodedig. Ni wnaeth Comisiwn y Gyfraith nodi rheoleiddiwr arall. Nid oes gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol rôl reoleiddio ar hyn o bryd a byddai rheoleiddio gweinyddwyr fel y disgrifir uchod yn golygu ehangu cylch gwaith y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn sylweddol a byddai angen adnoddau ychwanegol sylweddol arni i'w galluogi i gyflawni'r dyletswyddau hynny'n briodol.

Dewis arall fyddai sefydlu sefydliad newydd i weithredu fel y rheoleiddiwr. Ni chafodd yr opsiwn hwn ei ystyried gan Gomisiwn y Gyfraith a byddai'n ymrwymiad sylweddol, a fyddai angen amser ac adnoddau i'w sefydlu, ond byddai'n caniatáu i sefydliad pwrpasol gael ei sefydlu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn, un sydd wedi'i ddylunio i ganolbwyntio ar reoleiddio priodasau.

Mae'r Llywodraeth yn gofyn am farn ar ba sefydliad fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rôl y rheoleiddiwr canolog a bydd yn gosod cynlluniau mwy manwl ar ôl i'r ymatebion gael eu hadolygu a'u dadansoddi.

### Cwestiwn 39

Ydych chi'n cytuno â Chomisiwn y Gyfraith mai'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol fyddai'r sefydliad mwyaf addas i ymgymryd â rôl rheoleiddiwr canolog?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu

Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, egurwch pwy ddylai ymgymryd â'r rôl hon?

- Corff rheoleiddio newydd
- Arall (rhowch fanylion isod)
- [Testun rhydd]

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Pennod 2: Rhagarweiniadau

1. A ddylid darparu gwybodaeth a chyfeirio ar y llwyfan hysbysu ar-lein er mwyn cefnogi a diogelu cyplau, gan gynnwys mewn perthynas â phriodas dan orfod, cydsyniad a galluedd?

2. Ydych chi'n cytuno â'r math o wybodaeth y mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid ei darparu yn ystod y cam hysbysiad ar-lein? Mae hyn yn cynnwys deunydd i helpu unigolion i adnabod dangosyddion posibl o orfodaeth neu reolaeth, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth am sut i ofyn am gymorth drwy'r Uned Priodasau dan Orfod, sut i godi pryderon yn ystod y broses ragarweiniadau a chyfeirio at gymorth ac arweiniad am berthnasoedd. Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

3. Beth yw eich barn am y math o dystiolaeth a ddylai fod yn ofynnol ar gyfer yr eithriad seiliedig ar niwed rhag cyhoeddi hysbysiad ar-lein? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

4. Ydych chi'n cytuno, yn y cyfweliad wyneb yn wyneb, y dylai cofrestryddion orfod gofyn set benodol o gwestiynau sydd â'r nod o nodi priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

## Pennod 3: Ffurfio Priodas yn Gyfreithiol

5. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gydsyniad gael ei fynegi drwy gyflawni gweithredoedd mewn seremonïau cred crefyddol ac anghrefyddol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

6. Ydych chi'n cytuno â'r geiriau gofynnol arfaethedig ar gyfer priodasau sifil? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

7. Oes yna unrhyw amrywiadau penodol i'r geiriau gofynnol y dylid eu hystyried yn dderbyniol ac y dylai "geiriau i'r un perwyl" fod yn berthnasol iddynt? Esboniwch eich rhesymeg a/neu rhowch enghreifftiau yn y blwch testun.

## Pennod 4: Y Fframwaith Urddas

8. Ydych chi'n cytuno â fframwaith urddas newydd arfaethedig y Llywodraeth i gefnogi gweinyddwyr yn eu dyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod priodasau'n urddasol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

9. Ydych chi'n cytuno â'n safon urddas gyffredinol arfaethedig?
    - Mae'r briodas yn galluogi'r cwpl i fynegi cydsyniad rhydd a gwybodus i briodi, mewn ffordd ddealladwy.
    - Nid yw'r briodas yn cael ei thanseilio gan ymyrraeth neu ddibrisio.
    - Mae'r briodas yn adlewyrchu arwyddocâd a difrifoldeb priodas fel digwyddiad mawr mewn bywyd ac ymrwymiad gydol oes.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

10. Ydych chi'n cytuno â'r safon ategol arfaethedig a fydd yn cefnogi'r gweinyddwr i gytuno ar leoliad priodas urddasol?

- Mae'r lleoliad priodas yn caniatáu i gyfranogwyr fynychu'n ddiogel.
- Mae'r lleoliad priodas yn caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan yn y seremoni.
- Mae'r lleoliad priodas yn lleihau'r risg o unrhyw dynnu sylw y gellid bod wedi cael ei ragweld a'i atal yn rhesymol.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

11. Ydych chi'n cytuno â'r safon ategol arfaethedig a fydd yn cefnogi'r gweinyddwr i gytuno ar seremoni briodas urddasol?
    - Dylai'r seremoni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd
    - Dylai'r seremoni drin yr achlysur â pharch
    - Dylai'r seremoni osgoi'r risg o wneud i briodas ymddangos yn ddibwys.

Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

12. Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau arfaethedig y dylai gweinyddwr eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw lleoliad yn urddasol? Efallai yr hoffech roi rhesymau neu awgrymiadau ar gyfer ffactorau ychwanegol yn y blwch testun.

13. Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau y dylai'r gweinyddwyr eu hystyried wrth benderfynu a fydd seremoni briodas yn urddasol? Efallai yr hoffech roi rhesymau neu awgrymiadau ar gyfer ffactorau ychwanegol yn y blwch testun.

14. Ydych chi'n meddwl y dylid cael cyfyngiadau ar fwyta neu yfed, gan gynnwys alcohol, yn ystod seremoni briodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun, gan gynnwys ble y dylai unrhyw gyfyngiadau fod yn berthnasol ac a ddylai unrhyw gyfyngiadau wahaniaethu rhwng defnydd hamdden a bwyd neu ddiod a ddefnyddir am resymau crefyddol, anghrefyddol, seremonïol neu feddygol.

15. Ydych chi'n meddwl y dylid cael cyfyngiadau penodol ar weithredoedd neu elfennau sy'n seiliedig ar gimig neu sy'n dibrisio mewn seremoni briodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun, gan gynnwys sut y dylid cydbwyso unrhyw gyfyngiadau yn erbyn mynegiant personol ac elfennau ysgafn neu ddiwylliannol ystyrlon.

16. A ddylid caniatáu cynnwys cred crefyddol neu anghrefyddol mewn seremoni sifil, ar yr amod nad yw'r seremoni'n atgynhyrchu, nac yn gyfystyr â, gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol llawn? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun. Os mai "Dylid" oedd eich ateb, mae'r Llywodraeth wedi rhoi enghreifftiau unigol o elfennau cred crefyddol neu anghrefyddol, fel cyfnewid modrwyau neu ddarlleniad o'r Beibl, a allai fod yn addas i'w cynnwys mewn seremoni sifil ac enghreifftiau o gyfuniadau o elfennau a allai fod yn gyfystyr â gwasanaeth cred crefyddol neu anghrefyddol llawn. Oes yna unrhyw enghreifftiau pellach a fyddai, yn eich barn chi, yn helpu i ddangos y gwahaniaeth hwn rhwng elfennau gwasanaeth a chred yn ymarferol? Rhowch resymau lle bo modd.

17. Ydych chi'n cytuno na ddylid caniatáu i weinyddwyr sy'n cael eu cyflogi gan y wladwriaeth, h.y., cofrestryddion, arwain na chymryd rhan mewn cynnwys cred crefyddol neu anghrefyddol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

## Pennod 5: Lleoliadau Penodol ar gyfer Priodasau

18. Ydych chi'n cytuno y dylai lleoliadau priodasau allu gwneud cais am rag-awdurdodi, os ydynt yn dewis gwneud hynny? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

19. Ydych chi'n cytuno y dylai cymeradwyaeth ar gyfer lleoliadau wedi'u rhag-awdurdodi fod yn amodol ar gyfnod penodol ac ar ofynion adnewyddu a dirymu os nad yw'r amodau cymeradwyo'n cael eu bodloni mwyach? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun. Os mai "Ydw" oedd eich ateb, beth ddylai'r cyfnod penodol fod? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

20. Oes yna angen mesurau diogelu eraill i (1) amddiffyn rhag priodasau dan orfod, priodasau rheibus neu briodasau ffug a (2) sicrhau diogelwch seremonïau a gynhelir mewn cartrefi preifat? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

21. Ydych chi'n cytuno y dylai priodasau allu cael eu cynnal mewn moroedd tiriogaethol a dyfroedd mewndirol, yn amodol ar y sicrwydd bod diogelwch ac urddas yn cael eu cynnal? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

22. Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu priodasau mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y DU gyda phorthladd o ddewis yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod eu bod yn cadw at y broses rhagarweiniadau sifil? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

## Pennod 6: Rôl Gweinyddwyr

23. Ydych chi’n cytuno y dylai pob gweinyddwr fod â dyletswydd gyfreithiol i gynnal urddas ac arwyddocâd priodas? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

24. Ydych chi'n cytuno y dylai sefydliadau fod wedi cael eu sefydlu am o leiaf tair blynedd cyn enwebu swyddogion i gynnal priodasau cyfreithiol? Esboniwch eich rhesymeg yn y blwch testun. Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n bwriadu ei gael yn lle hynny? Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd ac yn dewis cyfnod gwahanol, esboniwch pam isod.

25. Ydych chi’n cytuno, er mwyn i sefydliad cred allu enwebu gweinyddwyr i gynnal priodasau sy’n rhwymo mewn cyfraith, y dylai isafswm nifer yr aelwydydd sy’n aelodau o’r sefydliad hwnnw fod yn 100? Os ydych chi’n anghytuno ag isafswm nifer yr aelwydydd o 100, pa nifer fyddech chi’n ei gynnig yn lle hynny? Os ydych chi wedi dewis rhif gwahanol, eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

26. A ddylai’r Llywodraeth gael eithriadau penodol ar gyfer rai grwpiau yn eu hatal rhag gallu enwebu gweinyddwyr fel sefydliadau cred? Os dylai, ticiwch pa rai o’r grwpiau canlynol ddylai gael eu gwahardd yn benodol. Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun:
    - Pleidiau Gwleidyddol
    - Undebau Llafur
    - Siambrau Masnach
    - Sefydliadau sy’n hyrwyddo dibenion anghyfreithlon
    - Arall (nodwch)

    Os ydych chi’n anghytuno y dylid cael eithriadau penodol, eglurwch pam isod.

27. Ydych chi’n cytuno â chaniatáu i weinyddwyr annibynnol gynnal priodasau sy’n rhwymo mewn cyfraith? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

28. Ydych chi’n cytuno â chaniatáu i weinyddwyr morwrol gynnal priodasau sy’n rhwymo mewn cyfraith mewn dyfroedd rhyngwladol ar longau mordeithio sydd wedi’u cofrestru yn y DU? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

29. Ydych chi’n cytuno mai dim ond swyddogion bwrdd y dylid eu hawdurdodi fel gweinyddwyr morwrol, ond gan ffafrio capteiniaid llongau? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

## Pennod 7: Rheoleiddio Gweinyddwyr

30. Ydych chi’n cytuno â’r diffiniad o ‘addas a phriodol’ a amlinellir uchod? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun. Os mai ‘Nac ydw’ oedd eich ateb, sut dylid ehangu’r

diffiniad o 'addas a phriodol' i sicrhau mai dim ond gweinyddwyr addas sy'n cael eu henwebu? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

31. Ydych chi'n credu bod mesurau pellach y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno, ar ben y gofynion monitro a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith, i helpu i nodi arferion gwael? Os mai "Ydw" oedd eich ateb, eglurwch pa fecanweithiau y gellid eu rhoi ar waith.

32. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i bob gweinyddwr (ac eithrio clerigwyr Anglicanaidd) adnewyddu eu hawdurdodiad bob 5 mlynedd? Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, pa gyfnod adnewyddu ydych chi'n meddwl sy'n briodol ar gyfer awdurdodiad gweinyddwyr?

33. Ydych chi'n cytuno y dylai swyddogion sydd ddim yn defnyddio'r fframwaith urddas, y safonau person addas a phriodol a'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau eraill fod yn destun sancsiynau, gan gynnwys dad-awdurdodi? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

34. Ydych chi'n cytuno â chael rheoleiddiwr canolog i fonitro cwynion ar gyfer swyddogion enwebedig, annibynnol a morol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

35. Ydych chi'n cytuno y dylai sefydliadau aelodaeth fod yn gyfrifol am fonitro gweinyddwyr annibynnol, yn amodol ar oruchwyliaeth gan y rheoleiddiwr canolog? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

36. Ydych chi'n cytuno bod y meini prawf cymhwysedd arfaethedig (sy'n ymwneud â strwythur sefydliadol a'u rôl wrth benodi a goruchwylio gweinyddwyr) yn ddigonol? Os nad ydych, oes gennych chi unrhyw gynigion i ehangu'r gofynion hyn?

37. Ydych chi'n cytuno y dylai Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau weithredu fel y sefydliad aelodaeth ar gyfer gweinyddwyr morol? Eglurwch eich rhesymau yn y blwch testun.

38. Ydych chi'n cytuno, yn yr un modd â grwpiau cred, y dylai sefydliadau aelodaeth fod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, ar yr amod bod y rheoleiddiwr canolog yn sefydlu'r safon ar gyfer hyfforddiant? Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant?

39. Ydych chi'n cytuno â Chomisiwn y Gyfraith mai'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol fyddai'r sefydliad mwyaf addas i ymgymryd â rôl rheoleiddiwr canolog? Os mai "Nac ydw" oedd eich ateb, egurwch pwy ddylai ymgymryd â'r rôl hon?

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, a rhowch ddisgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 24 Medi 2026 at:

Family Justice Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: weddingslawconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan weddingslawconsultation@justice.gov.uk.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, cofiwch fod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech egluro wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os

byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad ond ni allwn sicrhau y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

Mae'r asesiad o'r effeithiau yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn: INSERT LINK HERE

## Cydraddoldeb

Mae'r datganiad cydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn: INSERT LINK HERE

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Rydym wedi ystyried y goblygiadau i'r Gymraeg. Bydd fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiwn hwn yn: INSERT LINK HERE

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03533475

978-1-5286-6192-8

E03533475

978-1-5286-6192-8